RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

36/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

30/03/2023

# O'r Ddeddf i'r Effaith?

## Adroddiad Terfynol ar Werthusiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80535-564-9

**O'r Ddeddf i'r Effaith?**

Adroddiad Terfynol ar *Werthusiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*


Mark Llewellyn, Fiona Verity, Sarah Wallace, Gideon Calder, Tony Garthwaite, Jennifer Lyttleton-Smith, a Simon Read



Llewellyn M, Verity F, Wallace S, Calder G, Garthwaite T, Lyttleton-Smith J, &d Read S (2023). *Adroddiad Terfynol ar Gwerthusiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.* Caerdydd. Rhif adroddiad GSR Llywodraeth Cymru 36/2023. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/adroddiad-terfynol-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014.


**IMPACT: Gwerthusiad Cenedlaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**


*Tîm yr Astudiaeth:*

Mark Llewellyn, Fiona Verity, Pippa Anderson, Catrin Awoyemi, Nick Andrews, Heulwen Blackmore, Noreen Blanluet, Gideon Calder, Tony Garthwaite, Wahida Kent, Jen Lyttleton-Smith, Alison Orrell, Ceri Phillips, Malcolm Prowle, Jonathan Richards, Roiyah Saltus, Sion Tetlow, Carolyn Wallace a Sarah Wallace.

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru; Prifysgol De Cymru; Prifysgol Abertawe; Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Prifysgol Bangor.

*Prif Arweinydd yr Astudiaeth:*

**Yr Athro Mark Llewellyn**[1]

Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ac Athro Polisi Iechyd a Gofal

Prifysgol de Cymru

mark.llewellyn@southwales.ac.uk


[1] Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru: Aelodau'r Tîm WIHSC | Prifysgol De Cymru

Dydy’r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ddim o anghenraid yn farn Llywodraeth Cymru. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag:

Adran Gwasanaethu Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

research.healthandsocialservices@gov.wales

# Tabl y Cynnwys


1. Rhagymadrodd ........ 5
   - Casglu data ........ 8
   - Rhychwant Gwerthusiad IMPACT ........ 11
   - Cyfyngiadau'r astudiaeth i gyd ........ 12
2. Cyrraedd at y Ddeddf ........ 14
   - Tarddiad ........ 14
   - Darpar newidiadau a bwriadau strategol ........ 15
   - Polisi a deddfwriaeth ategol a rhai blaenorol ........ 18
3. Cyd-destun y Ddeddf ........ 20
   - Cyd-destun y data ........ 20
   - Cymhlethdod y cyflenwi ........ 26
   - Cymhlethdod yr adnoddau ........ 27
   - Cymhlethdod yr anghenion ........ 31
   - Goblygiadau'r ffactorau cyd-destunol ar gyfer yr astudiaeth ........ 32
4. Cysyniadoli: mynegi egwyddorion y gellir eu gwerthuso a'r Ddeddf ........ 36
   - Ystyr eglurder ........ **Error! Bookmark not defined.**
   - Ystyr amwysedd ........ 39
   - Ystyr ar y trothwy ........ 40
   - Crynodeb – mynd i'r afael â P-FE ........ 42
5. Gweithredu: glynu at egwyddortion y Ddeddf yn ymarferol ........ 44
   - Cyflwyniad ........ 44
   - Ymateb positif i'r egwyddorion ........ 46
   - Sialensiau ........ 51
   - Adnoddau a'u cyd-destun ........ 52
   - Newid hinsawdd diwylliannol ........ 54
   - COVID-19: 'melltith' a 'chyfle ........ 55
   - Crynodeb – mynd i'r afael â P-FE ........ 56
6. Optimeiddio Gwelliant: caniatáu i'r egwyddorion gyflenwi'r canlyniadau dymunol o dan y Ddeddf ........ **Error! Bookmark not defined.**
   - Cyflwyniad ........ 59
   - Ydy'r ddeddf yn diwallu eu hamcanion? ........ 60

Drwyddi draw, pa wahaniaethu mae'r Ddeddf wedi'i / yn debygol o wneud? ........................ 66
Oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Ddeddf? ......**Error! Bookmark not defined.**
Crynodeb – mynd i'r afael â P-FE............................................**Error! Bookmark not defined.**

7. O'r Ddeddf i'r Effaith? Argymhellion a chwestiynau prawf ar gyfer trawsnewid ...**Error! Bookmark not defined.**

Pa gamau gweithredu pellach, newid neu ddatblygiad sydd ei angen ? **Error! Bookmark not defined.**
'Cwestiynau prawf' wedi'u mapio i fwriadau strategol y Ddeddf ............. **Error! Bookmark not defined.**
Y gair olaf.......................................................................................**Error! Bookmark not defined.**

Cyfeiriadau .......................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

## Rhestr y Tablau

Tabl1.1: Pum egwyddor y Ddeddf a'i phum parth cysylltiiol .................................................6
Tabl 1.2: Cyfnod yr astudiaeth, allbynnau a chwantwm / math o dystiolaeth a gafwyd..........9

## Rhestr y Ffigyrau

Ffigwr 1.1: Gwerthuso â'r Ffocws ar Egwyddorion – cwestiynau ac allbwn yr astudiaeth.....7
Ffigwr 1.2: Cylch Gorchwyl a ffiniau astudiaeth werthuso IMPACT ..................................11
Ffigwr 2.1: Bwrdd Stori tarddiad y Ddeddf ...........................................................................15
Ffigwr 3.1: Nifer y bobl sy'n derbyn cyngor neu gymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a help yn ystod y flwyddyn..........................................................................21
Ffigwr 3.2: Nifer yr asesiadau angen gofal a chymorth a gynhaliwyd .................................22
Ffigwr 3.3: Nifer yr asesiadau angen gofal a chymorth ar ofalwyr a gynhaliwyd..................22
Ffigwr 3.4: Nifer yr oedolion sy'n derbyn gwasanaethau....................................................23
Ffigwr 3.5: Nifer y plant sy'n derbyn gwasanaethau...........................................................23
Ffigwr 3.6: Nifer y gweithwyr gofal sydd wedi cofretru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.....24
Ffigwr 3.7: Nifer y bobl o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol fesul maes gwasaneth..........25
Ffigwr 3.8: Cyfanswm gwasanaethau cymdeithasol fesul grŵp cleient, Cymru (£ miloedd) 26
Ffigwr 3.9: Gwerthuso'r Ddeddf ar ffurf pictograffau – Hydref 2018....................................32
Ffigwr 3.10: Y Ddeddf – Hydref 2022...................................................................................34
Ffigwr 5.1: Safbwyntiau'r gweithlu am y daith weithredu – Cyn-COVID 19..........................57

## Rhestr Termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **ALlau** | Awdurdodau Lleol |
| **Atal ac Ymyriad Cynnar** | Egwyddor y Ddeddf sy'n ceisio sicrhau y gall pobl gyrchu cymorth er mwyn rhwystro sefyllfa rhag gwaethygu ac i wella wrth gynnal llesiant yr unigolyn a chyd-lesiant mae pwyslais pennaf yr egwyddor ar gynyddu gwasanaethau ataliol o fewn cymunedau er mwyn rhwystro angen critigol rhag dwysáu. |
| **Cartrefi Gofal** | Cartrefi gofal ydy mannau preswyl ar gyfer plant, oedolion a phobl hŷn (yn nodweddiadol). Mae dau fath o cartref gofal (preswyl a nyrsio) a bydd pobl yn byw yn y cartref sy'n gweddu orau i'w hanghenion. Gall cartrefi gofal gael eu rhedeg gan gwmnïau preifat neu sefydliadau gwirfoddol neu elusennol neu weithiau gan gynghorau lleol. |
| **Cyd-Gynhyrchu** | Mae egwyddor y Ddeddf yn anelu at ymglymu pobl yn fwy yng nghynllun a darpariaeth eu gofal. Mae'n golygu bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr i wneud eu gofal y gorau all fod. |
| **Gofal Cartref** | Diffinnir gofal cartref fel yr ystod o wasanaethau a sefydlir i gynorthwyo unigolion yn eu cartrefi eu hunain. Gallai gwasanaethau gynnwys tasgau arferol cadw tŷ o fewn a thu allan i'w cartref, gofal personol y cleient a'r gwasanaethau domestig eraill cysylltiedig sy'n angenrheidiol i gynnal lefel dderbyniol o iechyd, hylendid, urddas, diogelwch ac esmwythder yn eu cartref eu hunain. |
| **Gofalwr** | Diffiniad y Ddeddf/ Act o ofalwr ydy "unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal ar gyfer oedolyn neu blentyn anabl …nid gofalwr at ddibenion y Ddeddf hon ydy person sy'n darparu gofal o dan gontract neu yn rhinwedd contract." At ddibenion ein hastudiaeth ni, ac felly'n cyd-redeg â'r ddeddfwriaeth, mae'r term 'gofalwr' yn cyfeirio at y rhai sydd ddim yn cael eu talu am eu gwaith – cyfeirir at yr rhai hynny sy'n cynnig gofal o dan gontract neu yn rhinwedd fel gweithwyr gofal neu fel rhan o'r gweithlu. |
| **Gweithio'n Aml-Asiantaethol** | Egwyddor y Ddeddf sy'n atgyfnerthu cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael yn y cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb hollgyffredinol y Ddeddf yn datgan bod gofyn am gydweithrediad a phartneriaeth gan awdurdodau cyhoeddus' |
| **Llais a Rheolaeth** | Egwyddor y Ddeddf sy'n ceisio gosod unigolion a'u hanghenion ynghanol eu gofal a'u cymorth a rhoi llais iddyn nhw yn, a rheolaeth dros, y canlyniadau a all eu helpu i gyflawni llesiant a'r pethau sydd bwysicaf iddyn nhw. |
| **Llesiant** | Egwyddor y Ddeddf sy'n sicrhau bod llesiant ym mhob rhan o fywyd pobl. Mae llesiant yn fwy na chadw'n iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel a hapus, cael dewis a derbyn y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gref, cael ffrindiau a pherthynas sy'n dda i chi a chael hobïau, gwaith neu ddysgu pethau. Mae'n ymwneud â chynorthwyo pobl i gyflawni eu llesiant eu hunan a mesur llwyddiant y gofal a'r cymorth. |
| **P-FE** | Gwerthuso Wedi'i Ffocysu ar Egwyddorion |
| **SERG** | Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth |
| **'Sgwrs am 'Yr Hyn sy'n Bwysig'** | Mae sgyrsiau ar 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn fodd i weithwyr proffesiynol ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant cyfredol a'r hyn y gellir ei wneud i'w cynorthwyo. Mae'n sgwrs gyfartal ac yn bwysig i sicrhau bod llais yr unigolyn neu'r gofalwr yn cael ei glywed a'r 'Hyn sy'n Bwysig' iddyn nhw. |
| **Taliadau Uniongyrchol** | Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi unigolion a/neu eu gofalwyr yr aseswyd bod ganddyn nhw anghenion gofal cymwys i chwilio am ofal sydd wedi'i deilwra i'w anghenion yn hytrach na defnyddio darparwyr statudol sydd eisoes yn bodoli. Eu bwriad ydy cynnig mwy o hyblygrwydd, annibyniaeth a dewis a rheolaeth dros y cymorth y mae pobl hyn ei dderbyn. |

## Diolchiadau

Hoffai'r tîm ymchwil gydnabod cyfraniad nifer o bobl na fyddai'r astudiaeth hon wedi bod yn bosibl hebddyn nhw. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i bawb sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a weithredodd fel porthorion i ni yn ein gwaith. Mae gennym ddyled fawr i'r awdurdodau lleol hynny a ddarparodd ddata ar ein cyfer a chaniatáu i'w staff gael eu cyfweld. Rydyn ni'n ddiolchgar bod cymaint o weithwyr rheng flaen a rheolwyr o'r sectorau annibynnol, gwirfoddol a'r sector cyhoeddus wedi bod yn awyddus i achub ar y cyfle i siarad â'r tîm a'n gobaith ydy eu bod yn teimlo bod eu cyfraniadau yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn yr astudiaeth.

Sefydlon ni Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth yn cynnwys sefydliadau rhanddeiliaid ar draws Cymru, ac rydyn ni'n sylweddoli rôl mor bwysig y chwaraeon nhw yn ein gwaith. Cynhaliwyd y grŵp yn wych gan ein tair cyd-gadeiryddion o ddinasyddion – Karen, Margaret ac Ana. Hoffen ni ddiolch iddyn nhw am eu hymroddiad i'r astudiaeth ac am gynnig her a gwrando'n effeithiol ar ein syniadau drwy gydol yr astudiaeth. Yn olaf, rydyn am gydnabod rôl defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr am roi o'u hamser i siarad â ni. Yn aml, roedd ein sgyrsiau – yn enwedig yn ystod COVID – dan len emosiynau pobl oedd yn sylweddoli er nad oedd pethau'n berffaith, roedden nhw'n dal wedi ymrwymo'n llwyr i wella pethau. Ein gobaith ydy ein bod wedi cynrychioli eu barn yn deg ac y bydd eu tystiolaeth yn sail i'r hyn fydd yn digwydd nesaf yn ystod oes *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)*

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Ddeddf') yn elfen hanfodol o bolisi Llywodraeth Cymru i greu 'newidiadau trawsffurfiol ' yn narpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru[2]. Mae iddi 11 rhan ac mae wedi'i seilio ar bum egwyddor: llesiant, llais a rheolaeth (yn rhedeg 'drwy ganol' y Ddeddf (ibid, tud.9); ataliad ac ymyriad cynnar, gweithio aml-asiantaethol a chyd-gynhyrchu. Mae'r ddeddf yn nodi swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y ddeddfwriaeth[3].

1.2 Comisiynodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth o academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru ac ymgynghorwyr arbenigol i lunio gwerthusiad o'r Ddeddf. Cynhaliwyd y gwerthusiad cenedlaethol hwn – astudiaeth IMPACT – rhwng Tachwedd 2018 a mis Hydref 2022 dan arweiniad yr Athro Mark Llewellyn, Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) ym Mhrifysgol De Cymru (USW) ynghyd â'r Athro Fiona Verity, Athro Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe. Roedd y bartneriaeth hefyd yn cynnwys cydweithwyr eraill o USW a phrifysgolion Metropolitan Caerdydd a Bangor a Chanolfan PRIME Cymru, a chymorth gan y Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth (SERG)[4] gyda'i thair cyd-gadeiryddion o ddinasyddion.

1.3 Dyma Adroddiad Terfynol astudiaeth IMPACT, yn cyfuno'r holl ganfyddiadau o'r un astudiaeth ar ddeg a gynhaliwyd wrth werthuso gweithrediad y Ddeddf.

**Y dull o fynd ati i werthuso a chwestiynau**

1.4 Defnyddiodd astudiaeth IMPACT ddull Michael Patton o fynd ati sef 'Gwerthuso gan Ffocysu ar Egwyddorion' (P-FE), yn fframwaith gwerthuso. Yn codi o faes gwerthuso datblygiadol (Patton, 2010), mae P-FE yn canolbwyntio ar werthuso'r modd y mae egwyddorion yn ganllawiau i weithredu ymyriadau neu raglenni mewn cyd-destunau sy'n gymhleth, ansicr a 'chythryblus' a'r hyn sy'n digwydd o ganlyniad (Patton, 2018, tud.viii).

---

[2]Llywodraeth Cymru, 2013, tud.23

[3] Ddeddf, 2014, tud.1.

[4] Am ragor o wybodaeth am SERG, gweler: Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth | Prifysgol de Cymru

1.5 Dyma'r dull a ddewiswyd i fod yn ddull trosfwaol o fynd ati er mwyn ystyried pa mor ganolog ydy egwyddorion i'r Ddeddf a'r amgylcheddau a'r parthau croesdoriadol a deinamig y mae'r Ddeddf yn cael ei gweithredu (gweler Tabl 1.1).

**Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf a'i phum parth cysylltiol**[5]

| Egwyddorion | Parthau |
|---|---|
| – Llesiant | – Dinasyddion |
| – Llais a rheolaeth | – Teuluoedd a Gofalwyr |
| – Cyd-gynhyrchu | – Cymunedau |
| – Gweithio aml-asiantaethol | – Gweithlu |
| – Ataliad ac ymyriad cynnar | – Sefydliadau |

1.6 Mae'r rhain yn cynnwys amgylcheddau cydgysylltiol o gymhlethdod polisi, cymhlethdod cyflenwi gofal cymdeithasol, cymhlethdod dod o hyd i adnoddau, a chymhlethdod anghenion y boblogaeth (gweler Pennod 2 am drafodaeth ar hyn). Fel mae Davey et al (2017, tud.14) yn dadlau'n briodol, ni allwn fapio'r holl system.[6] O ystyried y cymhlethdod hwn, y rhesymeg dros ddefnyddio dull P-FE o fynd ati oedd i sicrhau bod fframwaith priodol a chadarn yn bodoli i werthuso ymyriad cymhleth, wedi'i gyflenwi mewn gwahanol gyd-destunau ar adeg o newid dybryd.

1.7 Mae tri chwestiwn canolog sy'n cael eu hateb mewn gwerthusiad P-FE, a rhain fframiodd y gwaith a wnaed ar draws yr astudiaeth hon. Cynrychiolir y modd y mae'r cwestiynau hyn yn mapio ar yr allbynnau a grëwyd gan yr astudiaeth[7] yn Ffigwr 1.1. (ar y dudalen nesaf):


1. I ba raddau cafodd egwyddorion ystyrlon y gellir eu gwerthuso eu disgrifio?
2. Os disgrifiwyd egwyddorion, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y cedwir atyn nhw yn ymarferol?
3. Os cedwir atyn nhw, i ba raddau ac yma mha ffyrdd mae'r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau dymunol? (Patton, 2018, tud.ix).

[5] Cynigir diffiniadau o'r egwyddorion hyn gan Gofal Cymdeithasol Cymru a'u cynnwys yn Rhestr Termau'r ddogfen hon.

[6] Davey et al., (2017)

[7] Rhestrir yr allbynnau hyn yn fanwl yn Nhabl 1.2.

**Ffigwr 1.1: Gwerthuso gyda'r Ffocws ar yr Egwyddorion (P-FE) – cwestiynau ac allbynnau'r astudiaeth**



1.8 Mae'r tri chwestiwn P-FE yn adeiladu ar bedwar cwestiwn arall y gofynnwyd i dîm yr ymchwil mynd i'r afael â nhw ym manyleb wreiddiol y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru:

1. Pa (os oes rhai) ganlyniadau anfwriadol sydd wedi codi o'r Ddeddf ?
2. Pa gamau pellach, newid neu ddatblygiad sydd ei angen?
3. A ydy'r Ddeddf yn diwallu ei hamcanion o ran yr egwyddorion?
4. Yn gyffredinol, pa wahaniaeth mae'r Ddeddf wedi'i wneud / yn debygol o wneud?

**Casglu data**

1.9 Rhaglen waith oedd prosiect IMPACT oedd yn cynnwys 11 o astudiaethau unigol a gynhaliwyd ac adroddwyd arni o fis Tachwedd 2018 (ceir y manylion yn Ffigwr 1.1. uchod ac Thabl 1.2).

1.10 Cychwynnodd gyda dadansoddiad o fwriadau strategol y Ddeddf a disgrifiad o ffactorau cyd-destunol ar adeg gweithredu Fframwaith 2019 (Fframwaith ar gyfer Newid, 2019). Cynhaliwyd adolygiadau llenyddiaeth ar gyfer pob un o egwyddorion y Ddeddf. Adolygwyd dros 350 o ffynonellau llenyddiaeth sef erthyglau, llyfrau ac adroddiadau. Yn ogystal, diweddarwyd y llenyddiaeth a adolygwyd gan y tîm cyn yr Adroddiad Terfynol hwn (gweler Adolygiad Llenyddiaeth, 2023). Casglodd y broses werthuso safbwyntiau'r gweithlu cyn COVID yn gynnar yn 2020 (Safbwyntiau'r Gweithlu ar weithrediad y Ddeddf, 2021) ac ar ôl COVID (Safbwyntiau'r gweithlu ar weithredu'r Ddeddf, 2023)

1.11 Yna, cynhaliwyd astudiaethau unigol oedd yn ystyried datganiad a gweithrediad pum egwyddor y Ddeddf ar draws Cymru (Llesiant, Atal ac ymyrraeth cynnar; Cyd-gynhyrchu; Llais a Rheolaeth; Gweithio'n aml-asiantaethol, y cyfan yn 2023). Hefyd, casglwyd set eang o ddata ansoddol am brofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr (Disgwyliadau a Phrofiadau Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr, 2022), gyda data ar brofiadau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar bapur ar wahân (Disgwyliadau a Phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, 2022).

1.12 Lluniodd yr astudiaeth hefyd ddadansoddiad o oblygiadau ariannol ac economaidd y Ddeddf (Goblygiadau ariannol ac economaidd y Ddeddf, 2023).

**Tabl 1.2: Cam yr astudiaeth, allbynnau a maint / math o dystiolaeth a gasglwyd[8]**

| Cam yn yr astudiaeth | Allbwn | Maint / math o dystiolaeth |
|---|---|---|
| **Theori newid a diffinio'r egwyddorion** | Fframwaith ar gyfer Newid (Verity Andrews, Blackmore, et al., 2019) | Dadansoddiad o ffactorau cyd-destunol sy'n effeithio ar weithrediad y Ddeddf yng Nghymru a disgrifiad o ganllawiau, egwyddorion ac amcanion yr 11 rhan o'r Ddeddf. |
| | Adolygiad Llenyddiaeth (Llewellyn, Verity, a Wallace, eds, 2020; diweddarwyd yn 2022) | Dadansoddwyd 268 o bapurau mewn adolygiad cychwynnol (2020) ar draws pob un o'r egwyddorion. Ychwanegwyd 97 o bapurau / adroddiadau yn niweddariad 2022 a hynny'n gwneud cyfanswm o 365 o bapurau / adroddiadau a adolygwyd. |
| **Gwerthuso Proses** | Safbwyntiau'r Gweithlu ar weithrediad y Ddeddf (cyn COVID) (Llewellyn, Verity, Wallace, a Tetlow, 2021) | Arolwg Cymru gyfan o sefydliadau/rhwydweithiau rhanddeiliaid allweddol (n=30 o ymatebion ). Astudiaethau achos haenedig ar 'olion traed' pedwar awdurdod lleol yn cynnwys cyfweliadau (n=140) gyda thri 'strata' gwahanol o'r gweithlu: arweinwyr strategol ac uwch reolwyr; rheolwyr gweithredol a staff rheng flaen. Cyfweliadau gyda sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol (n=12). |
| | Safbwyntiau'r Gweithlu ar weithrediad y Ddeddf (ôl COVID) (Wallace, Verity, a Llewellyn, 2023) | Cyfweliadau gan ail ymweld â'r pedwar lleoliad o'r astudiaeth werthuso gychwynnol er mwyn asesu effaith COVID-19 ar y broses o weithredu'r Ddeddf (n=60 o gyfweliadau). |
| **Tystiolaeth gwerthuso gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr** | Disgwyliadau a Phrofiadau Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr (Llewellyn, Verity, Wallace, a Tetlow, 2022) | Cynigiodd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr (n=170) dystiolaeth o'u profiadau o ofal cymdeithasol: cymerodd 81 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ran mewn cyfweliad; cymerodd 64 ran mewn trafodaeth drwy grŵp Facebook caeëdig, a chwblhaodd 25 ffurflen pro fforma ar-lein. |
| | Disgwyliadau a Phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (Llewellyn, 2022) | Cynhyrchu adroddiad mewn 13 iaith i gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig. Cynhaliwyd grŵp ffocws (n=10 o gyfranogwr) o bobl hŷn a gofalwyr o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i chwilio am adnoddau. |

[8] Am fanylion ar bob un o'r dogfennau hyn, ewch i Werthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

| Cam yn yr astudiaeth | Allbwn | Maint / math o dystiolaeth |
|---|---|---|
| **Papurau tystiolaeth ategol – drwy egwyddorion y Ddeddf** | Llesiant (Lyttleton-Smith, Anderson, Read, a Harris, 2022) | Astudiaeth ansoddol o gyfranogwyr defnyddwyr gwasanaeth (n=26) ar draws pedair carfan oed penodol (plant 5 i 13 oed, oedolion ifanc, oedolion 29 i 64 oed, a phobl hŷn). Dadansoddiad meintiol o ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru o gwestiynau llesiant personol y SYG (*ONS*). |
| | Atal ac ymyrraeth cynnar (Read, Verity, a Richards, 2022) | Dadansoddiad o 44 adroddiad cyhoeddedig (Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol a 22 o Gynlluniau Cynghorau / Corfforaethol neu Adroddiadau ar Berfformiad) i ystyried cysyniadoli a gweithredu ataliad ac ymyriad cynnar. |
| | Cyd-gynhyrchu (Andrews, Calder, Blanluet, et al., 2023) | Cynhaliwyd gweithdai (n=13) a chyfweliadau (n=4) gydag ystod o gyfranogwyr (rheolwyr sefydliadol awdurdodau lleol a sefydliadau o ddarparwyr, ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr di-dâl a'r rhai sy'n eu cynorthwyo) i drafod a deall y 'newidiadau mwyaf arwyddocaol' yn eu profiad o gyd-gynhyrchu. |
| | Llais a rheolaeth (Llewellyn, Saltus, a Kent, 2022) | Adroddiad yn tynnu syniadau am yr egwyddor hin at ei gilydd deillio o'r adolygiad llenyddiaeth cyhoeddedig ac adroddiad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr *Disgwyliadau a Phrofiadau,* ac astudiaeth ymchwil ar brofiadau Cynorthwywyr Personol gyflogwyd i gynorthwyo pobl gyda Thaliadau Uniongyrchol: Ymchwil i gyflogaeth cynorthwywyr personol ym maes gofal cymdeithasol |
| | Gweithio'n aml-asiantaethol (Wallace, a Garthwaite, 2022) | Dadansoddi data eilaidd o dystiolaeth o ganfyddiadau *Gwerthuso Proses* a *Disgwyliadau a Phrofiadau,* ynghyd â dull adeiladu consensws ar-lein o fynd ati i ddeall elfennau allweddol o weithio aml-asiantaethol (n=26 o gyfranogwyr). |
| | Goblygiadau ariannol ac economaidd (Phillips, Prowle, Harris, a Llewellyn, 2023) | Tystiolaeth ar gostau priodoledig o sampl o dri awdurdod lleol ynghyd â setiau data sydd ar gael yn genedlaethol ar alldro refeniw defnydd o'r gwasanaeth. |

1.13 Clywon ni gan dros 450 o gyfranogwyr ar draws Cymru a phob un wedi rhoi o'u hamser i gynnig hanesion manwl a chynhwysfawr o'u profiadau o dan y Ddeddf, o


ystod o safbwyntiau. Defnyddiodd yr astudiaethau unigol ystod o ddulliau methodolegol o fynd ati - dadansoddi dogfennau, profi a datblygu consenswS ar-lein (drwy Fapio Cysyniad Grŵp), gweithdai yn ffocysu ar y 'Newid Mwyaf Sylweddol' a gweithio gydag amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth, grwpiau o ofalwyr a gweithlu.

1.14 Creodd yr holl waith maes hwn swm sylweddol o ddata ansoddol a gwnaed dadansoddiad thematig sylweddol o'r dystiolaeth a gasglwyd.

**Rhychwant Gwerthusiad IMPACT**

1.15 Ein tasg yn yr astudiaeth werthuso hon oedd ffocysu ar weithrediad y Ddeddf yn hytrach na gwerthuso'r modd y mae gwasanaethau lleol yn cael eu cyflenwi *per se* – dyna rôl yr arolygiaeth a'r rheoleiddwyr. Mae'r rhain yn wahaniaethau cynnil ond pwysig ac i'r perwyl hwn mae Ffigwr 1.2 yn cynrychioli cylch gorchwyl a ffiniau ein hastudiaeth.

**Ffigwr 1.2: Cylch gorchwyl a ffiniau astudiaeth werthuso IMPACT**




1.16 Yn fwriadol dydy'r diagram hwn ddim wedi cael ei ysgrifennu o'r top i lawr. Mae llunio polisi yng Nghymru yn llawer mwy cydweithredol na fyddai model fel hyn yn ei awgrymu, felly, trefnwyd y tri maes yn y diagram hwn ochr yn ochr. Mae'r llinell

fertigol yn cynrychioli cylch gorchwyl a ffiniau ein gwaith, gan bwysleisio'r pwynt blaenorol – sef nad 'uwch arolwg' o gyflenwi gwasanaethau yn lleol mo hyn. Gwaith eraill ydy hynny. Rydyn ni, fodd bynnag, yn ceisio deall maes y 'cyflenwi lleol a'r ddarpariaeth leol' i'r graddau y gall ddweud wrthon ni am y ddau faes arall yn Ffigwr 1.2: y cyd-destun strategol a pholisi, ac wedi'u croestorri gan 'ffiniau niwlog' gweithredu.

1.17 Yn y diagram, lleolir y maes gweithredu rhwng strategaeth a chyflenwi, a'i gynrychioli o fewn llinellau 'crynedig ' ac 'ansefydlog' sy'n adlewyrchu ei siâp symudol, anwadal a chyfnewidiol. Mae gweithrediad yn broses hylifol sydd ddim yn statig am amser hir ac yn ffurfio ac ail-ffurfio yn gyson.

*Strwythur yr Adroddiad Terfynol*

1.18 Ym Mhenodau 2 a 3 rydyn ni'n disgrifio'r modd y daeth y Ddeddf i fodolaeth a'r cyd-destun ar ei gychwyniad a'r cyd-destun ar adeg ysgrifennu'r Adroddiad Terfynol.

1.19 Yn dilyn hynny, rydyn ni'n mynd i'r afael â thri chwestiwn canolog P-FE Patton (Pennod 4-6), ac wrth wneud hyn, rydyn ni'n cyfuno data o holl waith y tîm astudiaeth dros y pedair blynedd ddiwethaf. Er mwyn delio â thrydydd cwestiwn P-FE (gweler paragraff 1.7), rydyn ni'n defnyddio tri o'r pedwar cwestiwn a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (gweler paragraff 1.8, C1-C3).

1.20 Yng nghasgliad yr adroddiad hwn (Pennod 7), rydyn ni'n mynd i'r afael â chwestiwn olaf manyleb Llywodraeth Cymru, ac rydyn ni'n nodi cyfres system gyfan o 'gwestiynau prawf' sy'n deillio o'r dystiolaeth ac o ddadansoddiad o'r canfyddiadau. Mae'r cwestiynau hyn yn sail i ddeialog am effeithiau'r Ddeddf hyd yn hyn, ac yn cynnig ffocws ar gyfer gweithgaredd pellach wedi'i ganoli ar fanteisio i'r eithaf ar yr effaith y gall y Ddeddf ei chael yn y dyfodol.

**Cyfyngiadau'r astudiaeth yn gyffredinol**

1.21 Fel gydag unrhyw astudiaeth o'r maint a'r cymhlethdod hyn, rhaid nodi'r cyfyngiadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn P-FE – sy'n gofyn i ni ystyried cryfderau, gwendidau ac ansawdd cyffredinol y dystiolaeth. Cyfeirir drwy'r adroddiad hwn at ansawdd y dystiolaeth neu ddiffyg ansawdd y dystiolaeth a gasglwyd.

1.22 Yn syml, cryfder allweddol yr astudiaeth hon a lle mae ansawdd y data ar ei orau ydy'r safbwyntiau manwl, ansoddol a gasglwyd gennym drwy gyfweliadau a grwpiau

ffocws gyda phobl sy’n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol, gofalwyr, y gweithlu a rhanddeiliaid eraill.

1.23 Ar ôl dweud hynny, ni chlywson ni gymaint gan rai grwpiau nag a glwyson ni gan eraill. Prin ydy’r adborth a gawson ni gan y rai hynny sy’n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth sydd dros 85 oed ac ni chafwyd fawr o ymateb gan y rhai o dan 25 oed. Mae bylchau eraill yn ein hastudiaeth o ran profiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr – siaradwyr Cymraeg a’r gofal a brofwyd gan bobl ifanc, er enghraifft. Clywson ni hefyd gan fwy o fenywod na dynion yn ystod yr astudiaeth.

1.24 Mae’r ffaith na chlywson ni’n uniongyrchol ganddyn nhw yn gyfyngiad er i hynny gan ei liniaru i raddau gan y dystiolaeth a aseswyd drwy broses adolygu llenyddiaeth a gynigiodd safbwyntiau nifer o’r grwpiau hyn.

1.25 Hefyd, mae yna gyfyngiad sy’n bodoli o ran data meintiol. Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 3 (gweler paragraff 3.4 yn arbennig), dydy hi ddim yn hawdd cymharu data gwasanaethau ‘creiddiol’ dros amser – boed hynny oherwydd y newidiadau yn y modd y cesglir eitemau data sydd eisoes yn bodoli neu oherwydd bod eitemau newydd yn cael eu creu am y tro cyntaf, neu oherwydd yr anawsterau a’r sialens o gasglu data oherwydd COVID. Mae hyn wedi golygu bod grym unrhyw ddadansoddiad meintiol a wnaed (ar fesurau llesiant er enghraifft)[9] wedi cael ei gyfaddawdu i ryw raddau.

1.26 Hefyd, sialensiwyd capasiti ansawdd wrth geisio help gan awdurdodau lleol, yn arbennig y gwaith a wnaed ar oblygiadau ariannol ac economaidd y Ddeddf.[10] Mae’r pwysau digynsail ar wasanaethau cymdeithasol ar ôl COVID wedi golygu nad oes cymaint o bobl ar gael i gynnig mwy o help, gan olygu mai nifer fach o awdurdodau oedd yn gallu cynorthwyo’r gwaith hwnnw ac, yn y pen draw, yn amharu ar ansawdd a chadernid y dadansoddiad y gellid ei wneud.

[9] Gweler Lyttleton-Smith et al., (2023)

[10] Gweler Phillips et al., (2023)

## 2. Cyrraedd at y Ddeddf

### Tarddiad

2.1 Ar sail y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol (2010)[11] a gymeradwyodd weledigaeth 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007),[12] amlygodd papur gwyn Llywodraeth Cymru 'Fframwaith Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaladwy' (LlC/WG, 2011)[13] nifer o sialensiau a wynebwyd gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yng nghyd-destun newidiadau demograffig sylweddol.

2.2 Wedi'i ddatblygu i fod yn sail i'r Mesur (a ddaeth yn Ddeddf wedyn),[14] nod y Papur Gwyn oedd datgan gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng nghyd-destun y galw, a'r disgwyliadau cynyddol, am wasanaethau a sefydlu fframwaith a blaenoriaeth ar gyfer gweithredu i ail-lunio ac ail-ffocysu gwasanaethau cymdeithasol. Ymhlith y blaenoriaethau a nodwyd yn y papur gwyn, roedd diben cenedlaethol clir ac atebolrwydd clir ar gyfer cyflenwi; datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol;[15] ar gyfer gwasanaethau sy'n ddinasyddion ganolog; gwasanaethau integredig; lleihau cymhlethdod; gweithlu hyderus a chymwys; diogelu a hyrwyddo llesiant dinasyddion; a Fframwaith newydd Gwella a Pherfformiad ar gyfer Cymru[16] i adolygu y ddarpariaeth o ran gwasanaethau gofal a chymorth a staff a rhoi rhaglenni gwella ar waith.

2.3 Yn seiliedig ar nifer o ymgynghoriadau ac adolygiadau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill, yn 2013 cyflwynwyd *Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* i Senedd Cymru, gan roi grym i'r "polisi yn

---

[11] Gweithredu'r Weledigaeth: Adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru (2010).

[12] Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol – strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru dros y degawd nesaf (2007).

[13] Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu. (2011).

[14] Dydy Mesur ddim yn Ddeddf Seneddol. Yng Nghymru, mae Mesur yn dod yn Ddeddf os caiff ei gymeradwyo gan y Senedd (neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru sef ei enw ar y pryd) a'i gytuno'n ffurfiol gan y teyrn ar yr orsedd sef y Cydsyniad Brenhinol). Ar ôl i fesur ddod yn Ddeddf Seneddol, mae'n gyfrifoldeb ar y llywodraeth briodol I'w rhoi ar waith.

[15] Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol


[16] Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol: defnyddio tystiolaeth fel sail ar gyfer gwella

'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Cymru"[17] a darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol hynny.

2.4 Ategwyd hyn gan fenter Prudent Healthcare,[18] a lansiwyd yn 2014, drwy ail-ffocysu ar ddarpariaeth iechyd yn y gymuned, gweithio gyda phobl mewn modd cyd-gynhyrchiol, gwneud y defnydd cywir a gorau o sgiliau ac adnoddau ac ymyrryd yn briodol, ac osgoi gwastraff yn y system ble bynnag fo'n bosibl.

2.5 Ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei drafftio, cychwynnwyd ar gynnal trafodaethau ar y Mesur ac ar gyfres o weithgareddau i sefydlu'r modd y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith. Yn ystod 2014, 2015 a misoedd cynnar 2016, sefydlodd y rhai oedd yn gyfrifol am weithredu'r Ddeddf raglen i sicrhau eu bod yn barod i'w gweithredu o Ebrill 2016. Roedd hyn yn cynrychioli 'man setliad' ('place of settlement') lle cafwyd graddau o gonsensws ymhlith rhanddeiliaid ar amcanion ac uchelgais y Ddeddf a chytunwyd bron yn unfrydol ar yr egwyddorion (gweler Ffigwr 2.1).

**Ffigwr 2.1: Bwrdd Stori tarddiad y Ddeddf**




**Darpar newidiadau a bwriadau strategol**

2.6 Nododd y Ddeddf swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a phrosesau a grymoedd y ddeddfwriaeth. Hyrwyddodd integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, gan annog pobl i fod yn annibynnol, i leisio'u barn a mwy o reolaeth dros eu

[17] Cynulliad Cenedlaethol Cymru a (2013)

[18] Egwyddorion gofal iechyd darbodus - Comisiwn Bevan

bywydau a rhoi mwy o ryddid i bobl benderfynu pa gymorth oedd ei angen arnyn nhw. Cymeradwyodd rôl y trydydd sector a gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr gan argymell y dylai fod gwasanaethau uchel eu hansawdd, cyson ar draws y wlad ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc. Roedd y Ddeddf hefyd yn cynnwys dull ataliol o fynd ati ac un lle mae pobl yn bartneriaid cydradd wrth ddylunio a chyflenwi eu gofal a'u chymorth.

2.7 Yn fwy cyffredinol, bwriad y Ddeddf oedd: lleihau cymhlethdod 'hinsawdd' deddfwriaethol Cymru drwy ddod â deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli at ei gilydd; i flaenoriaethu gwasanaethau integredig ymatebol ac ansoddol sy'n gwella canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth; i atgyfnerthu dull seiliedig ar hawliau o fynd ati ar gyfer pobl; ac ymestyn hawliau gofalwyr. Bwriad arall y Ddeddf oedd sicrhau bod trefniadau diogelu yn bodoli ar gyfer pawb, dileu rhwystrau i bobl ifanc wrth iddyn nhw bontio i fod yn oedolion a newid ffocws y gweithlu o ddull seiliedig ar dasg o fynd ati i ffocysu ar ganlyniadau llesiant ar gyfer pobl.

2.8 Nododd y symud i ffwrdd o feini prawf cymhwystra i ddull 'yr hyn sy'n bwysig' o fynd ati gyda dull cymesur o fynd ati i asesu, ynghyd â newid yn y pwyslais o ddull seiliedig ar ddiffygion i un yn seiliedig ar asedau a chryfderau arwydd o newid oedd yn gofyn am newid mewn arferion a hinsawdd.

2.9 Yr adeg honno, roedd disgwyl y byddai fframwaith y Ddeddf yn galluogi trawsnewid mewn polisi, newid sefydliadol a newid yn y systemau. Roedd hefyd ddisgwyliad y byddai'r newid wrth gyflenwi gofal a chymorth yn cael ei adlewyrchu ym mhrofiadau pobl oedd yn derbyn gofal a chymorth a thros amser yn arwain at 'wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy 'fel y rhagwelwyd ym Mhapur Gwyn 2011 y Llywodraeth, rhagflaenydd y Ddeddf .[19]

2.10 Mae cyflawni'r newid hyn a ragwelai'r Ddeddf yn her. Diffiniad GIG Lloegr o newid ar raddfa fawr fel hyn ydy, '…*the process of mobilising a large collection of individuals, groups and organisations toward a vision of a fundamentally new future state*.'[20] O fewn systemau cymhleth megis iechyd a gofal cymdeithasol, mae hyn yn

[19] Gweler Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu

[20] NHS England / GIG Lloegr (2018).

gofyn am newidiadau integredig mewn strwythurau, prosesau a phatrymau (o werthoedd, arferion a chanlyniad).[21]

2.11 Er mwyn creu newid ar y raddfa hon, cafodd cyfres o 10 o 'fwriadau strategol' trawsbynciol[22] eu cynnwys yn y Ddeddf i ategu'r egwyddorion uchel eu lefel i yrru'r trawsnewid:

1. Darparu help a chymorth i unigolion asesu eu gofal a'u hanghenion a threfnu a sicrhau'r gwasanaethau gofal a chymorth sydd eu hangen arnyn nhw;
2. Creu systemau a dulliau o fynd ati sy'n blaenoriaethu barn y dinesydd, systemau sy'n seiliedig ar wir gydweithredu a rhoi mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau a'u gofal a'u chymorth i gyflawni gwell canlyniadau ar gyfer eu llesiant;
3. Gosod agenda llesiant ac ataliad ynghanol cynllunio strategol, comisiynu a chyflenwi gwasanaethau;
4. Cynhyrchu newid yn y system gyfan yn yr ardaloedd lleol a chreu modelau newydd o ofal a chyflenwi gwasanaeth;
5. Mabwysiadu dull ardal leol 'gyfan' o fynd ati, yn seiliedig ar ymglymiad ystyrlon er mwyn deall a diwallu anghenion y boblogaeth leol;
6. Cynyddu gwasanaethau atal ac ymyriad yn ddigon cynnar yn y gymuned mewn modd syml heb fod yn or-ddibynnol ar brosesau asesu cymhleth a llafurus, er mwyn rhwystro angen critigol rhag dwysáu a chadw pobl yn annibynnol yn hirach;
7. Creu cydadwaith effeithiol rhwng llesiant, atal, asesu, cymhwyster a gwybodaeth;
8. Llwyddo i integreiddio gwasanaethau llywodraeth leol a rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid, yn enwedig y GIG, i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth;
9. Sicrhau mynediad i wybodaeth dda, cyngor a chymorth i bobl allu dod o hyd i'r gwasanaethau cyffredinol sydd ar gael yn y gymuned; a hefyd

[21] Plsek a Greenhalgh (2001).

[22] Gweler Trosolwg o'r Ddeddf Gwasanaethau… | Gofal Cymdeithasol Cymru i gael gwybodaeth am gefndir y Ddeddf. Cyhoeddwyd 'bwriadau strategol' mewn ffurflenni pro fforma a anfonwyd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd cyn rhoi'r Ddeddf ar waith – gweler ADSS Cymru a Chydffederasiwn GIG (2014).

Mae paratoi sbectrwm eang o gymorth cymunedol cymesur y gall dinasyddion gydag ychydig o angen gofal ei gyrchu yn fodd o'u helpu i fanteisio i'r eithaf ar eu hannibyniaeth a chyflawni eu canlyniadau dymunol heb orfod dibynnu ar asesiadau cymhleth neu ar becynnau gofal.

**Cyd bolisi a deddfwriaeth a rhagflaenwyr**

2.12 Fel mae'n amlwg, ni ddatblygwyd y Ddeddf mewn gwagle polisi nac arferion. Gellir gweld pwysigrwydd ymgorffori dull cydweithredol o fynd ati a deddfu ar ei gyfer yn y modd y cynigiwyd cyfarwyddyd drwy gynorthwyo Grŵp Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol, Fforwm Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a dau iteriad Panel Dinasyddion Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol. Cymerodd y Panel rôl arweiniol i gyflwyno cysyniad cyd-gynhyrchu i'r modd y datblygwyd a gweithredwyd y Ddeddf.

2.13 Mae deddfwriaeth ychwanegol hefyd yn berthnasol iawn i hanes y Ddeddf. Sefydlodd *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru ) 2016*[23] drefn rheoleiddiol sy'n cynorthwyo'r Ddeddf. Mae hefyd yn sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru, sefydliad i yrru gwelliant a rheoleiddio'r sector. Roedd *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru*) *2015*[24] yn gofyn i gyrff cyhoeddus – megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd – i flaenoriaethu cynaliadwyedd hirdymor a llesiant a gweithio gyda'i gilydd ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill (megis grwpiau'r trydydd sector) a'r cyhoedd i atal a mynd i'r afael â 'phroblemau'.

2.14 Yn dilyn hyn cyhoeddodd Adolygiad Seneddol Iechyd a Gofal Cymdeithasol [25] ei adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2018. Roedd hwn yn cydnabod pwysigrwydd cyd-destun polisi a'r cefndir deddfwriaethol a sicrhaodd system ddi-dor yn seiliedig ar gyflenwi llesiant ar gyfer yr unigolyn. Cyhoeddwyd 'Cymru Iachach'[26] gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r Adolygiad a fynegodd weledigaeth hirdymor o ddull 'system gyfan' o fynd ati i ddelio â iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r ffocws ar iechyd a llesiant ac ar atal salwch.

---

[23] Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (2016)

[24] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

[25] Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol: adroddiad terfynol (2018)

[26] Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

2.15 Ail-adroddwyd nifer o bolisïau a rheoliadau wedi hynny ar ôl ymgynghori – megis y Papur Gwyn diweddar ar ail-gydbwyso gofal a chymorth[27] – a dechreuwyd ar y gwaith o ystyried yr hyn allai Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol ei olygu i Gymru.[28] Mae hwn yn faes deinamig o bolisi cyhoeddus a sylweddolodd Patton bod yr ailadrodd mynych hwn yn nodwedd o drafodaethau cyhoeddus cyfoes a pham bod deall pwysigrwydd gweithredu'r egwyddorion i yrru'r newid (neu fel arall) ac addasu systemau wrth wraidd fframwaith gwerthuso P-FE.

[27] Gwella trefniadau gofal cymdeithasol a gwaith partneriaeth

[28] Datganiad Ysgrifenedig: Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol – Grŵp Arbenigol

## 3. Cyd-destun y Ddeddf

3.1 Fel yr amlinellwyd yn nogfennau Llywodraeth Cymru ac a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol, roedd cyflwyno'r Ddeddf yn ymateb ar y cyd ac yn strategol i sialensiau chwilio am ofal cymdeithasol, galwadau cynyddol am wasanaeth, amrywiaeth yn y ddarpariaeth a chymhlethdod polisi a rheoliadau.[29] Mae'r sialensiau hyn yn digwydd drwy'r DU ac wedi'u lleoli mewn cyd-destun cymdeithasol, economaidd a demograffig ehangach[30]. Ar ben hynny, o Ebrill, 2016 pan ddaeth y Ddeddf i rym a thrwy gydol pandemig COVID-19, dwysaodd y galw am ofal cymdeithasol a'r gwahanol bwysau a'r argyfyngau ar draws y system gymdeithasol yng Nghymru.

3.2 Fel y gwelwyd mewn tystiolaeth o fannau eraill [31], ar adeg ysgrifennu'r Adroddiad Terfynol hwn, mae'r system gofal cymdeithasol yn wynebu sialensiau digynsail a llym, er enghraifft, cadw staff a llesiant y gweithlu, argaeledd gwasanaethau a gallu eu cyrchu, cynnydd yn yr angen a darparu cyllid ar gyfer y gwasanaeth a hyn oll yng nghyd-destun argyfwng costau byw. Mae goblygiadau i'r problemau cyd-destunol hyn o ran cyflenwi a chynaladwyedd gofal cymdeithasol ac felly i'r modd y gellir gweithredu'r Ddeddf.

3.3 Ffocws y bennod hon ydy disgrifio'r problemau hyn yn gyffredinol. Rydyn ni'n tynnu ar ystod o ddeunydd, data am system gofal cymdeithasol yng Nghymru, canfyddiadau astudiaeth IMPACT a thystiolaeth astudiaethau ac adroddiadau eraill.

### Cyd-destun y data

3.4 Mae deall yr hyn y mae data ar y defnydd a wneir o ofal cymdeithasol, data am weithlu gofal cymdeithasol a data am wariant gwasanaethau cymdeithasol yn ei ddweud wrthon ni am ofal cymdeithasol yng Nghymru yn bwysig ar gyfer yr astudiaeth o ran sefydlu'r amgylchedd a'r sefyllfa cyflwyno'r Ddeddf a hefyd ar gyfer cyflwyno syniad am y tueddiadau cenedlaethol yn y cyfryw ddata yn ystod oes y Ddeddf. Defnyddiwyd dwy brif ffynhonnell ddata i gasglu'r persbectif hwn: Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru a data swyddogol Llywodraeth Cymru ar wasanaethau cymdeithasol gyhoeddwyd ar Stats Cymru (Ystadegau Cymru).

3.5 Lle bynnag posibl, darparwyd llinell amser data o 2016 tan 2020/21 ond mae'n briodol nodi na fu hyn yn bosibl ymhob achos ar gyfer yr holl gyfnod hwn, ac felly ni

[29] Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu (2011).

[30] Am enghraifft, gweler , Thorlby et al, (2018).


[31] Gweler, er enghraifft Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Y Bumed Senedd (2021), ac Archwilio Cymru (2021).

fu'n hawdd cymharu pethau rhwng 2016 a 2020/21. Mae amrywiaeth o resymau dros hyn. Mae'r tarfu a achoswyd gan COVID-19 yn sylweddol, fel roedd cyflwyno Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau newydd o fis Ebrill 2020. Yn y fframwaith newydd cyflwynwyd eitemau data newydd, gyda rhai eitemau oedd eisoes yn bodoli naill ai ddim yn cael eu casglu bellach neu fod newid yn y dull o'u casglu. Hefyd, mae gofynion rheoleiddio gweithlu wedi golygu bod mwy o gategorïau o staff ar Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru, ond eto i gyd mae'r data yn gymharol newydd i rai grwpiau megis gweithwyr gofal cartref. Yn olaf, mae'r ffaith bod darparwyr i'w cael yn y sector cyhoeddus, annibynnol a'r trydydd sector yn cymhlethu'r sialens hyd yn oed ymhellach.

*Ceisio Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac Asesu Anghenion*


3.6 Mae data awdurdodau lleol am y cyfnod rhwng 2016 a 2019 yn dangos cynnydd yn y galw o ran y gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (Ffigwr 3.1). Mae'n dangos cynnydd yn nifer yr asesiadau o anghenion am ofal a chymorth (ar gyfer oedolion a phlant) dros y cyfnod rhwng 2016 /17 a 2020/21 ond yn dangos gostyngiad yn y data mwyaf diweddar (rhwng 2018/19, gweler Ffigwr 3.2). Ceir tuedd debyg yn asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc. (gweler Ffigwr 3.3).

**Ffigwr 3.1: Nifer o bobl yn derbyn cyngor neu gymorth o'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ystod y flwyddyn** [32]





[32] Ffynhonnell: Oedolion a aseswyd yn ôl awdurdod lleol a mesur (2016/17 hyd 2018/19) and Asesiadau yn ôl awdurdod lleol a mesur (2016/17 hyd 2018/19). Ni ellir cymharu 2020/21 â data 2018/10 ac felly nid yw'n cael ei gynnig yma.

**Ffigwr 3.2: Nifer yr asesiadau o'r angen am ofal a chymorth a gynhaliwyd**[33]




**Ffigwr 3.3: Nifer yr asesiadau o'r angen am gymorth ar gyfer gofalwr a gynhaliwyd** [34]





*Cyflenwi gwasanaeth*

3.7 O ran darparu gwasanaeth, mae tueddiadau diddorol yn y data y dylid efallai eu hystyried yn ofalus (Ffigwr 3.4). Mae'r llinell ddu'r tueddiad yn Ffigwr 3.4 yn dangos data awdurdod lleol ar gyfanswm nifer yr oedolion sy'n derbyn gwasanaethau a'i fod yn gostwng rhwng 2016/17 a 2018/19. Fel enghraifft o'r tueddiadau, mae'r barrau yn dangos y nifer o oedolion oedd yn derbyn y tri math o wasanaeth – gofal cartref, cartref gofal heb nyrsio a thaliadau uniongyrchol – gyda'r data yn dangos y cynnydd a'r gostyngiad yn y defnydd rhwng 2016/17 a 2018/19.

[33] Ffynhonnell: Oedolion a aseswyd yn ôl awdurdod lleol a mesur (2016/17 hyd 2018/19); and Asesiadau yn ôl awdurdod lleol a mesur (2016/17 to 2018/19).


[34] Ffynhonnell: Oedolion a aseswyd yn ôl awdurdod lleol a mesur (2016/17 hyd 2018/19); and Asesiadau yn ôl awdurdod lleol a mesur (2016/17 to 2018/19). Ni ellir cymharu data 2020/21 â data i 2018/19, felly nid yw'n cael ei gynnwys yma.

**Ffigwr 3.4: Nifer yr oedolion sy'n derbyn gwasanaethau** [35]




3.8 Mewn cyferbyniad, mae'r data awdurdod lleol ar blant yn dangos cynnydd yn y niferoedd sy'n derbyn gofal a chymorth gan awdurdod lleol (Ffigwr 3.5). Mae'r ffigwr cyffredinol hwnnw yn cynnwys ychydig o amrywiaeth, gyda nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth ond heb fod yn derbyn gofal (LAC) yn gostwng dros y cyfnod, ynghyd â chynnydd o 23% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal (LAC) o 5,830 yn 2016/17 i 7,190 yn 2020/21.

**Ffigwr 3.5: Nifer y plant sy'n derbyn gwasanaethau** [36]





[35] Ffynhonnell: Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol ac oedran (2016/17 to 2018/19). Dim ffigwr 'cyfanswm' y gellir ei gymharu ar gael ar gyfer 20/21. Mae'n bwysig nodi bod mathau eraill o wasanaeth ar wahân I'r tri hyn yng nghyfanswm yr oedolion sy'n derbyn gwasanaethau.

[36] Ffynhonnell: Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran

*Y Gweithlu*

3.9 Ym mharagraff 3.2, nodwyd bod problemau yn ymwneud ag ansawdd a dilyniant yn nata'r gwasanaethau cymdeithasol. Yn nata'r gweithlu y gwelon ni'r sialens fwyaf am y rhesymau a amlinellwyd. Mae Ffigwr 3.6 (Nifer o weithlu gofal chymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru)[37] a Ffigwr 3.7 (Niferoedd o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol fesul sector) yn cynnig cipolwg i ni ar y data sydd ar gael ond rhaid bod yn ofalus wrth drin y data hwn. Mae'r gostyngiad mewn gwasanaethau dydd yn Ffigwr 3.7 er enghraifft yn debygol o fod yn gysylltiedig â chau nifer o'r gwasanaethau hynny yn ystod y pandemig.


**Ffigwr 3.6: Nifer o weithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru** [38]




[37] Er ei bod yn wir bod Gofal Cymdeithasol Cymru ers Ebrill 2020 yn gofyn I weithlu gweithwyr cartref fod yn gofrestredig, dydy'r data ar weithlu gofal cartref ddim yn cael ei gynnwys yma. Mae hyn yn bennaf oherwydd ansawdd y data. Ond cofnododd Gofal Cymdeithasol Cymru bod 19637 o weithwyr gofal cartref ar y gofrestr yn Ebrill 2020 a 22131 yn Ebrill 2021. Mae hefyd yn wir bod hyn yn golygu mai dim ond cofrestru yn flynyddol mae pobl; efallai nad ydyn nhw i gyd ddim yn wir yn gweithio'n actif ym maes gofal cymdeithasol.

[38] Ffynhonnell: Adroddiadau'r gweithlu

**Ffigwr 3.7: Nifer y bobl yn y gweithlu gofal chymdeithasol fesul maes gwasanaeth** [39]





3.10 Yr hyn sy'n taro rhywun ydy nad ydy'r data hyd yma yn adlewyrchu problemau'r gweithlu o ran yr argyfwng ym maes gofal cymdeithasol a drafodwyd yn helaeth yn adroddiadau astudiaeth IMPACT – dydy e ddim yn dangos hyd y ddeiliadaeth o fewn y gweithlu er enghraifft. Cafodd y materion eu cynnwys yn adroddiad *Persbectifau Gweithlu Ôl-COVID* gyda nifer fawr o bobl yn gadael y gweithlu ar ôl y pandemig, wedi'i gysylltu ag effaith gweithio drwy COVID ar lesiant emosiynol staff a phwysau eraill megis 'argyfwng presennol costau byw'.

*Gwariant*

3.11 Yn olaf, yn nhermau cyfanswm gwariant gwasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru o 2013/14 tan 2020/21, cafwyd cynnydd yn ystod oes y Ddeddf, o £1.65 biliwn i £2.3 biliwn. Mae'n werth nodi bod y data ar gyfer 2020/21 yn cynnwys bron i £137 miliwn ar gyfer gwariant COVID-19 ar draws gwasanaethau plant, oedolion a phobl hŷn. (Ffigwr 3.8).

[39] Ffynhonnell: [Adroddiadau'r gweithlu](). Dylid bod yn ofalus wrth ddarllen y graff gan fod y data hwn wedi'i dynnu o wahanol fecanweithiau casglu data. Tynnwyd data 2016 o Raglen ddatblygu gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru a data i2020 yn dod o Arolwg Gofal Cymdeithasol Cymru a gellir cyrchu'r ddau drwy'r ddolen gyswllt yn y troednodyn hwn.

**Ffigwr 3.8: Cyfanswm gwariant alldro refeniw gwasanaethau cymdeithasol fesul grŵp cleient, Cymru** (£ mil) I[40]




3.12 Yn ogystal â'r data hwn, isod, ceir crynodeb isod o nodweddion allweddol y cyd-destun ehangach ar adeg cychwyn gweithredu'r Ddeddf a'r cyd-destun adeg ysgrifennu'r Adroddiad Terfynol yn 2022.

**Cymhlethdod y cyflenwi**

3.13 Mae'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru yn economi gymysg o les sy'n cynnwys darpariaeth y wladwriaeth, darparwyr y sector preifat a'r trydydd sector, a'r system gofal a chymorth anffurfiol. Mae'r system ffurfiol yn sector anghyfartal gydag amcangyfrif o 1.546 o sefydliadau sy'n darparu (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018), a marchnadoedd micro mewn gwahanol leoliadau a rhanbarthau. Ar ben hynny, ceir amrywiaeth yn nhrefn a chyflenwad gofal chymdeithasol ar draws awdurdodau lleol

[40] Ffynhonnell: Gwariant refeniw gwasanaethau cymdeithasol yn ôl grŵp cleientiaid (£ mil).

Cymru. A hwythau'n barthau democrataidd lleol, mae gan yr awdurdodau hyn annibyniaeth tra'n gweithio o fewn fframweithiau deddfwriaethol cenedlaethol a'r DU ehangach a chyflenwi'r hyn sydd ei angen.[41]

3.14 Mae gan sefydliadau gyda dyletswyddau o dan y Ddeddf hanes a hinsoddau arbennig, arferion a chysylltiadau strategol a gweithredol gyda sefydliadau yn y gymdogaeth a'r systemau cyflenwi ehangach. Mae gan gymdeithas sifil ei nodweddion a'i rhythmau nodweddiadol ei hun.

*Cymhlethdodau ychwanegol yn ystod pandemig COVID-19*

3.15 Mae canfyddiadau adroddiad *Gwerthusiad Proses Ôl-COVID* yn awgrymu bod y pandemig wedi dwysáu cymhlethdod y cyflenwi, a hynny wedi effeithio ar ddarparu gofal a chymorth amserol, er enghraifft, llai o asesu gofalwyr a chyfleusterau'n cau neu'n lleihau. Thema fawr yn yr adroddiad hwn oedd yr effaith uniongyrchol ar y gweithlu yn 'sioc enfawr' i'r gweithlu ac angen gweithredu ar frys i ymateb, addasu a newid yn gyflym.

3.16 Yn ogystal, mae safbwyntiau'r gweithlu yn dangos effeithiau aflonyddgar y pandemig sydd wedi treiddio i holl agweddau cyfundrefn a chyflenwad gofal cymdeithasol. Adroddodd cyfranogwyr yr astudiaeth am y modd, yn wyneb cyfyngiadau a chyfnodau clo, symudodd sefydliadau ar draws sectorau ar frys i weithio'n ddigidol a hefyd (ac eithrio, er enghraifft bryderon difrifol o ran diogelu neu gynorthwyo y rhai ag anghenion cymhleth) i gyflenwi gofal a chymorth rhithiol.

**Cymhlethdod adnoddau**

3.17 Yn gefndir i weithredu'r Ddeddf roedd y tensiwn parhaus ynglŷn â'r modd i ddiwallu anghenion ar gyfer gofal a chymorth yng nghyd-destun y penderfyniadau ynglŷn â lefel dyraniadau adnoddau'r sector cyhoeddus. Lluniwyd y Ddeddf, ei datblygu a'i gweithredu yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol y llywodraeth, a rhagwelwyd y byddai'r duedd hon yn parhau ac, o'u gosod yn erbyn y galw, y byddai'n arwain at fylchau yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru (Roberts a Charlesworth, 2014). Mae effeithiau'r toriadau yng nghyllid llywodraeth leol a'r cyni ehangach hefyd yn effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd y gweithredwyd y Ddeddf ynddyn nhw (Ifan a Sion, 2019).[42]

[41] Archwilydd Cyffredinol Cymru / Auditor General for Wales (2014).

[42] Ifan a Sion (2019).

3.18 Chwyddwyd y cyfyngiadau hyn yn ystod argyfwng pandemig COVID-19, gyda llywodraethau lleol ar draws y DU yn profi pwysau ariannol cynyddol. Disgrifir effeithiau'r pandemig yn adroddiad y Tŷ Cyffredin (2021, tud.4) fel '…*a looming problem in local government finance'*.[43]

3.19 Mae canfyddiadau adroddiad *Gwerthuso Proses Ôl-COVID* a *Disgwyliadau a Phrofiadau Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr* yn dweud bod problem adnoddau o ganlyniad i'r pandemig yn amlwg ac yn cael eu profi nawr. Er bod cyllid Llywodraeth Cymru megis cronfa galedi COVID-19 wedi bod o gymorth mawr ar yr adeg argyfyngus hon, amlygodd y pandemig 'freuder' y system gofal cymdeithasol a effaith hirdymor tan-gyllido, strwythurau'r farchnad gofal cymdeithasol a phroblemau recriwtio a chadw gweithlu. Mae ffactorau cymdeithasol ac economaidd ehangach hefyd yn bodoli ac yn dwysáu sialensiau'r maes gofal cymdeithasol yn cynnwys Brexit, yr argyfwng economaidd ac argyfwng costau byw.[44]

3.20 O ystyried yr holl gymhlethdodau, lluniwyd adroddiad ar wahân o fewn yr astudiaeth[45] sy'n ystyried goblygiadau ariannol ac economaidd y gwariant priodoladwy o ran o weithredu'r Ddeddf.

*Gwariant priodoladwy a gweithrediad y Ddeddf*

3.21 Er mwyn deall goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth, y sialens i dîm yr astudiaeth oedd nad oedd unrhyw ddata wedi'i gasglu oedd yn gofyn yn benodol am y costau (neu'r buddion) cysylltiedig â'r Ddeddf. Er mwyn lliniaru pethau a gyda cydweithrediad nifer fechan o awdurdodau lleol, cychwynnodd y tîm geisio ail-greu proffil cost y Ddeddf drwy ofyn i awdurdodau lleol nodi'r gwariant yn eu cyfrifon y gellid ei briodoli i roi'r Ddeddf ar waith.

3.22 O wneud hyn, roedd yn tîm yn gwahaniaethu rhwng y gwariant a gyllidwyd gan ffynonellau cyllido heb fod yn greiddiol (e.e. y Gronfa Gofal Integredig) ac o adnoddau craidd yr awdurdod lleol. Gwnaed hyn ar y cyd ag uwch reolwyr gwaith cymdeithasol a rheolwyr ariannol tri awdurdod lleol er mwyn iddyn nhw gynnig eu hamcangyfrif gorau o'r gwariant priodoladwy hwnnw. Roedd hyn yn gymhleth oherwydd fel y nododd rheolwyr gofal cymdeithasol, dros gyfnod gweithredu'r

[43] Tŷ'r Cyffredin (2021).

[44] Gweler er enghraifft Welsh Parliament Health, Social Care and Sport Committee (2021), ac Archwilio Cymru (2021),

[45] Gweler Phillips et al., (2023).

Ddeddf roedd nifer o ffactorau cyd-destunol allweddol yn bodoli fel y trafodir mewn man arall yn y Bennod hon.

3.23 Ein nod oedd y byddai'r data a gafwyd o'r awdurdodau lleol peilot hyn yn cael ei ddefnyddio wedyn i ragamcanu ffigwr ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer cost gweithredu'r Ddeddf yn awdurdodau lleol Cymru. Byddai'r broses wedi cynnwys cymryd mathau arbennig o wariant a'u hallosod i gyfanswm cenedlaethol ar sail gwariant y gwasanaeth a/neu ar yr angen am wasanaeth, ar sail y niferodd (ar gyfer pob awdurdod lleol) yr henoed yn y boblogaeth neu nifer y plant yn y boblogaeth.

3.24 Ond os digwydd bod diffyg data, oherwydd cymhlethdod y dasg, a'r sialens i'r capasiti oedd yn wynebu rheolwyr gofal cymdeithasol wrth geisio cynorthwyo'r agwedd hon o'r gwaith, fyddwn ni ddim yn gallu datblygu amcangyfrif o gostau gweithredu'r Ddeddf drwy Gymru gyfan. Ond, o ddweud hynny, ac ar sail y data a ddarparwyd gan y tri awdurdod lleol a gyfrannodd, mae'n ymddangos byddai'r costau yn debygol o fod wedi bod yn sylweddol (tua degau o filiynau o bunnoedd).

3.25 Byddai'n deg i ddod i'r casgliad bod rhaid cwestiynu'r honiad a wnaed yn Asesu Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf[46] - y byddai buddion ychwanegol o weithredu'r Ddeddf yn gorbwyso costau ychwanegol y gweithredu yn yr hirdymor – gan nad oes set data ar gael ar hyn o bryd i ddangos y gellid profi hyn, ac oherwydd (er yn gyfyngedig) bod y dystiolaeth a gasglwyd gan yr astudiaeth hon yn awgrymu'n gryf fel arall.

*Cymhlethdod adnodd gweithlu*

3.26 Cyn COVID-19, roedd Cymru a'r DU yn wynebu sialensiau sylweddol o ran y gweithlu – trosiant uchel a llawer o swyddi gwag, cynnydd yn y galw am weithwyr gofal a defnydd cynyddol o staff asiantaeth (Moriarty et al., 2018).[47] Ymhlith y problemau oedd yn effeithio ar recriwtio a chadw staff roedd cyflogau ac amodau, a chystadleuaeth tua allan i'r sector e.e. manwerthu (Moriarty et al., 2018; Hussein, 2017).[48]

[46] Gweler Memorandwm Esboniadol (2014) – pp.78-94

[47] Moriarty et al. (2018).

[48] Hussein (2017).

3.27 Mae COVID-19 wedi pwysleisio ymhellach 'freuder' gweithlu gofal cymdeithasol (Ymchwil y Senedd, 2021)[49], ac mae prinder gweithlu medrus a phrofiadol yn llesteirio gweithrediad y Ddeddf. Ymhlith y ffactorau ychwanegol a nodwyd yn Adroddiad *Gwerthuso Proses Ôl-COVID* eu bod yn effeithio ar gapasiti gweithlu, roedd gweithlu sy'n heneiddio, cynnydd yng nghymhlethdod yr angen, costau byw ac agweddau oedd eisoes yn bodoli fel cyflogau cystadleuol a gynigwyd gan awdurdodau cyfagos, swyddi tu allan i'r sector a dibyniaeth gynyddol ar staff asiantaeth.

3.28 Mae newidiadau yn y mewnfudo Ôl-Brexit yn ychwanegu haen arall o sialens. Er enghraifft amcangyfrifodd 'Independent Age' (2016) ar y gorau, y byddai bwlch argaeledd o weithwyr yn dod o du allan i'r DU ym maes gofal cymdeithasol yn 350,000 erbyn 2037.[50] Yng Nghymru, nododd Hutchinson & Ormston (2019) na phrofodd y mwyafrif o wasanaethau gofal cymdeithasol newidiadau yn lefel y ceisiadau a dderbyniwyd gan weithwyr o'r UE heb fod yn dod o'r DU. Fodd bynnag, roedd yr awduron yn cydnabod, o dderbyn cyd-destun ehangach y sialensiau staffio […],bod potensial gan unrhyw effaith Brexit o ran hawliau neu o ran y duedd i ddinasyddion yr UE heb fod o'r DU aros yn y DU i ddwysáu'r heriau sydd eisoes yn wynebu recriwtio ar gyfer y sector (p.39).[51]

3.29 Fel mae'n amlwg yng nghanfyddiadau'r astudiaeth *Persbectifau Gweithlu Ôl-COVID* roedd y cyfnerthedd gweithlu wedi gwanhau a staff wedi 'diffygio', yn 'lluddedig' ac yn dioddef o 'orludded' a hyn yn effeithio ar gyfraddau cadw saff. Dwysáu wnaeth problemau emosiynol a llesiant y gweithlu a rhai aelodau o staff yn profi 'gofid moesol' am fethu â diwallu angen oherwydd bod darpariaethau yn cau.

3.30 Mae'r holl sialensiau a nodwyd uchod yn cyfuno i greu'r 'storm berffaith gyflawn'. Yn y data a gasglwyd drwy fwyafrif yr astudiaethau unigol, ystyriai cyfranogwyr bod darparu adnoddau digonol (ariannol, gweithlu, sefydliadol, systemau) yn hanfodol i gyflawni system iechyd a gofal 'gyflawn' gynaladwy' a 'chyflawn'.

---

[49] Gofal cymdeithasol: system sydd ar fin torri?.

[50] Independent Age (2016). Gweler hefyd: Adroddiad BBC Wales (28.9.22) – Social care: 'Emergency' over lack of workers, bosses say | BBC Wales

[51] Hutchinson cd Ormston (2019).

**Cymhlethdod yr angen**

3.31 Mae gan yr heriau ddisgrifiwyd yn fras uchod, y rhai ariannol a systemau. oblygiadau i weithrediad y Ddeddf ei chanlyniadau a'i heffeithiau (byrdymor, tymor canolig a hirdymor) ar gyfer unigolion, gofalwyr a chymunedau. Mae problemau recriwtio, a chadw gweithlu yn effeithio ar ddilyniant gofal, canlyniadau ac oedi wrth drosglwyddo gofal, tra gall morâl isel ymhlith staff a'u boddhad yn y swydd hefyd effeithio ar ansawdd y gofal a gynigir (Squires et al., (Squires et al., 2015;[52] Senedd Cymru, 2022; Wallace et al., 2023; Age UK, 2022).[53]

3.32 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r argyfwng costau byw yn gwneud pethau'n waeth o ran methu â diwallu anghenion gofal cymdeithasol a phwysau ar y systemau (Age UK, 2022).

3.33 Cyn COVID-19, roedd gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru yn wynebu sialensiau sylweddol yn cynnwys amseroedd aros hir a bylchau yn y ddarpariaeth. Cynyddodd cyfartaledd yr unigolion oedd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl difrifol o 11.7% yn ystod y cyfnod yn syth cyn y pandemig i 28.1% erbyn Ebrill 2020 (Rodríguez, 2021).[54]

3.34 Profodd grwpiau arbennig e.e. y rhai hynny ag anghenion iechyd meddwl sydd eisoes yn bodoli, pobl ar gyflogau isel a phobl Ddu, Asiaidd ac o gefndiroedd Lleiafrifoedd Ethnig ganlyniadau gwaeth, ac mae pryderon parhaus am hir effaith y pandemig ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant (Ymchwil y Senedd 2021).[55] Mae'r cynnydd mewn tlodi ac anghydraddoldeb cynyddol (EHRC, 2018)[56] yn gwneud gofal a chymorth gyfer unigolion, teuluoedd/gofalwyr a chymunedau hyd yn oed yn fwy cymhleth.[57]

3.35 Ar ôl y pandemig, fel y disgrifir yn adroddiad *Persbectifau Gweithlu ar Ôl-COVID*, cynyddodd cymhlethdod yr angen yn sylweddol, gydag atgyfeiriadau yn cael eu gwneud am broblemau megis diffyg hyder a phryder a'r galw am wasanaethau iechyd emosiynol a llesiant.

---

[52] Squires et al. (2015).

[53] Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai | Senedd Cymru (2022).

[54] Rodríguez, J (2021).

[55] Cymru sy'n iach yn feddyliol | Ymchwil y Senedd.

[56] EHRC (2018).

[57] Blythe et al. (2018).

**Goblygiadau ffactorau cyd-destunol ar gyfer yr astudiaeth**

3.36 Yn ogystal â'r pwyntiau penodol hyn, efallai y bydd hi'n ddefnyddiol ystyried yr hyn y mae'r newidiadau hyn yn ei olygu i'r modd yr ydyn ni wedi cynnal ein gwaith. Fel y cyfryw, mae Ffigwr 3.9 yn cynrychioli'r modd roedden ni'n dehongli'r ddeddfwriaeth a natur y gwerthusiad o gychwyn cyntaf yr astudiaeth.

**Ffigwr 3.9: Y Ddeddf ar ffurf pictograff– Hydref 2018**[58]




3.37 Ar y cychwyn, roedden ni'n gweithio ar y sail y byddai ein hastudiaeth yn ystyried potensial trawsnewidiol y pum egwyddor. Llunion ni'r astudiaeth er mwyn i ni allu deall y modd y defnyddiwyd yr egwyddorion i ddylanwadu ar draws y pum parth lle mae'r egwyddorion hynny yn 'diwallu anghenion' y bobl neu'r sefydliadau y bwriadwyd y Ddeddf ar eu cyfer (fel yr amlinellwyd yn Nhabl 1.1).

[58] Ceir ffilm gyda sylwebaeth ddwyieithog yn disgrifio'r graffig hwn yn: Gwerthusiad o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

3.38 Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 2, cafwyd consenswis i ryw raddau am gyfeiriad y Ddeddf yn 2016, a alwyd yn 'fan setliad'. Cyflwynwyd y Ddeddf ar adeg yn dilyn blynyddoedd o reolwriaeth a rhesymoliaeth economaidd mewn polisi cyhoeddus a chyflenwi gwasanaethau a thrafodaethau ynglyn â chystadleuaeth, hawliau'r unigolyn ac osgoi risg yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant. Felly, ar yr adeg honno yr hyn oedd yn llywio polisi a chyd-destun y cyflwyno oedd gwella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ynghyd â phryderon am gynaladwyedd ariannol a yrrwyd gan gyni, gan amrywiaethau anwarantedig mewn darpariaeth ac ansawdd gwasanaeth, a'r gwagle y byddai sefydliadau rhanbarthol yn gweithredu'r ddeddf ynddo.

3.39 Er mwyn i'r iddi gael ei gweithredu'n effeithiol, roedd y Ddeddf yn gofyn am newid hinsawdd cyfundrefnol er mwyn hwyluso cydweithio yn effeithiol gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr drwy rannu grym. Roedd y Ddeddf hefyd yn gofyn am fwy o integreiddio a chysylltiad rhwng asiantaethau ar draws sectorau.

3.40 Fel y nodwyd yn adroddiad *Persbectifau Gweithlu Cyn COVID* arweiniodd y sialensiau hyn at bryderon dilys y byddai'n drafferthus i wireddu dyheadau'r Ddeddf, er yn dderbyniol ac uchelgeisiol, ym mywydau'r bobl oedd angen gofal a chymorth. Yn yr un modd, yn adroddiad *Persbectifau Gweithlu Ôl COVID*, roedd cyfranogwyr yn sylweddoli er bod yr egwyddorion yn dal i fod yn rhan hanfodol o 'stori'r' Ddeddf, mae lliaws o resymau pam nad ydy pobl efallai yn 'derbyn' manteision llawn yr hyn y gall yr egwyddorion eu cynnig. Awgrymwyd er bod hyn yn heriol cyn COVID-19, roedd yn arbennig o anodd ar adeg cynnal y cyfweliadau hyn. Sylweddolodd y cyfranogwyr fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers 2016 o ran ystyried sail y sgyrsiau sy'n sylfaenol i waith cymdeithasol a gofal cymdeithasol ond hefyd yn cydnabod yr angen am ail-adeiladu.

3.41 Dros gyfnod yr astudiaeth, felly, mae ein tystiolaeth wedi canfod y gwyrwyd o 'fan setliad' 2016. Mae'r cyd-destun wedi symud sydd wedi golygu y gellid ystyried nawr bod yr egwyddorion yn 'gweithio'n' wahanol nag oedden nhw yn 2016, a bod y pwysau ar weithredu gwasanaethau cymdeithasol - y cyflenwi ymarferol o'r gwaith sy'n digwydd ar draws cymunedau a lleoliadau yn ddyddiol ar gyfer miloedd o bobl – wedi dwysáu a'i helaethu fel nad ydy defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr efallai mor agos at uchelgais yr egwyddorion ag oedden nhw yn flaenorol. Fel sy'n amlwg yn adroddiadau *Persbectifau Gweithlu*, a'r data a gasglwyd oddi wrth defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, mae hyn wedi golygu na lwyddodd gweithlu bob amser i

gyflenwi'r egwyddorion yn y modd y bwriadwyd yn y Ddeddf ac mae profiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn adlewyrchu hyn.

3.42 I sicrhau cysondeb gyda fframwaith P-FE ar gyfer gwerthuso, mae Ffigwr 3.10 yn nodi rhai o'r cymhlethdodau ymhlyg ac amlwg yn y dystiolaeth a gasglwyd gennym. Mae nifer o rymoedd wedi gyrru hyn. Un ffactor ydy'r disgwyliadau sydd gan bobl am yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei gynnig a'r hyn sy'n bosibl o dan y Ddeddf. Ffactor arall ydy'r pwysau parhaus ar y gweithlu, yn gysylltiedig â Brexit mewn rhai rhannau o Gymru.

**Ffigwr 3.10: Y Ddeddf ar ffurf pictograff – Hydref 2022**[59]




3.43 Hefyd, mae COVID-19 yn drydedd enghraifft bwysig a sylweddol o rym mawr sydd wedi effeithio ar wasanaethau gofal a chymorth mewn modd na allai neb fod wedi'i

59 Ceir ffilm gyda sylwebaeth ddwyieithog yn disgrifio'r graffig hwn fan hyn: [IMPACT Symud Gyda'n Gilydd, Gyda'n Gilydd? | WIHSC YouTube]

ragweld adeg cychwyn y Ddeddf yn 2016. Mae'n amhosibl gor-bwysleisio grym aflonyddol y pandemig ac sy'n parhau o hyd, nid yn unig ar ffurf yr ymateb gweithredol uniongyrchol oedd yn gofyn i bobl beryglu eu hiechyd eu hunain i gynnig yr hyn y maen nhw'n ei wneud er mwyn cynnig gofal a chymorth i bobl. Mae hefyd yr effeithiau a ddaeth 'yn ei sgil' ' megis canlyniadau ariannol, argyfwng gweithlu a galw cynyddol am wasanaethau y gellid dweud eu bod yn cyfateb yn strategol a'u priodoli'n weithredol i COVID hir.

3.44 Mae'r Ddeddf yn ffurf gymhleth ar ymyriad yn gweithredu mewn cyd-destun cymhleth ac yn y pen draw angen ei gwerthuso fel y cyfryw. Mae'r cyd-destun wedi newid yn sylweddol ac oherwydd hyn, dydy'r dystiolaeth a gasglwyd gennym ddim yn adrodd stori syml nac unigol.

## 4. Cysyniadoli: mynegi egwyddorion y gellir eu gwerthuso a'r Ddeddf

### Cyflwyniad

4.1 Un o nodweddion hynod y Ddeddf ydy ei bod yn nodi bod swyddogaethau a dyletswyddau'r Ddeddf 'i'w gweithredu er mwyn rhoi egwyddorion arbennig mewn grym' (h.y. 'llesiant', 'ataliad', 'cyd-gynhyrchu', 'llais a rheolaeth' a 'gweithio'n amlasiantaethol'), fel modd o gyflawni canlyniadau arbennig.

4.2 Mae Patton (2018: 3-4) yn nodi bod egwyddorion yn deillio o 'brofiad, arbenigedd, gwerthoedd ac ymchwil'. Mae'n gwahaniaethu rhwng egwyddorion naturiol am 'sut mae'r byd yn gweithio' a'r egwyddorion sy'n 'ganllawiau i'r modd y mae pobl yn byw a'r hyn i'w wneud mewn amgylchiadau arbennig' neu egwyddorion sy'n ganllawiau i bobl. Y ffurf olaf hwn o egwyddorion y mae'r Ddeddf yn eu hymgorffori. O'u cyfuno, darparodd yr egwyddorion hyn fframwaith gweithredu cysylltiol.

4.3 Mae'r modd y mae egwyddorion y Ddeddf, gyda'i gilydd yn cynnig 'fframwaith cydgysylltiedig' sy'n dod i'r amlwg yn thematig yn nadansoddiad data gwerthuso meintiol yr ymchwil a wnaed gyda darparwyr gwasanaeth, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Cafwyd sylwadau mynych am werth ymarferol fframwaith yn seiliedig ar egwyddorion i feysydd â blaenoriaeth.

4.4 Mae enghraifft o'r cydgysylltiad rhwng egwyddorion y Ddeddf yn amlwg yn achos ataliad. Fel y gwelir yn yr adolygiad llenyddiaeth, dydy ataliad ddim yn sefyll ar ei ben ei hun, mae'n ymwneud â rhywbeth, tuag at rywbeth ac mae'n gofyn am ddulliau o fynd ati sy'n wahanol i'r rhai sy'n ymateb i argyfwng angen am wasanaethau gofal cymdeithasol. (Verity et a, 2020; 9). Mae egwyddorion perthynol y Ddeddf yn cynnig syniad gwell o'r hyn y gall hyn ei olygu. Mae thema IMPACT sy'n sôn am lesiant er enghraifft yn amlygu data ansoddol ar y modd y gall gwahanol ddulliau rhyngweithiol o fynd ati rhwng gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaeth hyrwyddo llesiant gwell ac atal canlyniadau gwaeth o ran iechyd a gofal (Lyttleton-Smith et al, 2022). Yn yr un modd, dyfynnodd adroddiad ar weithio'n aml-asiantaethol enghreifftiau o gydweithio lleol rhwng timoedd aml-ddisgyblaethol cymunedol ym maes atal (Wallace and Garthwaite, 2022 (Lyttleton-Smith et al, 2023).

4.5 Yn dilyn dull P-FE o fynd ati, diben y bennod hon felly, ydy asesu i ba raddau y mae egwyddorion y Ddeddf wedi'u mynegi'n glir fel rhagamod iddyn nhw fod yn effeithiol i arwain y camau gweithredu.

4.6 Mae tystiolaeth gwerthusiad yr astudiaeth hon yn dangos amrywiaeth yn eglurder diffiniad pob un o'r egwyddorion. Dydyn nhw i gyd ddim yn cael eu diffinio yn y Ddeddf, er bod rhai yn cael eu diffinio, ac mae'r Codau Ymarfer cysylltiol yn cynnig diffiniad pellach er nad ydy hyn yn digwydd drwyddi draw. Er enghraifft, er y dywedir mewn dogfennau cynnar Llywodraeth Cymru bod 'llais a rheolaeth' yn 'rhedeg drwy ganol y Ddeddf' ni chaiff ei ddiffinio'n ffurfiol yn y Ddeddf.

4.7 Ar y cyfan, mae diffyg diffiniad y mwyafrif o egwyddorion y Ddeddf hefyd yn nodwedd o'r llenyddiaeth gyhoeddedig gyda thermau procsi yn aml cael eu defnyddio'n gyfnewidiol a hynny yn ei dro yn arwain at gysyniadau'n gorgyffwrdd. Mae'r diffyg hwn yng nghywirdeb manwl y cysyniadau yn nodwedd nifer o ffynonellau tystiolaeth ar draws yr astudiaeth.

4.8 Mae tair ffurf posibl o fynegi pob un o'r egwyddorion – y cyntaf, lle ceir diffiniad o ystyr eglurder, a'r ail lle mae'r gwrthwyneb yn wir, lle ceir amwysedd ac amhendantrwydd. Mae'r trydedd ffurf hefyd, sy'n gorwedd rhwng y ddau gyntaf – ystyr ar y trothwy *(liminality)*. Trafodir pob un yn ei dro.

**Ystyr eglurder**

4.9 Llesiant ydy'r egwyddor lle efallai ceir y diffiniad gorau o ystyr eglurder yn y modd mae'n cael ddisgrifio yn y Ddeddf.

4.10 Yn annhebyg i'r egwyddorion eraill, diffinnir llesiant yn y Ddeddf, er efallai mewn termau sy'n gwrthddweud ei gilydd. Mae Rhan Un Adran 2, yn datgan: "*Ystyr "llesiant", wrth gyfeirio at berson ydy llesiant yn cyfeirio at unrhyw un o'r canlynol*...". Dilynir hyn gan restr o ffactorau *sy'n cyfrannu* at lesiant yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Does dim gwybodaeth bellach yn y Ddeddf ar natur cyflwr 'llesiant'. Dydy nodi mai ystyr 'llesiant ydy llesiant...' ddim yn ddiffiniad manwl gywir i arwain polisi ac ymarfer. Mae'n glir bod y Ddeddf yn ceisio tywys polisi ac ymarfer i ystyried dull aml-ddimensiynol o fynd ati i drin llesiant, sef dull holistaidd o fynd ati y mae tystiolaeth ymchwil yn ei gynorthwyo. Fodd bynnag, mae gwaith pellach i'w wneud i ddiffinio llesiant yng nghyd-destun y Ddeddf.

4.11 Mae hyn yn bwysig oherwydd bod y modd y diffinnir llesiant yn newid yn y modd y mae'n cael ei fesur fel profiad. Canlyniad diffyg diffiniad clir ydy na fesurwyd llesiant mewn modd ystyrlon ar sail tystiolaeth ddigonol gyda phobl berthnasol i'r Ddeddf, yng Nghymru. Ar ben hynny, dydy rhestru nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant, er mor gywir ydyn nhw, ddim yn penderfynu beth ydy cyflwr llesiant na beth ydy profi llesiant neu sut byddai'r unigolyn yn teimlo o'i brofi.

4.12 Adlewyrchir y diffiniad amhendant hwn o lesiant mewn nifer o gymwysiadau o'r cyd-destun ar draws polisi'r DU ac yn rhyngwladol, fodd bynnag mae rhai ymchwilwyr yn beirniadu'r duedd hon drwy ddweud ei bod yn galluogi dehongliadau cyffredinol ac annelwig[60]. Gallai amhendantrwydd fel hyn ddrysu gweithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n derbyn ynglyn â'r hyn ddylai eu disgwyliadau fod. Gallai 'cysyniad gorgyffwrdd' rhwng llesiant a chysyniadau penodol eraill megis hapusrwydd, boddhad bywyd ac ansawdd bywyd achosi mwy o ddryswch. Mae aneglurder y cysyniad o lesiant yn amlwg mewn gwahanol ddehongliadau o'r hyn y mae llesiant yn ei olygu'n union i bobl sy'n derbyn gwasanaethau - cyffelybwyd ceisio sicrhau diffiniadau i *"gydio mewn darn o niwl"*, ac mae hyn yn adlewyrchu'r amwysedd a'r ansicrwydd a nododd llawer o bobl (Lyttleton-Smith et al., 2023).

4.13 Anghyson fu mesurau llesiant o fewn y llenyddiaeth ar fesur llesiant ar gyfer polisi cyhoeddus. Canolbwyntiodd y mesurau yn bennaf ar safonau byw neu ar ddangosyddion ansawdd bywyd. Mae'r dangosyddion hyn yn help i ffocysu ar 'lesiant gwrthrychol' (mesurau allanol o gydrannau llesiant), fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth gyd-destunol yn rhoi'r un sylw ar 'lesiant goddrychol' (canfyddiadau mewnol unigolion o lesiant personol).

4.14 Mae mesur llesiant yn cyd-fynd i raddau â thystiolaeth llenyddiaeth gyd-destunol. Er enghraifft, ers 2012 mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi ymgorffori cwestiynau llesiant goddrychol ar foddhad bywyd a lefelau 'hapusrwydd' cyfredol a ddaeth yn wreiddiol o gwestiynau'r Swyddfa Ystadegau Genedlaethol a ofynnwyd i'r DU gyfan. Fodd bynnag, mae mesurau eraill oedd yn y Arolwg Cenedlaethol Cymru oedd yn adlewyrchu datganiadau canlyniadau yn fwy penodol yn Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, [61] ac mae hynny yn cyfyngu ar eu gallu i ddisgrifio'r math o effeithiau y gellid eu rhagweld yng nghyd-destunau gofal cymdeithasol.[62] Ar ben hynny, mae canran ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n derbyn gofal a /neu gymorth o dan y Ddeddf yn cyfyngu ar y gallu i ddal tueddiadau mynegol o ran llesiant ar gyfer y bobl hyn, os gwahanwyd nhw ar lefel leol.

[60] Am fanylion pellach gweler Anderson et al. (2020)

[61] [Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol]

[62] Am ragor o wybodaeth am hyn, gweler Lyttleton-Smith et al. (2023).

### Ystyr amwysedd

4.15 Ar gyfer rhai o'r egwyddorion sy'n sail i'r dyletswyddau a nodwyd yn y Ddeddf, mae'r iaith a ddefnyddir yn amhendant neu'n amwys, ac ar brydiau cyfnewidir ystyr ystod o dermau neu eu defnyddio mewn modd sy'n cymylu a drysu eu hystyr.

4.16 O'r astudiaeth ceir tystiolaeth o doreth o deipolegau – boed o'r llenyddiaeth a adolygwyd gennym neu o dystiolaeth a gasglwyd gennym oddi wrth sefydliadau – sy'n dadelfennu ac ail-drefnu cydrannau unrhyw egwyddor. Er enghraifft, gwahaniaethir rhwng cyd-gynhyrchu fel modd o ymarfer a dulliau perthynol o weithio megis cydweithio neu gydweithredu. Mae enghreifftiau o'r cymhlethdodau ieithyddol a'r sialensiau cyfathrebu hyn ar draws ffynonellau gwahanol ddata yn yr astudiaeth ac mae amrywiaeth sylweddol yn dal i fodoli yn y modd y defnyddir rhai o'r egwyddorion a'r termau cysylltiol.

4.17 Yn absenoldeb diffiniadau manwl gywir o fewn y ddeddfwriaeth, mae'r derminoleg yn gorgyffwrdd ac mae gwahaniaethau yn gyffredin. Er enghraifft, mae'r Ddeddf yn rhagweld, o ddilyn egwyddorion gweithio integredig yn maes iechyd a gofal cymdeithasol y bydd gwelliannau yng nghanlyniadau llesiant pobl. Fel sy'n amlwg yn yr adolygiad llenyddiaeth a'r adroddiad aml-asiantaethol yn yr astudiaeth hon, (Wallace a Garthwaite, 2023), defnyddir terminoleg gwahanol i gwmpasu ystyr gweithio'n aml-asiantaethol, yn cynnwys "cydweithredu", "integreiddio gofal", "gweithio ar y cyd ", a "partneriaeth", cyfeirir at yr olaf yn benodol mewn rheoliadau.

4.18 O ran gweithio'n aml-asiantaethol, y broblem a amlygwyd mewn adroddiadau yn y llenyddiaeth oedd bod dros 70 o dermau ac ymadroddion ac 175 o ddiffiniadau a chysyniadau o ofal integredig yn dal i fodoli. Mae hyn yn golygu bod unigolion a sefydliadau yn llai clir eu meddwl am integreiddio a gofal integredig 'ar draws bylchau, amser a chyd-destun', a hynny, yn ei dro yn golygu bod rhanddeiliaid yn dylanwadu'n wahanol ar drosglwyddo polisi ac yn y pen draw ar bwy fydd yn elwa neu golli allan yn y broses honno (Lai Meng & Cameron, 2019).

4.19 Dywedir bod ataliad '… *wrth wraidd rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer newid ym maes gwasanaethau cymdeithasol'* (Llywodraeth Cymru, 2015; 38); mecanwaith i alluogi canlyniadau llesiant a chyflenwi gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy mewn hinsawdd o bwysau ariannol a galwadau cynyddol. Mae Adran 15 o'r Ddeddf yn rhestru amcanion agenda atal ac ymyriad cynnar ac yn defnyddio berfau megis 'gostwng', 'hyrwyddo', 'lleihau', 'annog', 'osgoi' a 'galluogi' i ddisgrifio'r camau

gweithredu (Llywodraeth Cymru, 2014; 12-13). Yn Rhan 2, Swyddogaethau Cyffredinol Cod Ymarfer (2015, tud. 11) diffinnir ataliad fel modd o '…rhwystro anghenion pobl rhag gwaethygu' ac i hyrwyddo llesiant.

4.20 Yn y llenyddiaeth, mae diffiniadau ataliad ym maes gofal cymdeithasol yn ansad ac ansicr, gydag ystod o fwriadau gwaelodol am yr hyn sy'n cael ei atal, sy'n rhychwantu arbed arian i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol (Gough, 2013; Clark, 2019; Marczak et al., 2019; Tew et al., 2019). Cafwyd hefyd yn nadansoddiad dogfen atal (Read et al, 2023) y gall fod gan ataliad yng nghyd-destun gofal cymdeithasol yrwyr cyfochrog ac weithiau gyrwyr anghyson, croes i'w gilydd, a hyn eto'n thema yn yr adolygiad llenyddiaeth. Drwyddi draw yn nadansoddiad dogfennau roedd bwriadau atal yn cynnwys: rhwystro problemau rhag cychwyn; lleihau effaith argyfyngau ar ôl iddyn nhw ddigwydd; lleihau costau a'r galw am wasanaethau statudol; datblygu cydnerthedd unigolion a chymunedau; meithrin cyfalaf cymdeithasol; lleddfu anghydraddoldebau cysylltiedig â thlodi a lleihau beichiau gofal iechyd trydyddol.

4.21 Er i nifer o amcanion agenda atal gael eu trafod yn gyfochrog, nodwyd nad oedden nhw bob amser yn ymgyfuno'n naturiol. Cafwyd y mater hwn hefyd mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn y ddau adroddiad *Persbectifau Gweithlu.*

4.22 O ran cysyniad 'llais a rheolaeth' dydy'r Ddeddf ddim yn cynnig unrhyw ddiffiniad ffurfiol chwaith. Ceir darnau o ddiffiniadau yng ngwahanol Rannau o'r Ddeddf a'r Codau Ymarfer. Er enghraifft, mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn cynnig nifer o ddatganiadau allweddol sy'n brocsïaid defnyddiol i'w defnyddio yn lle diffiniadau ffurfiol a hefyd mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2 yn tynnu o Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol i nodi agweddau allweddol o'r hyn ydy defnyddio 'llais a rheolaeth': "Hawl i gael eich clywed fel unigolyn …i reoli eich bywyd dyddiol; Mae fy llais yn cael ei glywed ac mae pobl yn gwrando arna i; rydw i'n siarad drosta i fy hun ac yn cyfrannu i'r penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu gael rhywun a all wneud hynny ar fy rhan.

**Ystyr ar y trothwy**

4.23 Mae ar y trothwy yn golygu cyflwr pontio o un peth i'r llall, neu o un cyfnod i'r llall, ac yn aml yn llawn amwysedd a dryswch. Weithiau, mae'r Ddeddf yn cynnig diffiniad ar gyfer yr egwyddorion ond mewn modd gochelgar, unochrog/rhannol, amodol a throthwyol, fel yn achos cyd-gynhyrchu fel y trafodir isod

4.24 Er enghraifft, yn Rhan 2 o'r Cod Ymarfer[63] nodir "…mai'r hyn sy'n sylfaenol i'r holl ddull o fynd ati a'r system (a osodir allan yn y Ddeddf) ydy bod ymarferwyr yn cyd-gynhyrchu gyda phlant, pobl ifanc, gofalwyr a theuluoedd a gydag oedolion, gofalwyr a theuluoedd. Mae gan bartneriaid yn y broses hon gyfraniadau i'w gwneud" (tud. 54). Yna, mae'n mynd yn ei flaen i awgrymu bod rhaid i "Awdurdodau lleol ymglymu pobl i gyd-gynhyrchu dyluniad a gweithrediad gwasanaethau" (tud. 27, pwyslais yn y gwreiddiol), dyletswydd sy'n "golygu sefydlu trefniadau trylwyr er mwyn annog pobl i gymryd rhan" (tud. 51). Mewn man arall, neilltuir y ddyletswydd hon hefyd i Fyrddau Iechyd Lleol (tud 5). Felly, er y bydd cyd-gynhyrchu yn dibynnu, o anghenraid ar gyfraniadau gan ystod o unigolion sydd wedi ymglymu a sefydliadau ar draws sectorau, mae *ysgogi a symbylu* cyd-gynhyrchu a sicrhau bod yr hyn sy'n dilyn yn ymglymu pobl yn weithredol yn cael ei fynegi a'i osod fel dyletswydd ar gyfer y sector cyhoeddus.

4.25 Disgrifir cyd-gynhyrchu yn y Ddeddf yn *Rhan 2 o'r Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)* ond bod y disgrifiadau yn anuniongyrchol ac yn rhannol. Felly, unwaith eto yn hytrach na nodi'n union yr hyn ydy cyd-gynhyrchu, mae'r Ddeddf yn cynnig enghreifftiau llac o 'gymdeithasau' cyd-gynhyrchiol fydd gan y cyfryw ymarfer. Dywedir ar y cychwyn ei fod:

- "yn ymwneud â chynorthwyo pobl sy'n cynnig gwasanaethau cymdeithasol, yn eu grymuso i gyd-gynhyrchu datrysiadau gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth." (tud 5)
- "…yn ddull o weithio lle mae ymarferwyr a phobl yn cydweithio fel partneriaid cydradd i gynllunio a chyflenwi gofal a chymorth." (tud. 5)[64]

4.26 Mae angen diffinio'r ddwy nodwedd ymhellach er mwyn egluro'r hyn y maen nhw'n ei olygu. Mae'r cyntaf yn cyflwyno cyd-gynhyrchu mewn modd cylchol sef ei fod yn "cyd-gynhyrchu datrysiadau" – heb ddiffinio beth ydy cyd-gynhyrchu. Yn yr ail, mae llawer yn dibynnu ar yr hyn a ddeallwn wrth "bartner cydradd" yn enwedig mewn achosion lle mae'r rhai sy'n gweithio gyda'i gilydd yn gymysgedd o ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr ac ymarferwyr. Gan nad ydy cydweithio fel partneriaid cydradd yn *unigryw* i gyd-gynhyrchu, ni allwn weld eto beth ydy diffiniad cyd-gynhyrchu fel modd o weithio.

[63] Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)

[64] Ibid.

**Crynodeb – mynd i'r afael â P-FE**

4.27 Perthnasedd cael diffiniadau clir o egwyddorion allweddol y Ddeddf ydy ei fod yn lleihau'r posibilrwydd o ddryswch ymhlith y rhai sy'n gweithredu yn y gwahanol barthau am eu diben neu eu hamcanion.

4.28 Enghraifft o hyn ydy llesiant lle mae sgôp i benderfynu ar ddiffiniad mwy manwl-gywir o lesiant gyda chysondeb cyd-destunol sy'n adlewyrchu'r llenyddiaeth sy'n sail i'w ddefnydd mewn polisi. Mae'n bwysig i fod yn glir, er bod Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (NOF) yn cynnig syniad o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ydy penderfynyddion elfennau llesiant, dydy hyn ddim yn ddiffiniad o'r cysyniad.

4.29 Wrth benderfynu pa agweddau o fywyd sy'n cyfrannu at lesiant, mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn gweithredu'n ddigon da fel canllaw i ymarfer, fodd bynnag, prin ydy'r dystiolaeth bod y fframwaith yn cael ei ddefnyddio i gyfarwyddo tu hwnt i'r hyfforddiant cychwynnol. [65] Ar wahân i'r ymarfer, mae gan y diffiniad a'r cyfarwyddyd o dan y Ddeddf oblygiadau i'r modd y caiff llesiant pobl sy'n cyrchu gofal cymdeithasol ei fesur, ei dracio a'i adrodd yng Nghymru. Mae mesur llesiant o fudd sylweddol i werthuso a datblygu'r Ddeddf a hefyd ar gyfer unrhyw bolisi arall sy'n ceisio hyrwyddo llesiant cenedlaethol. Doedd mesuriadau llesiant oedd ar gael yn ystod y gwerthuso ddim yn ddigonol i bennu'n bendant a ydy llesiant pobl yn cyrchu gofal cymdeithasol wedi newid ers i'r Ddeddf gael ei gweithredu.[66]

Mae cwestiwn yn codi o hyn: os oes sialensiau i ddiffinio egwyddor ac bod yna gytuno ar ddull i'w deall, sut gall dinasyddion gyda hawliau o dan y Ddeddf wireddu'r cynnig o'r egwyddor honno? Neu, o'i roi mewn termau symlach, ydy cyflawni addewid egwyddor i arwain ymarfer yn diffinio gofyn am gytundeb ar beth ydy ei ystyr? Ond, dyma ddadl ei bod yn well gweithredu mewn modd mwy sefyllfaol lle mae cyd-werthoedd, pwrpas a dull ar y cyd o fynd ati yn bwysicach na geiriau manwl ar dudalen.

4.30 Naill ffordd neu'r llall, mae tystiolaeth o'r gwerthusiad hwn yn dangos bod gwendidau yn yr adnoddau neu mewn fframwaith i fesur i ba raddau bu'r egwyddorion yn effeithiol i alluogi ymyriadau sy'n cyflawni amcanion y Ddeddf. Yn

[65] Am ragor o fanylion am hyn, gweler Lyttleton-Smith et al. (2023).

[66] Ibid.

hytrach, mae'n nodi 'nodweddion' ymarfer a gwerthoedd cysylltiol. Felly, wrth grynhoi'r gwahaniaethau (neu fel arall) y mae'r Ddeddf wedi'u wneud, doedden ni ddim wedi gallu bod mor bendant am y casgliadau o ran yr effaith ag yr hoffen ni.

4.31 Yn dilyn P-FE mae'n aneglur felly a oedd y "bar wedi'i glirio", a bod pob egwyddor wedi'u mynegi'n llwyddiannus. Yn wir mae yna amheuaeth hefyd a ydyn ni gyd yn defnyddio'r yn un "bar" i seilio barn. Felly, procsïaid sydd ar ôl – disgrifiadau heb fod ar ffurf diffiniadau a fydd yn cynnig cliwiau i ni am beth ydy'r egwyddorion. Y sialens yn aml ydy nad ydy hi'n glir o'r Ddeddf beth sydd ei angen i gynnwys unrhyw un o'r procsïaid hyn. Er enghraifft, ystyried mai 'asedau' ydy pobl a defnyddio hyn fel procsi yn niffiniad cyd-gynhyrchu ond ni chaiff hyn hyd yn oed ei ddiffinio'n fanwl gywir – a dydy hi ddim yn glir nad oes unrhyw 'bren mesur' annibynnol i fesur datblygiad cyd-ymddibyniaeth a chilyddiaeth ymhlyg yn y datganiad procsi.

4.32 Mae diffyg diffiniadau clir o'r egwyddorion yn y Ddeddf a byddwn yn trafod canlyniadau hyn yn y bennod nesaf Ac eto, dro ar ôl tro, roedd data'r gwerthusiad yn dangos bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ar draws y gweithlu yn cefnogi'r egwyddorion. Ond ni ddylid camgymryd hyn am alwad am gywirdeb manwl cul a diamod mewn diffiniadau ar draul dull mwy lleoledig a chyd-destunol o fynd ati.

## 5. Gweithredu: glynu at egwyddorion y Ddeddf wrth ei rhoi ar waith

### Cyflwyniad

5.1 Mae disgwyliad cyffredinol y byddai fframwaith y Ddeddf i alluogi newid mewn polisi a sefydliadau a systemau ac wrth gynnig gofal a chymorth yn cael ei adlewyrchu ym mhrofiadau y rhai sy’n derbyn gofal a cymorth. Yna, dros amser byddai’n arwain at sicrhau gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.

5.2 Dylai canlyniad y broses weithredu olygu bod unigolion ag anghenion cymorth, gofalwyr, teuluoedd, cymunedau mewn, partneriaethau cyd-gynhyrchiol gyda’r gweithlu gofal cymdeithasol yn trosi cyfeiriad cenedlaethol y Ddeddf yn ffurfiau lleol o gymorth yn ffurfiol neu'n anffurfiol yn gwireddu addewid o’r canlyniadau llesiant a ragwelwyd yn y ddeddfwriaeth.

5.3 Ein diben yn bennod hon, felly, ydy ystyried i ba raddau y mae’r egwyddorion a gafodd eu mynegi a’u cysyniadoli (gweler Pennod 4), a’r cynnig o fframwaith cydgysylltiol, wedi cael eu trosi a’u gweithredu. I wneud hyn, rydyn ni’n tynnu ar ganfyddiadau allweddol yr 11 astudiaeth a gynhaliwyd ar gyfer gwerthusiad IMPACT.

5.4 Trefnir y bennod yn ôl y themâu canlynol: a) ymateb positif i’r egwyddorion, b) mecanweithiau ar gyfer cyflenwi, c) partneriaethau a chysylltiadau, d) y bylchau rhwng delfrydau a phrofiad, e) amrywiadau di-alw amdanyn nhw a beichiau ychwanegol, f) adnoddau a chyd-destun, a g) COVID-19: ‘melltith’ neu ‘gyfle’.

### Ymateb positif i’r egwyddorion

5.5 Yn gyffredinol mynegwyd brwdfrydedd dros gysyniad bras o'r egwyddorion fel ’datganiad cenhadaeth’ ar gyfer gofal cymdeithasol, gyda gweithwyr proffesiynol yn cofleidio'r syniad o fod yn holistaidd wrth ystyried ystod profiadau bywyd pobl a allai fod yn cyfrannu at eu canlyniadau llesiant. Mae meddu ar lais cadarn a gwir reolaeth yn ganolog i’r Ddeddf a hynny'n seiliedig ar y dybiaeth y byddai hyn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i gyflawni llesiant a lefel briodol o annibyniaeth. Mae hyn yn amlygu ei hun yn y ddau adroddiad ar bersbectifau’r gweithlu (Llewellyn et al, 2021 a Wallace et al, 2023). Mae hefyd yn amlwg yn yr adroddiadau unigol ar weithredu egwyddorion y Ddeddf.

5.6 Cymeradwywyd egwyddor cyd-gynhyrchu gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth werthuso. (Andrews et al, 2023). Adlewyrchodd yr

hyn a gafodd cyfranogwyr yn yr astudiaeth yn werthfawr yn y syniad o gyd-gynhyrchu y gwerthoedd a gysylltir â chyd-gynhyrchu yn y Ddeddf a'r Codau Ymarfer cysylltiol. Ymhlith y gwerthoedd hynny, mae rhai yn derbyn cymorth arbennig o amlwg: ystyried pobl fel asedau, adeiladu ar alluedd, gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn partneriaeth â phobl (h.y. defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr), yn cynorthwyo a grymuso pobl i gymryd rhan i ddylunio a gweithredu gwasanaethau gan ddatblygu cyd-ymddibyniaeth a chilyddiaeth.

**Mecanweithiau ar gyfer cyflenwi**

5.7 Mae dulliau person-ganolog o fynd ati yn fodd allweddol o roi'r egwyddorion ar waith. Mae'r berthynas rhwng yr ymarferwr a'r unigolyn yn hanfodol i greu ffocws ar 'yr hyn sy'n bwysig' i'r unigolyn. Ar draws y dystiolaeth a gasglwyd, cawsom fod gweithredu dulliau person-canolog o fynd ati yn cael ei ystyried yn sylweddol *lleol,* yn gysylltiedig â lleoliadau arbennig, yn dibynnu ar gyfraniad pobl o'r "gwraidd tua'r brig", dulliau sy'n gofyn am fath o "brynu i mewn" gan y rhai fydd yn elwa a hynny, yn ei dro, yn debygol iawn o darddu o'r ymdeimlad o fod ynghlwm wrth gyd-destun arbennig.

5.8 O ran mecanweithiau i gyflawni llais a rheolaeth, yn adroddiad *Disgwyliadau a Phrofiadau* (Llewellyn et al, 2022), nododd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gyfres o fecanweithiau positif sydd yn bodoli y gallan nhw o bosibl wireddu uchelgeisiau llais a rheolaeth: ystod y ddeddfwriaeth a'r hawliau sydd ar gael iddyn nhw, argaeledd Taliadau Uniongyrchol a rôl cyd-gynhyrchu fel un o egwyddorion y Ddeddf. Ar ben hynny, yn yr un adroddiad ceir enghreifftiau lle roedd gofalwyr yn sôn am brofiad o asesiad gofalwr fel darpar ffynhonnell o gymorth (Llewellyn et al, 2022; 34), achosion lle teimlai gofalwyr 'ymatebolrwydd amlwg' wrth rhyngweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol ac enghreifftiau lle hwyluswyd byw'n annibynnol (ibid; 37).

5.9 O'r is-astudiaeth *Cyd-Gynhyrchu* (Andrews et al, 2023), tybiwyd bod y gwaith a gynhaliwyd ar egwyddorion megis cyd-gynhyrchu yn werthfawr fel *proses*, yn annibynnol o ganlyniadau Mewn geiriau eraill: hyd yn oed os nad ydy canlyniadau darn arbennig o ymarfer cyd-gynhyrchiol yn hysbys neu'n amlwg yn 'ddi-fudd, roedd unigolion yn gwerthfawrogi cyd-gynhyrchu fel dull o weithio ynddo'i hun.

5.10 O ddadansoddiad o'r ddogfen ar ataliad (Read, et al, 2022), cawn dapestri o waith ataliad gyda chydgysylltiadau amlwg ar draws lefelau atal, parthau, grwpiau'r

boblogaeth, dulliau o fynd ati a nodau. Roedd pob awdurdod lleol yn rhoi rhai mentrau atal ar waith yn enwedig y rhai a ddiffinnir yn rhai ataliol gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn gyson yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA), rhaglenni ail alluogi, hybiau help cynnar, cymhorthion ar gyfer pobl hŷn, gwaith datblygu cymuned, rhaglenni ymyriad cynnar a chymorth ar gyfer teuluoedd a phlant a phobl ifanc a gwasanaethau eiriolaeth.

5.11 Yn ychwanegol, amlygodd y dogfennau a ddadansoddwyd ar gyfer yr adroddiad *Ataliad* (Read et al, 2022) nifer o fentrau a enwyd gyda ffocws ar atal yn cynnwys *Gwella Adre o'r Ysbyty, Dechrau'n Deg,* cymhorthion gofal plant blynyddoedd cynnar, *Teuluoedd yn Gyntaf* a *Thîm o Gwmpas y Teulu* (TaF) mentrau a ragflaenodd y Ddeddf, Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Cymorth Cyfiawnder Ieuenctid, Cydlynu Ardal Leol, *Gwasanaethau Tlodi ac Ataliad*, a llawer rhagor. Ategwyd y rhain ymhellach gan ddatblygiad amrywiaeth o fentrau lleol yn seiliedig ar anghenion lleol. Mae ffocws ar ataliad ac ymyriad hefyd yn amlwg yn y data o ran diogelu ac mewn trafodaethau ar asesu gofal a chymorth a chynllunio i ddiwallu anghenion unigolion.

5.12 Mae'r ystod eang o ffactorau llwyddiant ar gyfer gweithio aml-asiantaethol hefyd yn berthnasol i ymarfer sy'n canoli ar y person fel y nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth ar gyfer y thema hon. (Llewellyn, Verity a Wallace, gol/eds, 2020). Mae rhai o'r ffactorau hyn yn broblemau trefniadol megis trefn lywodraethu a strwythurau, ond hefyd yn rhai a all effeithio ar bobl yn uniongyrchol, megis gwerthoedd unigol, ymddiriedaeth ac arweinyddiaeth. Mae gweithio amlasiantaethol yn cynorthwyo'r syniad bod yr unigolyn yn y canol, bod iechyd a llesiant yn fusnes i bawb a bod yr holl randdeiliaid o fewn y gymuned yn cael eu hannog i gydweithio i hyrwyddo a chyflawni newid ac mewn rhai achosion i gamu i mewn gyda chymorth amgen lle mae bwlch yn y ddarpariaeth statudol (Wallace a Garthwaite, 2022).

**Partneriaethau a chysylltiadau**

5.13 Mae partneriaethau a chysylltiadau yn bwysig wrth weithredu'r egwyddorion. Cawn dystiolaeth yn y gwerthusiad bod y Ddeddf, drwy ymgorffori gweithio'n aml-asiantaethol yn y ddeddfwriaeth, wedi hybu hyder ymhlith asiantaethau i hwyluso sgyrsiau gyda phartneriaid, gweithredu newid ac atgyfnerthu partneriaethau. Mae wedi galluogi dulliau newydd o weithio wrth gynllunio a chynnig gofal a chymorth, yn cynnwys newid arferion datblygu ac atgyfnerthu partneriaethau. Mae hyn yn bwysig yng nghyd-destun cydweithio i wella yn hytrach na thalu sylw i faterion yn ymwneud

â iechyd a chlefydau yn unig. Mae'r syniad o weithwyr a sefydliadau yn cydweithio yn ymestyn egwyddorion cyd-gynhyrchu a llais a rheolaeth drwy rymuso pobl a chymunedau i weithio gyda phobl broffesiynol a gwneuthurwyr polisi er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gofal priodol. Mae ymglymiad y trydydd sector gyda chyrff statudol yn chwarae rôl bwysig wrth gyflawni'r agenda atal.

5.14 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos y modd y mae canologrwydd llesiant holistaidd ym maes gofal cymdeithasol yn ymddangos eu fod yn cynorthwyo ymglymiad mewn gweithio mewn partneriaeth yn y sector a thu hwnt, gan fod gweithwyr proffesiynol yn gosod mwy o werth ar gydweithredu gyda gwahanol sefydliadau yn cynorthwyo'r unigolyn o ganlyniad. Fodd bynnag, nodwyd ei bod yn anodd iawn deddfu ar gyfer cysylltiadau da a bod rhai o'r rhwystrau strwythurol yn tanseilio ewyllys da.

5.15 Disgrifiodd y gweithwyr a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth aml-asiantaethol y ffactorau oedd wedi eu helpu nhw i gydweithio'n llwyddiannus ar draws ffiniau cyfundrefnol (Wallace a Garthwaite, 2023). Ymhlith y rhain roedd sicrhau ymddiriedaeth a pherthynas dda, cyfathrebu uchel ei ansawdd, a rhannu gwybodaeth a chymeradwyaeth strategol a sefydliadol o weithio'n aml-asiantaethol. Ymhlith yr atalyddion roedd gwahaniaethau diwylliannol a strwythurol, disgwyliadau afrealistig (yn enwedig o ran amser) a phrinder o ddulliau effeithiol o fesur pa mor dda mae gwasanaethau yn cydweithio.

5.16 Yn y data a gasglwyd, nodir bod ansawdd y berthynas rhwng defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol yn hwyluso cyd-gynhyrchu ac egwyddorion eraill gwella llesiant. Felly, mae cyd-gynhyrchu yn fodd o ffurfio cysylltiadau a'u cryfhau, ond hefyd yn rhywbeth sy'n dibynnu ar ymdeimlad o weithio gydag eraill – o wneud, yn hytrach na derbyn. Fodd bynnag, mae ymglymu mewn cyd-gynhyrchu yn dreth ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn ariannol ac yn emosiynol (Andrews et al, 2023).

5.17 Ystyriwyd bod cyd-gynhyrchu llwyddiannus yn aml yn gysylltiedig â gwaith unigolion mentrus, gwybodus ac ymroddgar gydag ymdeimlad cryf o werth cyd-gynhyrchu a'r penderfyniad i'w wireddu. Mae modelau rôl ac arloeswyr yn chwarae rôl bwysig (Andrews et al, 2023).

5.18 Ceir ymdeimlad cryf bod cyd-gynhyrchu yn y trydydd sector wedi datblygu'n bellach nag mewn nifer o awdurdodau lleol. O'r pwyntiau a wnaed gan gyfranogwyr y

gweithdy astudiaeth Cyd-Gynhyrchu (sylwer na holwyd nhw yn fanwl), y rheswm dros hyn efallai ydy bod pobl sy'n gweithio yn y sector hwnnw yn llai caeth i weithdrefnau neu ofynion sy'n rhwystro neu mynd yn groes i'r graen i gyd-gynhyrchu. Efallai hefyd mai oherwydd bod ymarferwyr y trydydd sector wedi bod yn gweithio fel hyn am flynyddoedd, ac fel y cyfryw mae gwaddol o wahanol ddulliau o fynd ati a gwerthoedd i'w defnyddio. (Andrews et al, 2023).

5.19 Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn cyfeirio at y modd y mae'r berthynas rhwng gwahanol adrannau o fewn yr un sefydliad yn gweithredu ac mae angen deall yn well sut gall partneriaid mewnol megis tai ac addysg chwarae eu rhan i wireddu dyheadau'r Ddeddf. Mae ehangu aelodaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2020 i gynnwys tai ac addysg yn adlewyrchu hyn, fel y nodwyd gan rai ymatebwyr yr astudiaeth. Mae arweinyddiaeth gyson, gref yn ganolog i alluogi'r gweithlu i berfformio'n effeithiol ar lefel aml-asiantaethol ac i gyflawni'r newidiadau dymunol yn yr hinsawdd i ddull o weithio yn seiliedig ar ganlyniadau ac asedau (Wallace a Garthwaite, 2023).

5.20 Ar brydiau, mae'r dehongliad gwahanol a'r dryswch o ran "gwir ystyr" llesiant yn ymddangos ei fod yn ysgogi arloesedd o ran dulliau o fynd at wasanaethau, yn arwain sefydliadau i ystyried yn ofalus eu potensial i gynorthwyo llesiant a dulliau creadigol o gyflenwi hyn. Fodd bynnag, pan oedd gwahanol sefydliadau yn gweithio mewn partneriaeth, roedd y gwahanol ddehongliadau yn fwy o broblem (Lyttleton-Smith et al., 2023; Wallace a Garthwaite, 2023; Wallace et al., 2023).

5.21 Ceir enghreifftiau niferus lle defnyddiodd gweithwyr o wahanol asiantaethau eu cryfderau i gyflenwi cymorth ymarferol ar gyfer pobl. Roedd y rhain yn cynnwys modelau datblygu cymunedol megis cydlyniant ardal leol, timau cyd-alluogi a chyd-gomisiynu. Ystyriwyd byrddau diogelu cenedlaethol a rhanbarthol yn ddatblygiadau positif gan y gweithlu (Llewellyn et al., 2021). Mae adroddiad *Persbectifau Gweithlu Ôl-COVID* wedi amlygu'r modd y datblygodd gweithwyr gofal cymdeithasol drwy gyfnod y pandemig ddulliau creadigol o fynd ati i barhau i gynnig gwasanaethau oedd, mewn rhai mannau yn 'gatalydd' i brysuro gweithio mewn partneriaeth. Ymhlith yr enghreifftiau a gafodd eu crybwyll roedd sefydlu grŵp diogelu pediatrig gyda'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys ac ail-strwythuro'r tîm adnoddau. Fel yr uchod, bydd rhai o'r datblygiadau hyn yn arwain at newid parhaol, tra bydd eraill yn chwalu dros amser.

5.22 Serch hynny, cymysg oedd y profiadau o ran i ba raddau y mae'r pandemig wedi effeithio ar weithio aml-asiantaethol o fewn a rhwng sefydliadau a sectorau. Mynegwyd barn gan rhai o gyfranogwyr o'r gweithlu bod 'rhwyg' wedi digwydd yn ystod cyfnod COVID-19 rhwng gofal cymdeithasol a iechyd (yn rhannol oherwydd bod pobl yn gweithio o hirbell a systemau cofnodi gwahanol), a sylweddoli bod angen i ail-adeiladau perthynas ac ymddiriedaeth (Wallace et al., 2023). Mewn cyferbyniad, cynigiodd ymatebwyr eraill dystiolaeth o gynnydd yn y cydweithio rhwng y ddau sector ac o bartneriaethau effeithiol a ddatblygwyd cyn y pandemig a lwyddodd i gynnal ac, mewn rhai achosion, i gryfhau gweithio integredig drwy gydol COVID-19. Er y sylweddolwyd gwerth cydweithredu wyneb yn wyneb, roedd y newid i weithio ar-lein a chyfarfodydd rhithiol wedi gwella ymglymiad aml-asiantaeth drwy ddarparu mwy o gapasiti oherwydd yr amser arferid ei dreulio'n teithio i gyfarfodydd (Wallace a Garthwaite, 2023).

5.23 O gofio'r sialensiau hyn, nodwyd bod yr angen i ddefnyddio arferion aml-asiantaethol positif yn bwysig. Ac eto, yng nghyd-destun blaenoriaethau a phwysau sy'n anghyson â'i gilydd ymhlith sectorau, roedd rhai ymatebwyr yn ymwybodol bod risg o droi nôl i'r hen drefn a cholli tir ar y cynnydd a wnaed yn ystod y pandemig (Wallace et al., 2023).

5.24 Mae sialensiau i wir integreiddio ymhlith sectorau a sefydliadau yn dal i fodoli, gan gynnwys tai, yr heddlu ac addysg. Er enghraifft, i rai mae 'prynu i mewn' o faes iechyd yn dal i fod yn broblem a mynegwyd yr angen am 'ail-addysgu' maes iechyd am eu cyfrifoldeb o dan y Ddeddf a chynyddu dealltwriaeth o'r dulliau o fynd ati megis asesiadau ar sail cryfderau.

5.25 Felly mae gweithio integredig llawn yn gyson yn dal i fod yn anodd ac mae gweithio'n aml-asiantaethol yn dal i fod yn heriol i sefydliadau a'r gweithlu. Dydy gweithio rhanbarthol yn ddim byd newydd ac mae wedi bod yn nodwedd o fywyd cyhoeddus Cymru ers blynyddoedd, ond yn y ffurf arbennig a osodir yn y Ddeddf, mae'n dal yn gymharol newydd ac mae gwahaniaethau yn yr hinsawdd rhwng ac o fewn gwahanol sefydliadau yn dal yn amlwg. Mae rhannu gwybodaeth yn dal i fod yn heriol, yn enwedig ar lefel ddigidol, ac mae effaith COVId-19 o ran rheoli'r galw yn dal i fodoli (Wallace a Garthwaite, 2023; Wallace et al., 2023).

### Y bylchau rhwng delfrydau a phrofiad

5.26 Un o sialensiau allweddol gweithredu polisi sy’n ffocysu ar lesiant ydy’r iaith uchelgeisiol iawn a ddefnyddir wth drafod y Ddeddf ynghyd â diffiniadau amhendant a’r defnydd anghyson wrth gyflenwi fel y nodwyd y yn flaenorol. Ystyriwyd hyn gan rai o ymatebwyr yr astudiaeth fel bwlch rhwng ‘delfrydau’ a’u profiadau.

5.27 Cynigiodd cyfweliadau ansoddol gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr syniad i ni o ddisgwyliadau positif ymyriad cynnar ac ataliad, ond ar brydiau yn cam-gymharu â’r hyn sydd yn digwydd yn ymarferol. Er enghraifft, profiad rhai gofalwyr a gymerodd ran yn astudiaeth *Disgwyliadau a Phrofiadau* oedd bod ymyriadau yn digwydd ar ’y funud olaf pan fydd yn rhy hwyr’, sydd yn groes i’r hyn sydd ei angen i ddatblygu strategaethau ar gyfer ataliad hirdymor (Llewellyn et al, 2022).

5.28 Fel y gwelwyd o dystiolaeth y gweithlu a defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, mae ieithwedd llesiant yn hyrwyddo disgwyliadau uchel gan bobl sydd yn cyrchu gofal cymdeithasol a gan y gweithwyr proffesiynol sy’n ei gynnig, o ran pa adnodd y gallan nhw ddisgwyl ei dderbyn (ac i allu neilltuo, yn achos gweithwyr proffesiynol) i gynorthwyo llesiant pobl. Fodd bynnag mae realiti pethau yn achos darpariaeth gofal cymdeithasol gyfredol, gyda’u hadnoddau prin a gwasanaethau yn bur denau yn golygu nad ydy’r disgwyliadau hyn yn cael eu diwallu’n aml.

5.29 Creodd y pellter rhwng rhethreg bositif llesiant sy’n codi disgwyliadau a’r realiti heriol hwn ddadrithiad a siom yn y bobl hynny oedd yn derbyn a chynnig gwasanaethau a hynny yn y pendraw yn effeithio ar lesiant. (Lyttleton-Smith et al, 2023). Mae tystiolaeth o adroddiad *Disgwyliadau a Phrofiadau* yn awgrymu canlyniad anffodus ac anfwriadol ar gyfer y rhai sydd wedi profi hyn, gan y gallai ieithwedd llesiant yn y Ddeddf a’i chyhoeddiadau cysylltiol gael effaith andwyol ar lesiant unigolion mewn achosion lle nad ydy gwasanaethau yn cwrdd â disgwyliadau (Llewellyn et al, 2022). Ar ben hynny, ar ôl -COVID-19, ystyriwyd gan rai ymatebwyr a gyfwelwyd ar gyfer adroddiad *Gwerthuso Proses Ôl-COVID* bod gofyn ail edrych ar adolygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r Ddeddf i helpu i reoli disgwyliadau o ran darpariaeth statudol.

5.30 Un o'r pwyntiau allweddol lle gwelir y pellter hwn ydy rhwng sgwrs am ‘Yr Hyn sy’n Bwysig’ lle mae unigolyn yn datgan ei anghenion llesiant i weithiwr proffesiynol a chyflenwi gwasanaethau sydd ddim efallai’n diwallu’r anghenion llesiant a drafodwyd. Yn yr un modd, roedd ymdeimlad cyffredinol ymhlith defnyddwyr

gwasanaeth a gofalwyr a gyfwelwyd yn y gwerthusiad hwn bod y term cyd-gynhyrchu yn cael ei ddefnyddio yn amlach na'i weithredu – a chaiff rhai prosiectau neu wasanaethau eu labelu'n 'gyd-gynhyrchiad' lle nad ydy'r disgrifiad yn briodol (Andrews et al, 2023).

5.31 Yn adroddiad *Disgwyliadau a Phrofiadau*, teimlai rhai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr bod y bwlch hwn rhwng delfrydau a'u profiadau yn gysylltiedig â'r pwysau ar y systemau ar draws Cymru. Dywedodd un ymatebydd fod y ddeddf yn '…ddarn gwych o ddeddfwriaeth' ond nododd hefydd fod '…ceisio ei ffitio i mewn i'r sefyllfa gyfredol tra'n dileu adnoddau yn wallgof' (Llewellyn et al, 2022; 51).

**Sialensiau**

5.32 Mae'r data a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn ac o astudiaethau diweddar eraill yn darparu tystiolaeth bod cymhlethdod gwe-lywio drwy'r rhwydwaith o ddarparwyr gofal cymdeithasol yn aml yn heriol. *(Llewellyn et al., 2022).* Roedd hyn yn peri dryswch a rhwystredigaeth i'r rhai sy'n cyrchu gwasanaethau neu ofal a chymorth.

5.33 Roedd lefelau gwahanol i'r heriau hyn; er enghraifft, methu â chyrchu gwybodaeth gywir ac amserol, pobl yn ansicr ynglyn â'r hyn y mae ganddyn nhw'r hawl iddo a derbyn atebion aneglur neu gamarweiniol a deall y berthynas rhwng darparwyr y sector statudol, y trydydd sector a sectorau eraill (h.y. iechyd).

5.34 Yn gynharach, nodwyd y sialens o weithredu'r egwyddorion ar draws gwahanol leoliadau. Mae tystiolaeth yn astudiaeth cyd-gynhyrchu (Andrews et al, 2023) ac astudiaeth llais a rheolaeth (Llewellyn et al., 2023) yn dangos bod heriau ym maes rhannu rheolaeth ar draws gwahanol leoliadau gofal a sefydliadau ynghyd â'r rhai hynny wrth weithredu egwyddorion llais a rheolaeth gyda grwpiau gwahanol y boblogaeth.

5.35 'Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod gweithredu'r egwyddorion wedi datblygu ymhellach mewn rhai awdurdodau lleol nag mewn eraill – a thu mewn iddyn nhw, mewn rhai meysydd gwasanaeth yn fwy nag eraill. Er enghraifft, fel y dynodwyd yn yr adroddiad ar gyd-gynhyrchu, doedd gweithredu "trefniadau trylwyr… i annog pobl i ymglymu" i "gyd-gynhyrchu i ddylunio a gweithredu gwasanaethau" yn bell o fod yn gyson, ac yn achos rhai awdurdodau a gwasanaethau ond mae'n ddyddiau cynnar arnyn nhw. Ac roedd rhai grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth - er enghraifft gofalwyr teuluol - lawer mwy tebygol o fod wedi clywed ac yn gyfarwydd â ieithwedd cyd-gynhyrchu nag eraill – er enghraifft, pobl â nam ar eu golwg. Yn y cyfamser,

ystyriwyd yn arbennig bod cyd-gynhyrchu i fod yn gweithio’n wahanol fesul achos a phob gwasanaeth a gyd-gynhyrchwyd yn unigryw o ran y lleoliad, y dibenion uniongyrchol, y berthynas rhwng cyfranogwyr a’r canlyniadau (Andrews et al, 2023).

5.36 Roedd gwybodaeth am yr egwyddorion yn anghyson – o ran unigolion ac (o safbwynt rhai o’r bobl a gyfwelwyd) o ran darparwyr gwasanaeth. Mae i’r anghysondeb hwn effeithiau canlyniadol. Er enghraifft, roedd unigolion a gymerodd ran yn yr astudiaeth cyd-gynhyrchu yn ystyried bod ymgorffori arferion cyd-gynhyrchu yn fylchog, ar draws gwahanol wasanaethau ac o ran gwahanol anghenion (Andrews et al, 2023). Mae rhai – megis gofalwyr – lawer mwy tebygol o fod wedi cael profiad uniongyrchol o arferion a elwir yn gyd-gynhyrchiol nag eraill (er enghraifft, pobl ddall neu â nam ar eu golwg). Gan adeiladu ar hyn, un dimensiwn pwysig sy’n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ydy’r amrywiaeth yn y dulliau o fynd ati i weithio’n aml-asiantaethol o fewn a rhwng awdurdodau lleol, yn enwedig o ran rhannu gwybodaeth pan fydd pobl yn symud o un ardal i’r llall. Dywedwyd wrthon ni bod hon yn broblem barhaus (Llewellyn et al., 2022).

5.37 Mae ceisio cynnwys egwyddorion llais a rheolaeth mewn asesiadau iechyd a gofal cymdeithasol yn llawn heriau; ac er y ceir tystiolaeth y gall dulliau sgyrsiol o fynd ati gynnig llwyfan da ar gyfer syniadau am weithredu arferion wedi'u canoli ar yr unigolyn ym maes gofal cymdeithasol, mae tystiolaeth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn awgrymu nad ydy hyn yn brofiad cyson (Llewellyn et al., 2022; Llewellyn et al., 2023).

5.38 Ceir canfyddiad tebyg yn nhystiolaeth astudiaeth cyd-gynhyrchu. Roedd amrywiaeth sylweddol yn y defnydd a’r nifer a ymunodd rhwng gwasanaethau, ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Roedd yn ymddangos bod cymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu yn dibynnu’n sylweddol ar ble roedd unigolion yn digwydd bod, y gwasanaethau roedden digwydd eu defnyddio a’r anghenion oedd yn digwydd bod ganddyn nhw – hyd yn oed pan oedden nhw ymhlith defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr creiddiol y bwriadwyd y Ddeddf ar eu cyfer (Andrews et al, 2023).

**Adnoddau a’u cyd-destun**

5.39 Os na ddatblygodd yr egwyddorion na dylanwadu ar ymarfer yn ôl y gobaith, un o'r rhesymau a nodwyd fynychaf am hyn oedd diffyg adnoddau. Ystyrir bod buddsoddiad ariannol yn hanfodol ond yn aml yn ddiffygiol. (Wallace a Garthwaite, 2023; Llewellyn et al., 2021; 2022; Wallace et al., 2023; Phillips et al., 2023).

5.40 Mae cynllunio, comisiynu a neilltuo adnoddau yn hanfodol i sicrhau bod gweithgareddau atal yn bodoli. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr astudiaeth hon (Read et al, 2023) bod gan y pwysau o fewn system y gwasanaethau cymdeithasol oblygiadau ar gyfer y gallu o gynnig yr agenda atal. Amlygodd dadansoddiad o'r ddogfen, er enghraifft, fod adnoddau ataliad yn cael eu tynnu o dair cronfa: adnoddau wedi'u hailgyfeirio, arbedion yn gysylltiedig ag atal a chyllid ychwanegol ar gyfer atal (e.e. cyllidebau rhanbarthol cyfun a chyllid at ddibenion penodol). Amlygodd rhai ymatebwyr o'r gweithlu mai'r olaf o'r ffynonellau hyn megis y Gronfa Trawsnewid oedd y modd pennaf o yrru mentrau atal yn eu blaen. Codwyd pryderon am y modd y gallai dibynnu ar y cyllido tymor byr hwn, oedd yn gyfyngedig i amser, ddylanwadu ar weithgareddau atal yn y dyfodol, yn enwedig yn ariannol, a hefyd yn pwysleisio cynaladwyedd ariannol a phrinder adnoddau (Llewellyn et al., 2021; Wallace et al., 2023; Read et al., 2023).

5.41 Gall y pellter rhwng rhethreg eithriadol bositif llesiant a'r hyn y mae llawer yn ystyried sydd ddim yn darparu digon o adnoddau i wasanaethau (oherwydd cyfyngiadau ar gyllidebau gofal cymdeithasol) ar brydiau ddadrithio hinsawdd sefydliadau mewn modd tebyg i'r hyn y mae pobl yn ei deimlo wrth gyrchu gwasanaethau. Fodd bynnag, nid hwn oedd y profiad cyffredinol ac roedd nifer o sefydliadau yn gweithio'n anhygoel o galed i ddod o hyd i ddigon o adnoddau i addasu'n dda i'r ffocws hwn. Roedd y gallu i addasu a bod yn ddyfeisgar yn amlwg yn y cyfweliadau o *Werthuso Proses Ôl COVID* lle cynigiodd rhai ymatebwyr y gweithlu enghreifftiau o weithio'n greadigol i weithredu egwyddorion yn wyneb adfyd.

5.42 Mae nifer o ffactorau sy'n effeithio'n andwyol ar y modd y gall y gweithlu gymryd rhan mewn gweithio'n aml-asiantaethol sydd hefyd yn berthnasol i egwyddorion eraill y Ddeddf. Er enghraifft, un thema a ddaeth i'r golwg yn nadansoddiad y data yn yr astudiaeth aml-asiantaethol oedd y gall problemau capasiti a phwysau adnoddau sy'n arwain at gyfyngiadau a llwythi gwaith uchel effeithio'n negyddol ar ymglymiad ystyrlon gyda theuluoedd. Roedd hyn yn ei dro yn effeithio ar allu'r gweithwyr i ysgogi newidiadau yn y dull o fynd ati i gynnig gofal a chymorth.

5.43 Ceir tystiolaeth am ganologrwydd gofynion eiriolaeth o dan y Ddeddf. Cafwyd barn bod y mesurau hyn yn gweithio'n dda gyda defnydd cynyddol yn cael ei wneud o wasanaethau eiriolaeth gan grŵp ehangach nag yn flaenorol, gydag ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen a phwysigrwydd eiriolaeth, a chynnwys eiriolaeth mewn arferion

gofal cymdeithasol. Ond mae pryderon yn parhau ynglyn â digonedd a chynaladwyedd y cyllid i gynorthwyo gwaith fel hyn.

5.44 Yn yr adroddiad *Persbectifau Gweithlu Ôl-COVID*, ystyriwyd bod symud i gynnig gofal a chymorth ar-lein, ar y cyfan, yn rhywbeth positif ac yn cael ei groesawu yn enwedig gan bobl ifanc, er enghraifft. Ond, cafwyd rhybuddion hefyd am ddarpariaeth ar-lein megis y disgwyliad cychwynnol y byddai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn gallu cyrchu adnoddau technolegol nad oedd yn bosibl bob amser. Hefyd, cwestiynwyd pa mor briodol oedd cynnal cyfarfodydd ar-lein, yn cynnwys cynadleddau ar ddiogelu plant. Hefyd, tanlinellwyd i ba raddau y mae cyfarfodydd rhithiol yn effeithio ar lais a rheolaeth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ac ar ddatblygu perthynas

**Newid yn yr hinsawdd**

5.45 Dydy'r dystiolaeth yn yr astudiaeth hon ddim yn glir am i ba raddau y ceir gwir newidiadau yn hinsawdd y gweithlu tuag at ddull o weithio seiliedig ar egwyddorion – yr hyn y mae'r Cod Ymarfer yn ei alw'n "'newid hinsawdd tuag at ymarfer perthynol a chilyddol" – mewn modd efallai roedd y ddeddfwriaeth wedi'i rhagweld. Hefyd, roedd COVID-19 yn golygu oedi yn y cynlluniau i ddatblygu'r agenda hwn a newid i ffocysu ar reoli argyfwng.

5.46 Disgrifiodd rhai ymatebwyr o'r gweithlu y modd roedd y Ddeddf yn atgyfnerthu a chyfreithloni newid hinsawdd a'u galluogi i weithredu gwerthoedd ac egwyddorion oedd eisoes yn rhan o'u hymarfer a'u hagendâu cyn 2016. Enghraifft o hyn ydy rhoi cyd-gynhyrchu ar waith. Lle'r oedd yn gweithio'n dda, dangosodd yr astudiaeth cyd-gynhyrchu ei fod yn dibynnu'n drwm ar ganiatâd a chymorth arweinwyr i adeiladu ar systemau gwerth oedd eisoes yn bodoli o fewn rhai timoedd (Andrews et al, 2023).

5.47 Er enghraifft, mae bod yn gyd-gynhyrchiol yn gofyn am ymglymiad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwr o'r cychwyn cyntaf; mae cyd-gynhyrchu dilys yn ymgorffori cyd-ddylunio yn ogystal â chyd-gyflenwi. Mae'n amlwg hefyd ar lefel ymarferol. Po fwyaf yr ystyrir bod cyd-gynhyrchu wedi'i symbylu gan y rhai y mae eu swyddi yn cynnwys ei hyrwyddo *oherwydd* mai dyna yw eu gwaith, po leia yr ystyrir mai math o brosiect ydy hwn sydd eisoes yn cynnwys ac yn datblygu ar flaenoriaethau'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau dan sylw. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n gyson pan fydd pobl yn gwybod beth ydy cyd-gynhyrchu mae'r agweddau yn gadarnhaol iawn. Cymeradwyodd defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr ac ymarferwyr y syniad mewn egwyddor, yn gyson. Yn yr un modd, lle gwelir cyd-

gynhyrchu ar waith – a hyd yn oed yn fwy felly pan welir ei fod yn creu canlyniadau - cefnogir ymhellach y dull hwn o fynd ati. Mae hyn yn awgrymu mai un o’r dulliau mwya ffrwythlon/cynhyrchiol ac effeithiol i hyrwyddo ac ymgorffori cyd-gynhyrchu fel modd o gynnig gwasanaeth ydy drwy sylweddoli hynny’n gynyddol ac yn raddol wrth gynnal a chynhyrchu nifer fwy o brosiectau a gwasanaethau ar y cyd.

5.48 Roedd risg hefyd yn fater allweddol a godwyd ac amlygodd tystiolaeth o'r gweithlu bod angen newid hinsawdd diwylliannol a dull newydd o fynd ati i ddelio gyda risg fel rhan o brosesau asesu. Yn gadarnhaol, ystyriwyd bod y Ddeddf wedi hwyluso dull o fynd ati sy'n llai amharod i wynebu risg yng gwaith gwasanaethau gofal cymdeithasol. Lle mae'n gweithio ar ei orau, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y Ddeddf yn hwyluso mwy o hyder wrth reoli risg ynghyd â rheolaeth dda a goruchwyliaeth dda.

**COVID-19: ‘melltith neu ‘gyfle’**

5.49 Gan dynnu ar ganfyddiadau *Gwerthuso Proses Ôl-COVID*, mae’r adran hon yn disgrifio sut, yn wyneb effeithiau aml-ddimensiynol y pandemig, y ceir tystiolaeth bod y pandemig wedi bod yn gyfrifol am arafu a chyflymu gweithredu’r Ddeddf a’i hegwyddorion.

5.50 Yn deillio o'r angen i ymateb ac addasu’n gyflym i dirwedd cyfnewidiol COVID-19, ar un llaw nododd ymatebwyr gweithlu *Gwerthuso Proses Ôl-COVID* y ‘collwyd tir’ sylweddol ar y cynnydd a wnaed cyn y pandemig. Roedd goblygiadau ar gyfer gweithredu’r Ddeddf wrth symud i gynllunio adweitheddol a chynllunio brys ynghyd â darpariaeth ostyngol a/neu gaeedig a chapasiti cyfyngedig.

5.51 Llesteiriodd effeithiau pandemig COVID-19 y sgôp ar gyfer cyflwyno cyd-gynhyrchu gwasanaethau ac arafu pethau. Er yn eithriadol mewn agweddau pwysig, mae gwersi i’w dysgu yma am y modd y byddai ymglymu y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas yn debygol o ddioddef yn achos unrhyw argyfwng iechyd cyhoeddus neu ddigwyddiad tebyg. Fodd bynnag, roedd rai agweddau o’r newidiadau a achoswyd gan y pandemig – er enghraifft, y symud i gyfathrebu ar-lein yn ystod y cyfnod clo a chyfarfodydd ar-lein yn hytrach na chyswllt wyneb yn wyneb – o fantais i ymglymu pobl. Y rheswm dros hyn efallai, ydy oherwydd y gellir cynnig rhai gwasanaethau mewn modd tebyg, ar-lein – neu mewn rhai achosion, oherwydd y gallai defnydd o lwyfannau ar-lein brofi'n fwy hygyrch i rai na chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

5.52 Yn erbyn cefnlen o gynnydd parhaus yn y galw, mae problemau capasiti parhaus (gweithlu, adnoddau, a darpariaeth arbenigol) i ddiwallu anghenion yn dwysau'r arafu. Mae angen na chafodd ei ddiwallu'n effeithio ar lesiant unigolion oherwydd bod eu dewisiadau'n cael eu gwadu, ochr yn ochr ag effeithiau negyddol ar lesiant y gweithlu (gweler paragraff 3.22).

5.53 Ar y llaw arall, roedd hefyd nifer o gyfeiriadau at gyflymu yn rhai o agweddau'r gweithrediad, yn enwedig lle roedd mentrau yn y camau cynllunio cynnar yn symud ymlaen yn gyflym o ganlyniad/mewn ymateb i COVID-19. Rhoddodd y pandemig 'ganiatâd' i weithio'n wahanol, ac i ail-werthuso ac archwilio ffyrdd amgen o weithio heb y lefel cyn-bandemig o fiwrocratiaeth. Cynigiodd ymatebwyr enghreifftiau o fwy o gydweithio a phartneriaethau newydd ar draws sectorau ac asiantaethau, gan symleiddio prosesau, hyblygrwydd, a datblygu atebion creadigol.

5.54 Ymhlith effeithiau dadlennol cadarnhaol y pandemig roedd gwell cysylltiadau rhwng rheolwyr a'r gweithlu, mwy o rannu arferion da, mwy o hyder i weithio'n fwy creadigol gyda'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth, a sgyrsiau sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'n anodd bod yn bendant am ba mor hir bydd yr effeithiau hyn yn parhau ond mae rhai yn debygol o oroesi tra bydd eraill yn cilio.

**Crynodeb – mynd i'r afael â P-FE**

5.55 O safbwynt y gweithlu, rydyn ni wedi gweld tystiolaeth o ddehongliadau cadarnhaol o'r effaith sy'n deillio o ffocws ar yr egwyddorion. Yn yr un modd, mae ethos cyffredinol y Ddeddf, sef cydnabod pa mor ganolog ydy rhoi mwy o lais a rheolaeth i bobl, a dulliau o fynd ati megis sgyrsiau "yr hyn sy'n bwysig", wedi helpu diwylliannau traws-weithlu, er nad ydyn nhw bob amser yn gyson. Mae hyn yn galluogi gweithwyr i weithio y tu hwnt i ffiniau rhagnodedig ac archwilio opsiynau ehangach.

5.56 Efallai bydd gan nod llesiant y Ddeddf oblygiadau cadarnhaol ehangach i gymunedau pe bai mentrau atal ac ymyriad cynnar yn cael eu datblygu gyda dealltwriaeth gliriach o rolau sefydliadau ym maes llesiant, a dealltwriaeth gryno, unedig o'r cysyniad 'llesiant' i gefnogi hyn.


5.57 Roedd yna farn, o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a rhai cyfranogwyr o blith y gweithlu, na fu'r gweithredu mor llwyddiannus ag a ragwelwyd. Mae yna ddiffyg cysylltiad rhwng rhethreg deddfwriaethol a realiti gweithredol, yn enwedig wrth wynebu'r tensiynau rhwng hyblygrwydd lleol a dehongliad yn erbyn rheolaeth ganolog a chyfyngiadau ar yr adnoddau.

5.58 Wrth fynd i'r afael â'r cwestiwn 'Os ydy egwyddorion wedi'u mynegi, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y glynir atyn nhw'n ymarferol?', efallai ei bod yn ddefnyddiol myfyrio'n ôl ar y ffordd y gwnaethon ni gysyniadu 'taith' y gweithlu o'i roi ar waith, a sut oedd hyn yn edrych yn y byd cyn-COVID 19 (gweler Ffigwr 5.1 isod).

5.59 Roedd y diagram yn ymgais i resymoli'r cymhlethdod yr ydyn ni wedi'i weld. Mae'n awgrymu, oherwydd y mannau cychwyn gwahaniaethol ym mhob un o'r ardaloedd yng Nghymru, mae pedwar math gwahanol o ymarfer wedi'u hymgorffori yn y broses o weithredu'r Ddeddf hyd yma. Mae'r gwahanol fathau hyn o ymarfer wedi gofyn am raddau amrywiol o newid er mwyn diwallu'r gofynion gweithredu..

5.60 Mae newid yn y diagram yn digwydd mewn dau barth. Y parth cyntaf yn cynnwys y mathau o weithgarwch ac arferion oedd i raddau, fwy neu lai, eisoes wedi'u sefydlu cyn i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith. Mae'r ail barth yn ymwneud â mathau o ymarfer a oedd angen elfen o drawsnewid er mwyn bodloni dyletswyddau a gofynion y Ddeddf. Mae pedwar cam yn y broses hon: Parhad – (Cyn) Alinio; Parhad – Bodlon; Parhad – Amsugnol; a Thrawsnewidiad.

**Ffigwr 5.1: Safbwyntiau'r gweithlu am y daith weithredu – Cyn-COVID 19**



5.61 Felly, beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer asesiad o sut ac ym mha ffyrdd y glynir at egwyddorion y Ddeddf yn ymarferol? Yn amlwg defnyddiwyd nifer o ffyrdd gweithredu llwyddiannus wrth drosi'r egwyddorion yn rhai ymarferol. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod y pum egwyddor yn cynnig fframwaith ‘rhyng-gysylltiedig’ gwerthfawr a bod gweithredu’r Ddeddf yn daith barhaus.

5.62 Mae ffocws ar lesiant fel nod ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael ei dderbyn fel cyfeiriad cadarnhaol gan bobl sy’n cyrchu a darparu gwasanaethau. Mae'n ymddangos ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar hinsawdd gwaith a chapasiti ar gyfer arloesedd sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu gofal cymdeithasol. Mae'r cysyniad yn gweithredu fel ideoleg sy'n cynnal gweithwyr proffesiynol o amgylch yr unigolyn a theuluoedd. Ond erys agenda sylweddol i weithio arni, yn rhannol oherwydd y ffordd y mae COVID-19 wedi defnyddio'r amser, y sylw a'r gallu yn andwyol, heb fod wedi canolbwyntio ar roi egwyddorion y Ddeddf ar waith.

5.63 Mae effeithiau’r pandemig ar weithredu'r egwyddorion yn rhai niferus. Arafwyd y cynnydd o ran gweithredu, cyflwyno'r ddarpariaeth, a gweithio integredig, sydd i gyd yn cael eu gosod yn erbyn effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach, ac yn erbyn cynnydd yn yr angen.

5.64 Er gwaethaf yr heriau hyn, mae nifer o bethau cadarnhaol yn deillio o gynnydd mewn ymateb i'r pandemig. Mae gweithredu ffyrdd newydd o weithio, modelau gofal, a gwella integreiddio yn ystod cyfnod o argyfyngau sylweddol yn amlygu’r penderfyniad a’r ymrwymiad i barhau i hyrwyddo a gweithredu egwyddorion y Ddeddf.

## 6. Optimeiddio Gwelliant: caniatáu i'r egwyddorion gyflawni'r canlyniadau a ddymunir o dan y Ddeddf

### Cyflwyniad

6.1 Er mwyn i'r egwyddorion allu cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i unigolion allu teimlo eu bod yn bartneriaid gwirioneddol gyfartal yn eu rhyngweithio â gweithwyr proffesiynol ac i gyflawni canlyniadau llesiant sy’n seiliedig ar ‘yr hyn sy’n bwysig’ iddyn nhw o fewn cyd-destun eu hanghenion gofal cymdeithasol a aseswyd. Mae’n amod o'r Ddeddf ydy bod awdurdod lleol yn ymateb mewn ffordd gyd-gynhyrchiol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn i amgylchiadau penodol pob unigolyn. Mae cynorthwyo ataliad a gweithio mewn modd integredig yn mynd i fod yn hanfodol i gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol.

6.2 Diben y bennod hon felly ydy ystyried y trydydd cwestiwn P=FE ar i ba raddau mae’r egwyddorion, fel y'i mynegwyd, eu cysyniadoli (gweler Pennod 4), a'u gweithredu (gweler Pennod 5) wedi arwain at y canlyniadau a ddymunwyd – fel yr amlinellwyd ym mharagraff 6.1 uchod. I wneud hyn, rydyn ni’n tynnu ar ganfyddiadau allweddol yr 11 astudiaeth unigol a gynhaliwyd ar gyfer gwerthusiad IMPACT. Rhennir yr adran hon yn themâu a materion a gododd o’r dystiolaeth a gasglwyd ar draws yr astudiaeth, llawer ohonyn nhw yn adlewyrchu’r pynciau a nodwyd ym Mhennod 5, gan ychwanegu grym at y gallu i enwi’r rhain fel rhan o'n gwaith yn trefnu’r data.

6.3 Er mwyn mynd i’r afael â’r trydydd cwestiwn mewn P-FE (*Os glynir ato, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae’r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau a ddymunir*?) rydyn ni'n ateb tri o’r pedwar cwestiwn y gofynnwyd i dîm yr astudiaeth roi sylw iddyn nhw yn y fanyleb wreiddiol gan Lywodraeth Cymru:[67]

1. A ydy'r Ddeddf yn cyflawni ei hamcanion?;
2. Yn gyffredinol, pa wahaniaeth y mae'r Ddeddf wedi'i wneud/y mae'n debygol o'i wneud?
3. Unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'r Ddeddf?

6.4 Bydd nifer o themâu’n cael eu trafod isod, ond, yn fwy felly nag mewn mannau eraill, mae’n bwysig cydnabod cyd-destun COVID-19 fel ffactor perthnasol sy’n effeithio ar y canlyniadau dymunol hynny. Mae’r pandemig wedi cael effaith ddinistriol ar lesiant y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, gan gynnwys

[67] Atebir y pedwerydd cwestiwn – ‘Pa gamau gweithredu pellach, newid neu ddatblygiad sy’n eu hangen’ – ym Mhennod 7.

llawer o'r rhai sy'n dod o dan y Ddeddf, ac ar weithrediad y system gofal cymdeithasol. Fel y disgrifiwyd gan ein cyfranogwyr i gyd, mewn gwahanol ffurf, ar wella profiad pobl yr effeithiodd COVID fwyaf, pwynt sydd angen ei ystyried wrth ddarllen y bennod hon.

**Ydy'r Ddeddf yn cyflawni ei hamcanion?**

6.5 Yn gyntaf, gofynnwyd i ni ystyried i ba raddau y gallen ni ddangos a oedd y Ddeddf yn cyflawni ei hamcanion (gweler Paragraff 6.1). Y themâu rydyn ni'n eu hamlygu ydy a) hinsoddau ar gyfer trawsnewid, b) deinameg grym a pherthynas, c) mesur a deall effaith, a d) capasiti a dod o hyd i adnoddau.

*Hinsoddau ar gyfer newid*

6.6 Mae sicrhau bod hinsawdd gweithlu yn agored i'r potensial o drawsnewid yn y Ddeddf yn hanfodol iddi optimeiddio'n llwyddiannus. Mae ein canfyddiadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr (Llewellyn et al., 2021) yn awgrymu mai unigolion egwyddorol a brwdfrydig ydy'r gyrwyr allweddol ar gyfer newid; mae nhw'n cael effaith gatalytig ar hinsawdd sefydliad ac ymddygiad pobl eraill. Er enghraifft, mae cyd-gynhyrchu yn rhywbeth anodd i'w orfodi drwy ddeddfwriaeth. Mae'n llawn cymaint o fodoli ag ydyw o weithredu. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth glir bod unigolion a grwpiau brwdfrydig wedi defnyddio'r Ddeddf er mwyn hybu cyd-gynhyrchu (Andrews et al, 2023). Roedd y bobl hyn yn allweddol i ymgorffori cyd-gynhyrchu ac 'dod ag eraill' yn eu sgil.

6.7 Cawson ni dystiolaeth gan y weithlu am hinsawdd agored ac ychydig o asiantaethau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Roedd hyn yn cynnwys trafod, ystyried a negodi sut i ddatrys gwrthdaro ar draws sefydliadau er mwyn sicrhau bod pethau'n gwella'n y dyfodol. Mae'n bwysig bod dull o fynd ati sy'n seiliedig ar berthynas yn dal i alluogi trafodaethau 'didwyll' i groesawu agweddau o weithio'n aml-asiantaethol megis cyd-gynhyrchu a chyd-ymweld (Andrews et al., 2023; Wallace a Garthwaite, 2023). Fe wnaethon ni ganfod tystiolaeth bod creu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod yn gam mawr ymlaen wrth ddatblygu gwaith aml-asiantaethol ac mae'n dangos yr angen am ryw fath o fframwaith sefydliadol o fewn yr amgylchedd aml-asiantaeth. Wedi dweud hynny, down i'r casgliad o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn ein astudiaeth unigol ar weithio'n aml-asiantaethol eu bod eto i gyflawni eu potensial fel arweinwyr strategol o fewn y sectorau a rhyngddyn nhw. (Wallace a Garthwaite, 2023).

6.8 Mae'r Ddeddf wedi gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae gwaith atal ac ymyrraeth gynnar wedi'i groesawu a'i drefnu gan awdurdodau lleol, ar y cyd â chydweithwyr a phartneriaid. Ceir tystiolaeth o hyn yn y dadansoddiad o ddogfennau ataliad lle cynigiodd pob awdurdod rai arwyddion o newidiadau yn eu gweithgareddau tuag at y mathau o wasanaethau ataliol a amlygwyd gan Lywodraeth Cymru, e.e. gwasanaethau gwybodaeth, cynghori a chynorthwyo, modelau ail alluogi, rhaglenni cymorth i deuluoedd ayb. I rai cyrff lleol roedd hyn yn adeiladu ar hanes gwaith o'r fath. Mae hefyd yn amlwg o'r modd y siaradodd ymatebwyr y gweithlu am atal. Disgrifiodd rhai y newidiadau diwylliannol a rhaglennol i'r cyfeiriad hwn, a darparodd eraill naratif ynghylch sut mae gwaith atal o dan y Ddeddf yn ehangu ac yn dyfnhau arferion hanesyddol. (Read et al., 2023).

6.9 Roedd tystiolaeth o symudiadau diwylliannol a threfniadol parhaus o fewn awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer arferion newydd yn deillio o'r Ddeddf. Roedd y newidiadau hyn yn amrywio'n sylweddol ond yn cynnwys: ailddosbarthu cyllid ac adnoddau, mwy o weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, datblygu timau aml-asiantaeth ar faterion penodol, datblygu mentrau â ffocws ataliol, a symud tuag at waith ataliol cyffredinol. (Read et al., 2023). Gellir rhagdybio y bydd datblygu'r hinsawdd hwn sy'n canolbwyntio ar ataliaeth a'r dirwedd o fentrau yn gosod y sylfaen ar gyfer gwireddu amcanion cysylltiedig y Ddeddf.

6.10 Mae hinsawdd sefydliad yn allweddol i ddyheadau'r Ddeddf o ran cyd-gynhyrchu ac ymglymiad, oedd yn arbennig o amlwg mewn gwaith gyda phobl sy'n cael eu hystyried mewn ffyrdd arbennig – yn cynnwys rhieni sy'n rhan o waith diogelu plant a rhai gyda chyflwr iechyd meddwl. Ar ôl dweud hynny mae ein hastudiaeth wedi datgelu enghreifftiau o ymglymiad positif pobl yn y sefyllfaoedd hyn sydd wedi cael ei werthfawrogi a'u hymglymiad ystyrlon mewn cyd-gynhyrchu (Andrews et al., 2023). Cododd yr enghreifftiau gwasgarog hyn mewn amgylchiadau penodol iawn – ac mae llawer i'w ddysgu o'r modd y maen nhw wedi goresgyn y rhwystrau oedden nhw'n eu hwynebu. Er bod y Ddeddf wedi gosod y llwyfan ar gyfer cyd-gynhyrchu, mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod systemau a phrosesau traddodiadol sydd wedi ymwreiddio, sydd ddim yn gallu ymdopi gyda dulliau deinamig ac ymatebol gwaith cyd-gynhyrchiol, wedi ei llesteirio rhag gwireddu eu hamcanion.

*Deinameg grym a pherthynas*

6.11 Yn berthynol, mae'n bwysig cydnabod y rôl y mae perthynas grym rhwng defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r gweithlu wedi chwarae i optimeiddio'r Ddeddf. Mae hefyd yn wir, ar adegau, bod deinameg pŵer wedi rhwystro optimeiddio'r Ddeddf.

6.12 Ar draws yr holl dystiolaeth – gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r gweithlu -– cafwyd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd llais a reolaeth ym maes gofal cymdeithasol. Yn greiddiol i'r Ddeddf, mae model asesu'r 'Hyn sy'n Bwysig' gyda'i arddull sgyrsiol a'i ffocws wedi'i ganoli ar yr unigolyn yn cynnig y potensial o amgylchedd ffafriol lle gellir meithrin egwyddorion llais a rheolaeth. Mae'r canfyddiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn enwedig (Llewellyn et al., 2021) yn datgelu bod yr angen i wella llais a rheolaeth yn parhau, ac i gynnal cydbwysedd o ran deinameg grym rhwng gweithwyr proffesiynol sy'n cynnig gofal a chymorth i ofalwyr a'r rhai y maen nhw'n eu cynorthwyo.

6.13 Roedd themâu'r 'ymdrech' i gael eu clywed a'r 'llafur gofal' – hynny ydy, yr ymdrech i gael y lefel ofynnol o gefnogaeth – wedi dod i'r amlwg yn flaenorol fel canfyddiadau allweddol yn gysylltiedig â llais a rheolaeth a nodwyd yn y ddogfen astudiaeth ['Mesur y Mynydd']. Mae hwn yn parhau i fod yn bwysig ac yn berthnasol. O safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, mae'r angen i hyrwyddo eiriolaeth yn parhau, codi ymwybyddiaeth ohono a mynd i'r afael â'r 'sianeli' efallai sydd angen eu datblygu er mwyn sicrhau bod holl is-grwpiau'r boblogaeth yn gallu cyrchu'r cyfryw wasanaethau (Llewellyn et al., 2021).

6.14 Mae ymglymiad positif mewn cyd-gynhyrchu wedi cael effaith drawsnewidiol ar fywydau pobl a'u hymdeimlad o werth. Yn wir, yn y data yr ydyn ni wedi'i gasglu gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, mae'n ymddangos, mewn llawer o achosion, mai'r bobl sy'n elwa fwyaf o fod yn rhan o gyd-gynhyrchu oedd y rhai a allai, fel arall, fod wedi bod fwyaf tebygol o gael eu heithrio ohono. (Andrews et al., 2023). O safbwynt cyd-gynhyrchu, roedd heriau i gyd-gynhyrchu ar raddfa fach, perthynol ac ymatebol yn gysylltiedig â dulliau rhanbarthol o gynllunio a datblygu. Roedd defnyddwyr y gwasanaeth unigol a'r gofalwyr di-dâl a oedd wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio rhanbarthol yn aml yn eu gweld yn amhersonol ac yn or-fiwrocrataidd ac roedd sefydliadau cymunedol bach yn ei chael yn anodd iawn cael sedd wrth y bwrdd a chael eu clywed (Andrews et al., 2023)..

6.15 Mae canfyddiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn datgelu ystod o enghreifftiau o ddehongliadau positif o'r effaith sy'n deillio o ffocws ar 'lais a rheolaeth' ar bob cam o'r asesiad a'r cyflenwi gwasanaethau. Yn arbennig, nododd y dystiolaeth a gasglwyd bod hyrwyddo eiriolaeth a hunan-eiriolaeth i greu ymdeimlad o lais a rheolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei weithredu a'i wella gan y Ddeddf (Llewellyn et al., 2023).

6.16 Yn union fel y ceir cydnabyddiaeth am waddol polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ochr y ochr â ffurfweddau gwasanaeth gweithredol ac ymarfer sydd wedi llunio cychwyn gweithredu'r Ddeddf, mae angen cydnabod y gwaddol a'r effaith ar unigolion a chymunedau (o ddiddordeb ac o le) o anghydraddoldebau hirdymor iechyd ac anghydraddoldebau cymdeithasol. Mae ble rydych chi'n byw, eich safle economaidd-gymdeithasol, eich cefndir diwylliannol, a ydych yn berson anabl a'ch dewis iaith, yn faterion sy'n dal i chwarae rhan yn eich profiad fel defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr mewn dull nad oedd y Ddeddf yn bwriadu iddyn nhw fod. Fel y gall canfyddiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ei ddatgelu (Llewellyn et al., 2022), mae ffactorau fel hyn yn llunio pwy sy'n cael ei glywed gan bwy ac i ba raddau ac ym mha amgylchiadau.

*Mesur a deall effaith*

6.17 Thema fynych drwy ein hastudiaeth oedd y gallu i esbonio'n gywir y newid y mae'r Ddeddf wedi helpu i sicrhau ac yma rydyn ni'n tynnu ynghyd rhai o'r pwyntiau allweddol o ran mesur.

6.18 O ran y nod cyffredinol o wella llesiant pobl angen gofal a chymorth a gofalwyr oedd angen cymorth, dydy hi ddim yn bosibl dweud o'r data sydd ar gael a gyflawnwyd hyn yn llawn (Lyttleton-Smith et al., 2023). Cymysg ydy ymatebion i [Arolwg Cenedlaethol Cymru] gan grwpiau procsi nodwyd gennym eu bod yn ofalwyr a'r rheini oedd â salwch, 'anabledd' neu 'lesgedd' hirdymor cyfyngol. Yn y flwyddyn cyn i'r Ddeddf gael ei chyflwyno (2014-2015), cafwyd cynnydd ym moddhad bywyd ymatebwyr, a hynny'n parhau hyd at flwyddyn gyntaf y pandemig COVID-19, ond nid oes unrhyw newidiadau mewn mesurau sy'n nodi gwerth bywyd neu fesurau hapusrwydd. Gwelwyd cynnydd bychan ond ystyrlon mewn sgoriau pryder Ôl-COVID o gymharu â'r cyfnod cyn y Ddeddf

6.19 Dydy sgôp ac ehangder y data hwn ddim yn ddigonol i ddod i unrhyw gasgliad a fu unrhyw welliant yn llesiant y boblogaeth ers i'r Ddeddf ddod i rym. Hefyd, dydy hi

ddim yn bosibl gyda'r math hwn o ddata i briodoli unrhyw newidiadau a welwyd mewn llesiant i'r Ddeddf.

6.20 Mae'r rôl y Ddeddf wedi bod yn ddylanwadol yn y modd y mae awdurdodau lleol wedi croesawu ataliad ers iddi gael ei chyhoeddi, ond darlun rhannol a gawn o'r modd y mae'r ddeddf ynn diwallu amcanion perthynol ataliad. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr her o fesur amcanion yn seiliedig ar ataliad a hynny felly yn golygu mai ychydig iawn o ddangosyddion cynnydd sydd wedi cael eu cynnwys yn Fframwaith Perfformiad a Gwelliant (Llywodraeth Cymru, 2021), a diffyg cysondeb yn y rhain ers i'r Ddeddf gael ei chyflwyno (Read et al, 2023).

6.21 Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (NOF) yn ddogfen bwysig o ran llywio disgwyliadau ac arferion ynglyn â llesiant. Fodd bynnag, dydy hi ddim yn glir i ba raddau y mae'r ddogfen hon yn llywio penderfyniadau ar lefel gwasanaeth (Llewellyn et al., 2021). Mwy na hynny, dydi hi ddim yn ymddangos bod yr NOF ei hun yn cael ei chymhwyso'n eang o fewn ymarfer uniongyrchol, gydag ymarferwyr yn dibynnu ar ddehongliadau ail-law o'r cynnwys o hyfforddiant a chyfarwyddyd rheoli. (Wallace a Garthwaite, 2023). Mae hyn o bosibl yn atal cynnwys yr NOF rhag cael effaith ehangach ar ymarfer. Yn wir, mae angen gwelliant ar yr NOF ei hun i gynrychioli'r meysydd llesiant yn llawn. Er enghraifft, amlygodd canfyddiadau o ddadansoddiad data llesiant elfennau pellach penodol i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, megis atebolrwydd dros wneud penderfyniadau, y berthynas sy'n bodoli gyda gweithwyr proffesiynol a'r dewis dros lefel rheoli cynllunio gofal.

6.22 Mae deall effaith y Ddeddf ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn rhy aml yn anodd i'w benderfynu. Awgrymodd cyfranogwyr y gweithlu er enghraifft bod deall effaith gwasanaethau ataliol yn her gymhleth fydd angen barn hir-dymor. Mae angen amser i fynd heibio a dealltwriaeth dda o'r cyd-destun a diben ei gweithredu. Yn aml, dydy hi ddim yn bosibl gyda'r data cyfredol benderfynu ar y newid ffocws a achoswyd gan y Ddeddf a sut y maen nhw'n effeithio'n ystyrlon ar fywydau pobl sy'n cyrchu gwasanaethau (Read et al., 2023).

6.23 Ar wahân i fetrigau poblogaeth gyfan yn ymwneud ag ail alluogi a gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth ac ystod gyfyngedig o astudiaethau achos a gyflwynwyd mewn Adroddiadau Blynyddol, ychydig o dystiolaeth a gyflwynwyd ynghylch effeithiau atal. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer mentrau cyffredinol a chymunedol gyda'r potensial ar gyfer canlyniadau llesiant pellgyrhaeddol ond anodd eu crynhoi (gweler Lyttleton-Smith et al, 2022). Byddai mwy o ymdrechion i ddeall y

rôl y gall gwasanaethau o’r fath ei darparu ar lefel unigol a chymunedol o fudd i gynllunio a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y gwasanaethau ataliol. Byddai diffinio aml-ddulliau sy’n disgrifio effeithiau hirdymor y Ddeddf dros amser o help i ddeall pa wahaniaeth sy’n cael ei wneud o ganlyniad i’r ddeddfwriaeth. (Llewellyn et al,.2021; Wallace et al., 2023).

*Capasiti a dod o hyd i adnoddau*

6.24 Ym marn mwyafrif o gyfranogwyr yr astudiaeth, peryglodd yr argyfwng ariannol ym maes gofal cymdeithasol nifer o ddyheadau’r Ddeddf – mewn ffyrdd sydd â goblygiadau arbennig o wanychol.

6.25 Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn meysydd megis datblygu cyd-gynhyrchu, lle mae ymgorffori dulliau newydd o weithio ac ymglymu gyda defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i gyflawni eu canlyniadau. Enghraifft gan y grwpiau ffocws a gynhaliwyd gennym ar gyfer astudiaeth Cyd-gynhyrchu (Andrews et al., 2023), oedd am y toriadau a wnaed i gymorth rhai â nam ar y synhwyrau oedd yn amlwg yn grŵp ar y cyrion. Mae’n ymddangos bod cymorth mwy cyffredinol wedi disodli cymorth gweithwyr cymdeithasol arbenigol a dydy hynny ddim yn cynnig yr un lefel o arbenigedd ac y mae'n llai cyfarwydd ag amgylchiadau ac anghenon arbennig darpar gyd-gynhyrchwyr.

6.26 Ymhlith y pethau sy’n llesteirio gwaith aml-asiantaethol effeithiol a hynny'n rhwystro pobl rhag cyflawni eu canlyniadau – o blith y gweithlu a defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr – mae diffyg adnoddau, yn enwedig amser a chapasiti ar draws rhai gwasanaethau i waith aml-asiantaethol, cylchoedd ariannu byr a diffyg aliniad mewn adnoddau dynol ac ariannol, a hynny’n arwain at ddyblygu rhannu gwybodaeth, ymatebion anwadal a gwrthdaro (Wallace a Garthwaite, 2023).

6.27 Roedd bod yn weladwy a chael eich gwerthfawrogi yn golygu cael amser a sylw i rai, gyda llais a rheolaeth yn lleihau oherwydd bod cyfyngiadau ar amser wrth gyflenwi gwasanaethau gofal a chymorth (ac asesu) (Llewellyn et al., 2022). Er bod ein tystiolaeth o’r gweithlu yn dangos dealltwriaeth glir o’r pwysau sydd arnyn nhw – a waethygwyd gan y pandemig - mae rhai yn cydnabod bod diffyg amser a chapasiti yn golygu nad ydyn nhw bob amser yn gallu darparu’r gofal yn y modd tosturiol ac empathetig ag y bydden nhw'n ddymuno. (Wallace et al., 2023).

6.28 Mae hefyd yn bwysig bod yn ystyriol ofalus - o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr – o adegau pan all cyfyngiadau capasiti ar y staff arwain at bobl yn gorfod cyfaddawdu oherwydd nad oes ganddyn nhw amser i ysgwyddo’r gwaith ychwanegol sydd ei angen i feithrin sgyrsiau yn seiliedig ar gryfderau am yr asesu ac am ddarparu gofal a chymorth (Llewellyn et al., 2021).

**Ar y cyfan, pa wahaniaeth y mae'r Ddeddf wedi'i gwneud/yn debygol o'i gwneud?**

6.29 Wrth ystyried y gwahaniaethau a ddaeth yn sgil y Ddeddf, a'r potensial i'r Ddeddf optimeiddio newid, daeth nifer o themâu i'r amlwg o'n synthesis data. Y themâu hyn ydy: a) ailfeddwl y dulliau traddodiadol o ddarparu gwasanaeth, b) anghysondeb ac amrywiad di-alw amdano c) person-ganolog, ac ch) dulliau holistaidd a rheoli disgwyliadau

*Ailfeddwl y dulliau traddodiadol o ddarparu gwasanaeth*

6.30 Mae'r Ddeddf wedi codi statws yr egwyddorion, gan gynnwys ynglyn â chyd-gynhyrchu, llais a rheolaeth, ac atal ac ymyrraeth gynnar, ac wedi gwneud i reolwyr ac ymarferwyr herio ac ail-feddwl am y dulliau hanesyddol o gynllunio a datblygu.

6.31 Fe wnaeth defnyddio technoleg i gyfathrebu mewn dull gwahanol yn ystod pandemig COVID-19 wella profiad rhai pobl o weithio aml-asiantaethol ond, yn baradocsaidd, roedd cyfathrebu effeithiol rhwng asiantaethau a gwasanaethau yn cael ei rwystro gan nad oedd y systemau gwybodaeth yn cael eu hintegreiddio. Nid oedd rhannu gwybodaeth bob amser yn cael ei ymgymryd yn gyson a gyda digon o hyder i sicrhau canlyniadau effeithiol (Wallace et al., 2023).

6.32 Y ffactorau sy'n dylanwadu ar weithio aml-asiantaethol llwyddiannus fu cydleoli gweithwyr, gan gael y bobl iawn yn y tîm gyda'r telerau ac amodau cywir, rhwydweithio cyd-gysylltiedig a rheolaeth a rennir o ran y risgiau. Mae tystiolaeth o rai trafodaethau a chytundebau anodd ond cadarnhaol am setliadau ariannol mewn rhai meysydd gweithio aml-ddisgyblaethol ond hefyd dystiolaeth, gan rai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, o heriau wrth geisio cynnwys partneriaid anhraddodiadol / anstatudol i gwrdd ag anghenion unigol (Wallace & Garthwaite, 2023).

6.33 Mae'r Ddeddf yn gweithio i geisio gwreiddio'r egwyddorion ymhellach o ran cyflenwi gwasanaethau pob dydd. Ar ei orau mae tystiolaeth gan gyfranogwyr ein gweithlu o ail-ddisgrifio, er enghraifft, risg o fewn y broses asesu mewn rhai meysydd mewn

modd a oedd yn fwy grymusol, wedi'u gwreiddio'n llai mewn gwrthdroad ac yn fwy hyderus wrth archwilio rheolaeth a chymorth ar sail cryfderau (Llewellyn et al., 2021; Wallace et al., 2023).

*Anghysondeb ac amrywiad di-alw amdano*

6.34 Er bod tystiolaeth o rai newidiadau cadarnhaol yn y strategaeth ac ymarfer gweithredol, mae problem o hyd ynghylch anghysondeb darparu a chanlyniad, ac amrywiad di-alw amdano.

6.35 Roedd rhywfaint o ymarfer a chanfyddiadau anghyson ynghylch gweithio aml-asiantaethol gan gyfranogwyr y gweithlu sy'n golygu nad ydyn ni'n gallu dod i'r casgliad bod amcanion y Ddeddf yn cael eu cyflawni hyd yma. Dydy hyn ddim yn syndod o ystyried bod dyhead ar gyfer gweithio aml-asiantaethol cryfach heb ei wireddu dros ddegawdau ac mae gweithrediad y Ddeddf yn gymharol ddiweddar (Wallace a Garthwaite, 2023).

6.36 Mae'r dystiolaeth allweddol ar gyfer yr uchod ym mhrofiadau defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a theuluoedd a nododd enghreifftiau o benderfyniadau aml-ddisgyblaethol sy'n cael eu gwneud gan staff heb wybodaeth gywir am ddefnyddwyr gwasanaeth, diffyg cyfathrebu gan yr asiantaethau, ymglymiad annigonol gyda'r teuluoedd wrth wneud penderfyniadau a diffyg cyd-ddealltwriaeth o weithrediad y broses asesu (Llewellyn et al., 2022). Cyflwynodd y gweithlu ddarlun mwy cadarnhaol, gan adrodd bod y Ddeddf wedi helpu i hyrwyddo cyfathrebu da gyda darparwyr a chomisiynwyr, ac â'r unigolyn yn y canol. Mae angen mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn mewn ymarfer aml-asiantaethol canfyddedig rhwng y gweithlu a'r rhai sy'n derbyn y gofal a'r cymorth (Wallace et al., 2023).

6.37 Fe welson ni wahaniaethau mewn dehongli gofynion gweithio aml-asiantaethol y Ddeddf rhwng sefydliadau, pobl a gweithwyr proffesiynol (Wallace a Garthwaite, 2023). Arweiniodd hyn at ddryswch, anghysondeb, gwrthdaro, camddealltwriaeth, disgwyliadau gwahanol a diwylliant gweld bai ar draws sefydliadau, gyda rhai gweithwyr proffesiynol neu sefydliadau yn gweithio'n well gyda'i gilydd nag eraill.

6.38 Mae'r gofynion yn y Ddeddf wedi gweithredu fel ysgogiad i gynyddu gweithio aml-asiantaethol. Fodd bynnag, o safbwynt ymatebwyr y gweithlu yn yr astudiaeth hon, mae profiadau asiantaethau sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd cyn y Ddeddf yn ddangosydd o ba mor dda y maen nhw'n ei wneud nawr. Mae llwyddiant parhaus lle mae'r cyd-weithio hwn yn hanesyddol wedi cefnogi'r unigolyn yn hytrach nag agwedd sy'n canolbwyntio ar y broses o ran gofal.

*Dulliau holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn rheoli disgwyliadau*

6.39 O ran llesiant o dan y Ddeddf, mae sgyrsiau 'Beth sy'n bwysig' yn dod â llesiant, llais a rheolaeth, a chyd-gynhyrchu at ei gilydd. Mae'r rhain yn sianel allweddol y mae gweithwyr proffesiynol yn ystyried bod cyd-gynhyrchu yn digwydd gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal, ac maen nhw'n gyfle pwysig i asesu a gweithredu i wella llesiant holistaidd yr unigolyn. Mae sgyrsiau 'Beth sy'n bwysig' yn cael eu gweld yn gadarnhaol iawn gan weithwyr proffesiynol yn gyffredinol; fodd bynnag, mae'r data gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn fwy cymysg (Llewellyn et al., 2022). Thema gyffredin yn y data a gasglwyd ar gyfer hyn ac astudiaethau diweddar eraill (e.e. Burrows et al., 2021) ydy'r ymdeimlad o siom yn dilyn sgwrs 'Beth sy'n bwysig'.

6.40 Fel rydyn ni wedi nodi uchod, rydyn ni wedi casglu tystiolaeth gan y gweithlu sy'n awgrymu ffocws cynyddol ar weithio mewn partneriaeth / aml-asiantaeth yn dilyn y Ddeddf sy'n ffactor bwysig mewn dull o fynd ati sy'n canolbwyntio ar lesiant. Roedd y ffordd hon o weithio yn eu cefnogi i ystyried llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn fwy holistaidd, yn hytrach na chanolbwyntio ar eu maes gwasanaeth eu hunain yn unig. Dangosodd rhai gweithwyr proffesiynol ffocws cynyddol ar ganlyniadau (gan gynnwys canlyniadau llesiant) yn dilyn y Ddeddf. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y maes gwasanaeth a'r awdurdod lleol (Llewellyn et al., 2021; Wallace et al., 2023).

6.41 Fodd bynnag, mae angen cydbwyso'r agweddau cadarnhaol hyn â materion a gyflwynwyd gan y gweithlu ynghylch yr angen i reoli disgwyliadau pobl, fel bod ganddyn nhw farn 'realistig' ynghylch yr hyn y gallen nhw ei ddisgwyl gan y gwasanaethau cymdeithasol

6.42 Mae hyn ar ei fwyaf amlwg lle mae'r rhai sy'n cyrchu gwasanaethau yn teimlo eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac yn obeithiol y bydd eu barn yn gwneud gwahaniaeth, dim ond i gael eu siomi pan nad yw'r hyn y maen nhw'n ei ystyried fel eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae hyn yn cael ei ddwysáu ymhellach pan na chân nhw eu hysbysu am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r rhesymau y tu ôl iddyn nhw. Clywsom gan bobl am sefyllfaoedd lle mae'r siom hon yn effeithio'n negyddol ar lesiant a pherthynas yr unigolyn â gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol (Lyttleton-Smith et al., 2023). Felly, heb atebolrwydd trylwyr a darpariaeth gwasanaeth digonol i ddiwallu anghenion llesiant, gall y cyfle hwn i wella llesiant gael yr effaith o'i ostwng (Llewellyn et al., 2022.

6.43 Yn ogystal, fe wnaethon ni ganfod bod awydd i ddeall disgwyliadau gwaith aml-asiantaethol, dysgu'r naill oddi wrth y llall a chymharu arferion gweithredol a

rheolaethol y mae angen eu harneisio i greu momentwm cynyddol wrth gyflawni gwaith aml-asiantaeth effeithiol yn fwy cyson (Wallace a Garthwaite, 2023). Roedd agweddau gweithdrefnol ar iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn rhwystro effeithiolrwydd gweithio aml-asiantaeth. Er enghraifft, gall ymateb i anghenion pobl gynnwys llwybrau gofal a chymorth cymhleth sy’n cynnwys gwahanol asiantaethau nad ydyn nhw'n aml yn eglur a gall rhain achosi trallod i deuluoedd pan na all y system fodloni eu disgwyliadau. Yn hyn o beth, mae comisiynu ar y cyd a Gofal Iechyd Parhaus yn parhau i gyflwyno heriau.

6.44 Mae hefyd angen rheoli disgwyliadau o fewn y gweithlu. Er enghraifft, mae gweithio aml-asiantaeth llwyddiannus yn dibynnu i raddau helaeth ar weithwyr o wahanol asiantaethau i fod yn cydweithio; ond mewn rhai achosion amlygodd y berthynas proffesiynol agosach hyn ymhlith gweithwyr wahaniaethau ac anghysondebau cymharol mewn telerau ac amodau, yn enwedig pan fo swyddi a rolau yn ymddangos yn hynod o debyg. Arweiniodd y gwahaniaethau hyn mewn rhai achosion at annifyrrwch a chwyno mewn sefyllfaoedd heb eu rheoli’n effeithiol (Wallace a Garthwaite, 2023; Llewellyn et al., 2021; Wallace et al., 2023).

**A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Ddeddf?**

6.45 Y themâu o dan y cwestiwn hwn ydy; a) cyllid tymor byr fel ffactor sy'n cyfyngu ar y cyfraddau, b) atebolrwydd aneglur mewn amgylcheddau aml-asiantaeth ac c) deuoliaeth a gwahaniaethau o ran deall atal.

*Cyllid tymor byr fel ffactor sy'n cyfyngu ar y cyfraddau*

6.46 Ni fu'n fwriad erioed gan y Ddeddf y byddai cyllido tymor byr yn cyfyngu ar y canlyniadau llesiant posibl y gellid eu cyflawni, ond nodwyd yr heriau o roi agendâu newydd ar waith, mewn amgylchedd tynn sy’n brin o adnoddau, yn adolygiad llenyddiaeth yr astudiaeth a hefyd fel thema ar draws adroddiadau'r astudiaeth.

6.47 Yn arbennig o ran perthynas gydag atal ac ymyrraeth gynnar, amlygodd tystiolaeth gan y gweithlu fod mabwysiadu'r agenda atal ac ymyrraeth gynnar yn dibynnu i raddau helaeth ar fentrau ariannu tymor byr a oedd yn tueddu i leihau dros amser, er enghraifft y Gronfa Gofal Canolraddol. Er mai’r bwriad yn ddiamau oedd prif ffrydio gwasanaethau o’r fath ar ddiwedd y cyfnod ariannu hwn, yn ymarferol mae effeithiau’r pandemig COVID-19 a’r straen ehangach ar adnoddau ym maes gofal cymdeithasol wedi gwneud y broses hon yn fwy heriol (Read et al. 2023).

6.48 Roedd mater anfwriadol arall yn canolbwyntio ar un o naratifau allweddol y Ddeddf – sef er ei fod yn ddarn nodedig o bolisi cyhoeddus, mae ‘atal’ pethau rhag digwydd

neu eu gohirio yn hynod heriol i’w gweithredu. Roedd y naratif hwn yn amlwg yng nghyfrifon rhai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, ac eraill (Llewellyn et al., 2022; Read et al. 2023)

*Atebolrwydd aneglur mewn amgylcheddau aml-asiantaeth*

6.49 Gall ceisio cynyddu'r cyfrifoldebau a rennir trwy weithio aml-asiantaethol agosach arwain at atebolrwydd aneglur, ac adlewyrchir y thema hon yn nhermau trefniadau llywodraethol o safbwynt y gweithlu. Gall hwyluso gwaith aml-asiantaeth drwy newidiadau strwythurol a threfniadol, megis gwella statws a chyfrifoldebau’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, hefyd ychwanegu llinellau adrodd, a thrwy hynny gynyddu pwysau gwaith a phwysau amser (Wallace a Garthwaite, 2023).

6.50 Er bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn dymuno gweld sefydliadau’n cydlynu eu gwaith ac yn cyfathrebu’n gyson, er mwyn sicrhau’r effaith fwyaf tebygol ar eu canlyniadau llesiant, fe wnaethon nhw hefyd nodi pwysigrwydd cael unigolyn neu sefydliad unigol y gallen nhw ystyried oedd yn gyfrifol am eu cefnogi (Llewellyn et al., 2022; Lyttleton-Smith et al., 2023). Mae canlyniad anfwriadol methu â chyflawni parhad yn y ddarpariaeth yn ychwanegu cymhlethdod at yr her o ran llywodraethiant a chyflawni.

*Deuoliaeth a gwahaniaethau o ran deall atal*

6.51 Mae atal ac ymyrraeth gynnar wedi’u fframio o fewn y dogfennau a ddadansoddwyd fel modd o sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy yn ariannol ar gyfer y dyfodol (Read et al., 2023). Maen nhw hefyd wedi'u fframio fel rhai sy'n cynnal bwriad seiliedig ar werthoedd o ryngweithio â defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion ar yr adeg gywir, er enghraifft, i gefnogi cyfiawnder cymdeithasol, adeiladu cyfalaf cymdeithasol a datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau. Yn ymarferol, roedd y ddeuoliaeth hon yn y gyrwyr y tu ôl i weithgarwch ataliol, fel y gwelai'r ymarferwyr bethau, yn golygu y gallai'r nail neu'r llall gael ei flaenoriaethu. Yn seiliedig ar yr amrywiadau rhwng awdurdodau lleol o ran sefyllfa ariannol a dull gweithredu, roedd rhywfaint o dystiolaeth gan y gweithlu bod yr agenda ataliol yn cael ei defnyddio i egluro gostyngiadau mewn gwasanaethau.

6.52 Yn gysylltiedig, adroddodd nifer o weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol am y gwahaniaethau o ran sut y gellir dehongli atal neu sut y mae atal wedi cael ei ddehongli ar lefel awdurdod lleol, gyda hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dadansoddiad dogfennau. Yn y cyd-destun, awgrymwyd bod y cyfnod o galedi

ariannol y cyflwynwyd y Ddeddf ynddo wedi llywio rhai o'r dehongliadau hyn (Read et al, 2023).

6.53 Ar y sail hon, byddai cyflwyno model trosfwaol o atal ac ymyrraeth gynnar yn helpu ymarferwyr i leoli eu hymdrechion ataliol o fewn fframwaith o weithgareddau. Gallai eglurder ynghylch y ffordd y disgwylir bod gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector a rhanddeiliaid allweddol eraill yn gweithredu o fewn y fframwaith hwn helpu i gryfhau natur y berthynas hon wrth symud ymlaen a chadarnhau'r ysbryd o gydweithredu y ceisiwyd ei gyflwyno gan y Ddeddf.

**Crynodeb – mynd i'r afael â P-FE**

6.54 Mae tystiolaeth glir a chymhellol o lawer iawn o waith caled, angerdd, ymrwymiad, addasrwydd ac ewyllys da gan randdeiliaid sy'n ymwneud â'r Ddeddf, o ystyried maint a chwmpas yr heriau sy'n wynebu'r gweithlu gofal a gofalwyr di-dâl.

6.55 Erys heriau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac i'r gofalwyr o ran gwireddu'r rhagolygon a gynigir gan egwyddorion a ffocws y Ddeddf. Yn seiliedig ar y data a gasglwyd gennym ni, roedd yna adroddiadau cadarnhaol am y gallu i gael eu clywed, i ddylanwadu a chael anghenion wedi'u diwallu, ac yn aml roedd cydnabyddiaeth o rôl staff gwasanaethau cymdeithasol unigol wrth wneud i hyn ddigwydd. Roedd gweithredu dulliau a phrosesau asesu ac adnoddau, gweithio aml-asiantaeth a chyllidebau yn ffactorau allweddol a oedd yn llywio sut yr oedd profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cael eu gwella neu eu cyfyngu. Mae angen mynd i'r afael â materion sylfaenol ynghylch y cydbwysedd rhwng y pŵer a'r rheolaeth a gynigir i ddinasyddion fel rhan o'r Ddeddf (sy'n cynnwys cael mwy o reolaeth ariannol) a'r teimladau o ddadrymuso a all nodweddu profiadau pobl.

6.56 Mae gweithio'n llawer mwy effeithiol rhwng ac o fewn sectorau yn hollbwysig ac mae'r Ddeddf wedi bod yn gam cadarnhaol i roi mwy o bwyslais ar yr angen i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio. Fodd bynnag, mae angen cyd-ddealltwriaeth gref o rolau sefydliadol a phroffesiynol ochr yn ochr ag osgoi dulliau sy'n edrych tuag i mewn sy'n canolbwyntio ar adnoddau asiantaethau unigol.

6.57 Ceir tystiolaeth y gall gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd weithio'n dda, ond ystyriwyd yn aml ei fod yn broblematig ar y gorau ac mewn rhai achosion heb fod yn bodoli o gwbl, a hynny ar

draul defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr (Wallace a Garthwaite, 2023). Roedd hyn weithiau'n amlygu ei hun yn yr angen i dderbynwyr gwasanaethau ysgwyddo'r cyfrifoldeb am bontio bylchau rhwng asiantaethau. Wrth fyfyrio ar y data o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, gwelwn, er bod y Ddeddf yn cael ei gweld fel datblygiad cadarnhaol o ran hyrwyddo mwy o gydgysylltu gwasanaethau, bod absenoldeb gwaith amlasiantaethol effeithiol wrth ddarparu gofal a chymorth yn digwydd yn fwy aml na bod yn eithriad.

6.58 Mae ein tystiolaeth hefyd yn awgrymu, os ydy canlyniadau allweddol y Ddeddf i gael eu cyflawni, bod angen rhoi mwy o gydnabyddiaeth i’r trydydd sector wrth iddyn nhw chwarae rhan allweddol yn y gwaith hwn, a bod angen am fuddsoddiad pellach yn y sector hwn.

6.59 Fel y nodwyd yn yr adroddiad llesiant (Lyttleton-Smith et al. 2023), dydy hi ddim yn bosibl dad-gyfuno effaith y Ddeddf oddi wrth effaith y pandemig neu ddylanwadau posibl eraill mewn perthynas â llesiant cyffredinol defnyddwyr gwasanaethau. Does yna ychwaith ddim digon o dystiolaeth feintiol ddibynadwy yn ymwneud â mesur llesiant ar gyfer pobl a gwmpesir o dan y Ddeddf i allu datgan yn bendant sut mae llesiant wedi newid ar gyfer y boblogaeth dan sylw. Fodd bynnag, yr hyn sy’n amlwg ydy bod profiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, fel yr adroddwyd yn flaenorol, wedi’i effeithio’n uniongyrchol gan COVID-19.

6.60 I'r mwyafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn, roedd eu profiad yn un o rwystredigaeth. Yn hytrach na'r gobaith a gynigwyd gan y Ddeddf, roedden nhw'n gweld cyfres o rwystrau. Roedd y rhain yn cynnwys agwedd gymharol ‘tocynistaidd’ at wrando, anghydbwysedd grym rhyngddyn nhw a gweithwyr proffesiynol, yr angen i orfod ceisio galw gweithwyr proffesiynol yn barhaus am gymorth, a diffyg cydnabyddiaeth o’u hawliau yn enwedig o ran materion bod yn sensitif i'r hinsawdd ymhlith pethau eraill. Roedd y rhwystrau hyn yn gweithio yn erbyn y profiad oedd yn cael ei ‘gynnig’ a'i ‘addo’ gan egwyddorion sylfaenol y Ddeddf.

6.61 Ar sail y dystiolaeth hon, rydyn ni'n awgrymu felly bod yna bellter yn parhau rhwng rhethreg hynod ddyheadol asiantaeth unigol o dan y Ddeddf a’r mater hynod gymhleth ac, yn aml, amherffaith o weithredu hyn mewn achosion unigol a bod hynny'n gallu creu rhwystredigaeth a straen. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol pan fydd pobl y mae angen gwasanaethau arnyn nhw'n ceisio eu cael ac yn canfod nad

ydy'r ddarpariaeth ar gael neu nad ydy'n cael ei darparu mewn modd y maen nhw'n teimlo sy'n cynyddu eu llesiant i'r eithaf ac sy'n anaddas iddyn nhw.

6.62 Mae trydydd cwestiwn P-FE yn gofyn inni ystyried 'Os cedwir at y rhain, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae'r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau dymunol? Mae dau beth pwysig i'w mynegi mewn ymateb. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r cymal cychwynnol yn y cwestiwn. Fel y gwelir ym Mhennod 5, cydymffurfiwyd i ryw raddau â'r egwyddorion wrth roi'r Ddeddf ar waith, ond mae'r data o'r gwerthusiad hwn yn awgrymu bod amrywiaeth o ran maint ac ansawdd ledled Cymru. Yn ail, ac yn adeiladu ar hyn, bu ffactorau cyd-destunol materol ac heb eu rhagweld sydd wedi amharu'n gyfreithlon ar y graddau y gellir cyflawni'r canlyniadau dymunol. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod y Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer ffurf o ymarfer newydd, ond mae canfod pa mor gyflym y gellir cyflawni'r canlyniadau a'r canlyniadau yn fater hynod gymhleth. Mae'n ymddangos bod cyfyngiadau ar adnoddau a darpariaeth leol amrywiol – ochr yn ochr â ffactorau allanol y tu allan i reolaeth y llywodraeth – yn atal profiad pobl rhag cael ei optimeiddio. Dydy canlyniadau ddim yn cael eu cyflawni eto yn y ffordd gyson a chynaliadwy a amlinellwyd yn y Ddeddf.

## 7. O'r Ddeddf i'r Effaith? – Argymhellion a chwestiynau prawf ar gyfer trawsnewid

7.1 Fel sy'n amlwg o'r tair pennod flaenorol, mae'r astudiaeth wedi dod â nifer o ffynonellau ynghyd er mwyn ateb cwestiynau allweddol P-FE (gwerthuso, gan ffocysu ar egwyddorion) – cwestiynau ynghylch cysyniadu, gweithredu ac optimeiddio. Mae yna gefnogaeth eang ar draws holl gyfranogwyr yr astudiaeth hon i'r fframwaith galluogi y mae'r Ddeddf yn ei ddarparu, ac i'r egwyddorion sy'n llywio'r ddarpariaeth. Ac eto, mae bylchau, rhwystrau a diffygion ym mhrofiad defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a gweithwyr sydd i gyd yn ceisio gwireddu mwy o'r potensial trawsnewidiol y mae'r Ddeddf yn ei gynnig.

7.2 Yn ogystal â'r atebion i'r tri chwestiwn allweddol hynny, mae P-FE yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd y cyd-destun y mae'r gwerthusiad yn digwydd ynddo. Er mwyn bod yn ddilys, mae angen i ganfyddiadau fod yn "…ddibynnol ar y cyd-destun, yn sensitif ac yn benodol" (Patton, 2018: 210). Gan adeiladu ar hyn, gofynnodd y cwestiwn olaf a ddaeth o fanyleb wreiddiol Llywodraeth Cymru inni ystyried pethau y gallai fod angen eu gwneud yn wahanol er mwyn cau'r bwlch rhwng y disgwyliadau a'r profiadau. Rydyn ni'n rhoi crynodeb o'r argymhellion gynigir ar gyfer pob un o'r egwyddorion yn y paragraffau hyn.[68]

**Pa weithredu, newid neu ddatblygiad pellach sydd ei angen?**

7.3 Yn seiliedig ar asesiad o'r dystiolaeth mewn perthynas ag atal ac ymyrraeth gynnar, awgrymir yr argymhellion canlynol mewn tri maes.

7.4 Yn gyntaf, mae angen datblygu model mwy cysyniadol gyfoethog o atal mewn gofal cymdeithasol sy'n cynnwys parthau strwythurol gofal cymdeithasol (cyd-destunau sefydliadol, darparu, adnoddau a gweithlu) yn ogystal â pharthau rhyngbersonol ac unigol (sy'n canolbwyntio ar anghenion, a'r adnoddau o amgylch yr unigolyn). Yn ail, byddai clustnodi'r adnoddau ar gyfer atal yn y gymuned yn helpu i osgoi'r perygl y bydd yr agenda atal yn cael ei chysylltu'n helaeth â chwilota am arbedion cost tymor byr. Yn drydydd, mae'n bwysig cynyddu'r 'adnoddau' ar gyfer gwerthuso atal mewn gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio (ymysg eraill) 'Fframwaith Perfformiad a

[68] I gael gwybodaeth am fanylion y crynodeb o'r argymhellion yn y ddogfen, gweler: Verity et al. (2023), Llewellyn et al. (2023), Andrews et al. (2023), Wallace and Garthwaite (2023), and Lyttleton-Smith et al. (2023).

Gwella' Llywodraeth Cymru '[69] sydd â'r potensial i gefnogi mesur ehangach o atal, ac o ganlyniad gwell dealltwriaeth o ei effaith.

7.5 Ar ôl ystyried y dystiolaeth ar lais a rheolaeth a dynnwyd o bob agwedd o'r astudiaeth, rydyn ni'n argymell bod pedwar maes yn cael eu hystyried ac yn cael sylw er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl y gall yr egwyddor o lais a rheolaeth ei chael.

7.6 Mae'n hollbwysig, yn gyntaf, hyrwyddo ethos llais a rheolaeth fel bod pawb sydd â dyletswydd i hyrwyddo'r egwyddor hon yn manteisio ar bob cyfle i wneud hynny. Yn dilyn hyn, dylid rhoi blaenoriaeth i wneud llais a rheolaeth yn 'realiti' i bawb, a gellid mynd i'r afael â hyn drwy fuddsoddi mewn eiriolaeth, ochr yn ochr â gweithio gyda sefydliadau a angorir yn y gymuned a buddsoddi ynddyn nhw. Nesaf, mae angen cydnabod pwysigrwydd 'cartograffeg' llais a rheolaeth wrth fapio a gwella modelau, arferion a phrosesau sy'n meithrin llais a rheolaeth mewn ffyrdd y gellir eu mapio, eu monitro a myfyrio arnyn nhw. Yn olaf, mae'n bwysig darparu cymorth a hyrwyddo taliadau uniongyrchol ochr yn ochr â datblygu modelau arloesol ac amgen o gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i gyfeirio at y dinesydd, efallai ar ffurf cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol.

7.7 O safbwynt cydgynhyrchu, gwneir yr argymhellion canlynol fel adlewyrchiad o'r dystiolaeth a gasglwyd gan y tîm ymchwil. Mae angen dod o hyd i gyllid digonol, cynaliadwy hirdymor ar gyfer cydgynhyrchu os yw am gael effaith, ochr yn ochr â datblygu dysgu a chyfleoedd ar gyfer y gweithlu. Dylid dathlu arfer da ym maes cydgynhyrchu ledled Cymru a rhoi cyhoeddusrwydd iddo fel ffynhonnell ysbrydoliaeth i eraill, a dylid hyrwyddo a chefnogi mwy o gydgynhyrchu – er enghraifft, gyda'r bobl sydd fwyaf angen cydnabyddiaeth fel y gallan nhw elwa ar y dulliau gydgynhyrchu. Dylai cymorth emosiynol ac ymarferol fod ar gael mewn ffordd gadarn a chyson i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n rhannu'r personol a'r hyn syn aml yn boenus mewn gweithgareddau cydgynhyrchu. A dylid herio ymagweddau at ofal a chymorth sy'n brynwriaethol, yn dadol ac yn ymrannol rhyngddon ni a nhw, a dylid hybu diwylliant o ddwyochredd, cydgefnogaeth a gweithredu ar y cyd.

[69] Gweler: [Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol: defnyddio tystiolaeth fel sail ar gyfer gwella]

7.8 O ran gweithio aml-asiantaethol, rydyn ni'n cynnig y canlynol fel sail ar gyfer trafodaeth bellach ar sut y gellir gwella effeithiolrwydd cydweithio i gefnogi canlyniadau llesiant pobl orau.

7.9 Mae angen i fesurau perfformiad, canlyniadau a gwybodaeth werthuso fod yn fwy cadarn er mwyn llywio penderfyniadau, a dylid sefydlu cymuned ymarfer ledled Cymru i rannu syniadau ac atebion ar gyfer yr heriau a wynebir. Dylai prosesau aml-asiantaeth a thrawsffiniol fod yn glir i unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac i'r diben hwnnw, dylid cynhyrchu canllawiau pellach ar sut i gyflawni gwaith amlasiantaethol sy'n arwain y sector, ochr yn ochr â darparu hyfforddiant gloywi gorfodol i bawb. partneriaid gweithredol a strategol, mewn lleoliad aml-asiantaeth, gyda'i gilydd. Yn olaf, dylid nodi hyrwyddwr ar gyfer gwaith aml-asiantaeth o fewn pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar draws pob grŵp poblogaeth.

7.10 Roedd elfen llesiant y Ddeddf yn cynnig nod uchelgeisiol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru: ymestyn ei gyrhaeddiad y tu hwnt i gynnig gwasanaethau gofal craidd drwy ymgysylltu'n weithredol â hyrwyddo a gwella llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath. Mae'r astudiaeth werthuso hon wedi nodi problemau sy'n ymwneud â chyflawni'r gwelliant hwnnw mewn llesiant sy'n llesteirio uchelgeisiau'r Ddeddf, ac mae'n argymell tri ymateb i fynd i'r afael â'r rheini.

7.11 Yn gyntaf, dylem sefydlu a chyfleu diffiniad syml, clir o lesiant, wedi'i alinio â'r llenyddiaeth ac â bwriad y Ddeddf. Yn ail, dylid buddsoddi mewn gwell dulliau o fesur llesiant mewn lleoliadau niferus sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar y rhyngwyneb darparu gwasanaethau. Yn drydydd, mae angen addasu tri maen prawf yn y NOF (Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol), sef ymestyn 'perthynas' i gynnwys cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol cynorthwyol fel allwedd i lesiant; ymestyn 'hawliau a hawliadau' i gynnwys atebolrwydd gwasanaethau i bobl sy'n cael mynediad iddyn nhw, gan gynnwys gwybodaeth am ba benderfyniadau a wnaed yn ymwneud â'u gofal a'r rhesymau personol a roddwyd dros y penderfyniadau hynny; a newid mewn rheolaeth dros wasanaethau i gynnwys dewis o ran faint o reolaeth yr hoffai unigolyn ei gael dros ei wasanaethau.

**'Cwestiynau prawf' wedi'u mapio i fwriadau strategol y Ddeddf**

7.12 Mae'n bwysig meddwl am yr hyn y gallwn ni – pob un o'r rhai hynny sydd â rhan yn y Ddeddf – ei wneud yn awr ynglŷn â'r dystiolaeth yr ydyn ni wedi'i chasglu. Os

derbynnir ein dadansoddiad bod polisi, ymarfer a phrofiadau wedi ymwahanu, y naill oddi wrth y llall, mae nifer o gwestiynau yn dilyn

7.13 Dydyn ni ddim wedi ceisio dynodi'n benodol pa grwpiau o randdeiliaid a ddylai fod yn gyfrifol am ateb y cwestiynau hyn. Mae tri rheswm am hyn. Yn gyntaf, rydyn ni'n credu mai mater i randdeiliaid yn y sector ydy dod at ei gilydd i fynd i'r afael â'r cwestiynau hyn os ydyn nhw, wrth gwrs, yn teimlo ei bod yn bwysig iddyn nhw wneud hynny – nid ein lle ni ydy gorchymyn iddyn nhw wneud hynny. ............Yn ail, mae'n wir bod anogaethau o'r fath, yn aml, yn rhy annelwig i fod o gymorth – beth mewn gwirionedd ydy ystyr mynnu bod Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol yn ymateb? Mae gennym lawer mwy o ddiddordeb mewn rhoi'r cyfle i bobl, grwpiau, cymunedau a sefydliadau gynnig yr ymateb y maen nhw'n dymuno ei gyflwyno, yn hytrach nag un y mae'n ofynnol iddyn nhw ei gynnig.. Yn drydydd, rydyn ni'n pryderu bod dynodi rhai sefydliadau, neu fathau o sefydliadau, yn cyfyngu ar yr ystod o bosibiliadau arloesol a chreadigol a'r ffyrdd ymlaen a byddai'n hynny'n wastraff o gyfle.

7.14 Gan adeiladu ar hyn, rydyn ni wedi nodi 19 cwestiwn sydd wedi'u trefnu a'u mapio i wyth o fwriadau strategol y Ddeddf. Mae'r cwestiynau hyn yn deillio o'r dadansoddiad a'r synthesis o'r holl dystiolaeth a gasglwyd gennym, ac mae pob un cwestiwn yn adeiladu ar feysydd o gyfyngiadau a nodwyd yn y dystiolaeth honno.

7.15 Maen nhw wedi'u fframio fel cwestiynau agored i'r sector eu hystyried fel rhagflaenydd i beth bynnag fydd y camau nesaf ar y daith:

**Bwriadaeth Strategol 1: Darparu help a chymorth i bobl asesu eu hanghenion a threfnu a sicrhau'r gwasanaethau gofal a chymorth maen nhw ei angen**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant yn y canlynol:*

1. darparu gofal cymdeithasol fel ei fod yn atgyfnerthu ffurfiau tosturiol sy'n canolbwyntio ar berthynas o wasanaethau gofal a cymorth?
2. y modd y mae asesiadau ar gyfer cymorth gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal, pryd, a chan bwy fel eu bod yn gallu sicrhau'r canlyniadau llesiant gorau posibl i unigolion a gofalwyr?
3. digonolrwydd, priodoldeb a chynaliadwyedd cyllid fel y gellir cefnogi a gofalu am bawb sydd ag anghenion yn ôl diffiniad y Ddeddf?
4. recriwtio a chadw'r gweithlu, er mwyn sicrhau ansawdd, digonolrwydd a chynaliadwyedd y gweithlu?

**Bwriadaeth Strategol 2: Creu systemau a dulliau sy’n rhoi safbwynt y dinesydd yn gyntaf, sy’n seiliedig ar gyd-gynhyrchu gwirioneddol ac sy’n rhoi mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau a’u gofal a chymorth i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer eu llesiant**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant yn y canlynol:*

5. mecanweithiau llywodraeth leol ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni hawliau pobl o dan y Ddeddf heb orfod troi at broses gwyno wrthwynebol?
6. asiantaeth dinasyddion i sicrhau bod lleisiau’r rhai nad ydyn nhw'n cael eu clywed yn aml, ac hefyd yn cael eu gwthio i’r ymylon, yn atseinio, gan arwain at newid sylweddol yn eu profiadau?
7. ystod ac ansawdd y mathau arloesol o gymorth a gyfeirir gan ddinasyddion sydd ar gael o dan y Ddeddf gan gynnwys, ond yn bwysig, heb fod yn gyfyngedig i Daliadau Uniongyrchol?
8. cefnogaeth i'r unigolion egwyddorol a brwdfrydig hynny sydd mewn sefyllfa i hyrwyddo a helpu i ymgorffori ymarfer cydgynhyrchiol?

**Bwriadaeth Strategol 3: Rhoi’r agenda llesiant ac atal wrth wraidd cynllunio strategol, comisiynu a darparu gwasanaethau; a Bwriadaeth Strategol 6. Creu cydadwaith effeithiol rhwng llesiant, atal, cyd-gynhyrchu, asesu, cymhwyster a chymorth**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant yn y canlynol:*

9. dealltwriaeth o faterion sylfaenol a ffactorau achosol i lywio strategaethau atal mewn gofal cymdeithasol ochr yn ochr â modelau effeithiol, adnoddau a newidiadau yn hinsawdd y sefydliadau?
10. cydbwysedd rhwng rhai o'r tensiynau sy'n croes-dynnu o ran y ddyletswydd i gwrdd â'r ddarpariaeth a bennir yn lleol i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol (fel y’u nodwyd gan yr Asesiadau Poblogaeth ac a ddiffinnir mewn Cynlluniau Ardal), a phwysigrwydd darparu gofal cymdeithasol ‘cyffredinol’ waeth beth fo’r ddaearyddiaeth sy’n osgoi 'loteri cod post', yn brigo i'r wyneb?
11. adfywio ac ailddiffinio’r syniadau rhyng-gysylltiedig sy’n sail i egwyddorion allweddol y Ddeddf, i ailennyn diddordeb pobl a chadw’r egwyddorion yn ddeinamig?

**Bwriadaeth Strategol 4: Cynhyrchu newid yn y system gyfan a chreu modelau newydd o ofal a darparu gwasanaethau**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant yn y canlynol:*

12. datblygu hinsawdd o arloesedd, creadigrwydd a gwella ansawdd, yn hytrach na dim ond cydymffurfio?
13. rôl a statws sydd gan fentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol o dan y Ddeddf er mwyn cefnogi unigolion, gofalwyr a chymunedau yn well?
14. i ba raddau y mae arferion da, a gwybodaeth o'r system yn 'teithio' ledled Cymru?

**Bwriadaeth Strategol 5: Mabwysiadu dull ardal leol 'gyfan', yn seiliedig ar ymgysylltu ystyrlon, i ddeall a chwrdd ag anghenion y boblogaeth leol a Bwriadaeth Strategol 8: Sicrhau mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth da i bobl ddod o hyd i wasanaethau cyffredinol sydd ar gael yn y gymuned**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant yn y canlynol:*

15. ansawdd, ystod, cysondeb, a gweithredu casglu, dadansoddi a dehongli data er mwyn llywio gwella ansawdd a datblygu gwasanaethau?
16. cynllunio poblogaeth a phrosesau ymgysylltu sy'n ymglymu'n ystyrlon â phoblogaethau lleol ynghylch yr anghenion?
17. gwybodaeth, cyngor a chymorth sydd y meddiant defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr cyn ac ar fynediad i'r system gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â dealltwriaeth o'u hawliau o dan y Ddeddf, fel bod eu disgwyliadau'n cael eu rheoli'n briodol?

**Bwriadaeth Strategol 7: Integreiddio gwasanaethau llywodraeth leol a rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid, yn enwedig y GIG, i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer unigolion, gofalwyr a chymunedau**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant yn y canlynol:*

18. gweithio ac ymarfer aml-asiantaethol (gan gynnwys diogelu), ac yn yr arferion o weithio o bell ac o hirbell ar gyfer rhai mathau o ryngweithio?
19. atebion technolegol sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol, yn enwedig mewn cyd-destun ôl-bandemig o ran pwysau ar y system a phrinder gweithlu?

**Y Gair Olaf**

7.16 Mae'r pwyntiau bwled sy'n dilyn yn cynrychioli 'stori' ein hastudiaeth ac maen nhw'n gyfres o ddatganiadau sy'n crynhoi'r dystiolaeth yr ydyn ni wedi'i chasglu, a'r her yr ydyn ni bellach o'r farn sy'n bodoli wrth ystyried y Ddeddf:

- Mae’r ddeddfwriaeth, a’r egwyddorion sy’n sail iddi, yn darparu fframwaith ar gyfer newid a gefnogir yn dda o ran y modd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu harfer a’u darparu;
- Mae ‘teithio’ yn drosiad cyson a defnyddiol a ddefnyddir drwy gydol yr astudiaeth gan bobl sy’n defnyddio gwasanaethau, y gofalwyr ac yn fwyaf arbennig y gweithlu, i ddisgrifio’r broses o drawsnewid yr egwyddorion hynny i fod yn weithredol;
- Mae’r cyd-destun y mae’r Ddeddf wedi’i gosod ynddo wedi newid dros amser, ac mewn ffyrdd digynsail. Ar adeg ysgrifennu’r Adroddiad Terfynol hwn, mae grymoedd sy’n ymwneud â’r pandemig iechyd cyhoeddus byd-eang, argyfwng y gweithlu, a’r argyfwng costau byw yn cael eu cyfuno â heriau mwy hir-dymor yn ymwneud â demograffeg a chaledi, i greu realiti newydd ac acíwt nad oedd naill ai'n bodoli o gwbl yn 2016, neu o leiaf ddim i'r un graddau;
- Mae’r ‘man setliad’, lle’r oedd consensws o optimistiaeth a ffocws ynghylch y Ddeddf yn bodoli yn 2016, wedi’i amharu gan yr holl rymoedd cyd-destunol hynny. Mae'r amgylchiadau heriol unigryw hyn wedi gorfodi rhanddeiliaid i symud oddi wrth y 'man setlo' hwnnw;
- Mae tystiolaeth glir a chymhellol am y swm anhygoel o waith caled, angerdd, ymrwymiad, addasrwydd ac ewyllys da welwyd gan yr holl randdeiliaid o ystyried maint a chwmpas yr heriau sy’n wynebu’r gweithlu gofal a gofalwyr di-dâl, ond mae tystiolaeth glir a chymhellol hefyd o problemau sy’n parhau o fewn y system. Fodd bynnag, nid stori o briodoli ydy'r Adroddiad Terfynol hwn – mae’r sefyllfa’n ddadleuol, yn gymhleth, yn gynnil ac yn anniben, heb esboniadau syml nac atebion syml;
- Mae'r dystiolaeth yn dangos y gallwn fod yn hynod gadarnhaol am y modd y cafodd y Ddeddf ei chysyniadoli; mae’r dystiolaeth yn awgrymu y gallwn fod yn llai cadarnhaol ac ychydig yn fwy heriol wrth ystyried y gweithredu, ac yn llai cadarnhaol eto, o ystyried yr heriau cyd-destunol a amlinellwyd, wrth ystyried y darparu gwasanaethau a'r optimeiddio ar draws y system gyfan;
- Mae cryfderau cyson a thraws-randdeiliaid wedi’u nodi yng ngham cyntaf bywyd y Ddeddf (fel y'i deddfwyd). Mae yna ddarlun cadarnhaol ar y cyfan, ond braidd yn gymysg, am yr ail gam pan droswyd y Ddeddf o ddeddfwriaeth ‘ar bapur’ i’r ddarpariaeth (fel y’i gweithredwyd). Mae persbectif llawer mwy negyddol yn cael ei gynnig gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr nad ydyn nhw'n gallu cyflawni’r canlyniadau a ddymunen nhw o ran y gofal a’r cymorth oedden nhw'n ei dderbyn, a hynny mor gyson ag y bydden nhw'n ei ddymuno (yn ôl eu profiad);

- Oherwydd hyn, mae ein hastudiaeth yn dod i'r casgliad bod yna ymdeimlad cynyddol o ymwahanu oddi wrth y weledigaeth wreiddiol o wasanaethau cymdeithasol fel y'i portreadir gan yr egwyddorion – lle mae gwasanaethau cymdeithasol yn chwarae rhan mewn cefnogi llesiant unigol a chyfunol, lle mae timau o ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd ar draws asiantaethau i roi cyfleoedd i bobl fynegi eu dymuniadau, ymarfer rheolaeth dros eu dyfodol, a chyd-gynhyrchu eu canlyniadau pan, a dim ond pan na fydd mesurau ataliol yn gallu eu cadw draw mwyach o ddrysau'r gwasanaethau cymdeithasol;
- Mae hyn wedi arwain at nifer o bobl a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon fod ag ymdeimlad o fod wedi eu datgysylltu oddi wrth addewid yr egwyddorion hynny, ac y gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffactorau sydd wedi effeithio ar wasanaethau cymdeithasol ers dyfodiad y Ddeddf, ac mae yna rwystredigaeth wedi tyfu o gwmpas hyn;
- Mae'r gyfres o 'gwestiynau prawf' (gweler uchod), a nodwyd drwy'r dadansoddiad a wnaed gan dîm yr astudiaeth, yn darparu llwyfan ar gyfer adnewyddu ac ail ganolbwyntio ar egwyddorion craidd y Ddeddf. Ein hargymhelliad ydy y gall y cwestiynau hyn fod yn gyfrwng i gefnogi deialog ymhlith rhanddeiliaid er mwyn bywiogi ac adfywio'r weledigaeth y mae'r Ddeddf yn ei gosod ar ôl COVID-19; ac hefyd
- Dydy'r daith tuag at wireddu nod uchelgeisiol y Ddeddf ddim yn gyflawn, fel sy'n cael ei fynegi'n gyffredinol ym marn cyfranogwyr yr astudiaeth hon. Y cwestiwn, felly, ydy sut wedd sydd ar y cam nesaf o'r daith honno, pwy sydd angen ei theithio, i ble y mae'n arwain, a phryd y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyrraedd?

7.17 Sefydlwyd fframwaith y Ddeddf i alluogi polisi gael ei drawsnewid, newidiadau sefydliadol ac ar lefel system, gan arwain at newid yn y modd y darperir gofal a chymorth. Byddai canlyniad yr holl weithgarwch hwn yn cael ei adlewyrchu ym mhrofiadau'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth a, thros amser, yn arwain at well llesiant i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, a gweld cyflawniad gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.

7.18 Mae'n rhaid i ni ddod i'r casgliad, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd dros y pedair blynedd diwethaf, nad ydy'r cyrchfannau hyn wedi'u cyrraedd eto ar lefel systemau cyfan, er bod grymoedd sylweddol wedi achosi lesteirio a dargyfeirio pobl ar hyd y daith. Nawr, erys y cwestiwn sy'n ymwneud mewn gwirionedd â'r graddau y mae'r

sector cyfan yn credu, wrth fynd i’r afael â’n cwestiynau prawf gyda’n gilydd, y gallai fod yn bosibl i ailddatgan pwrpas cyffredin. Os felly, mae gwireddu'r egwyddorion yn llawn yn cynnig y map a'r arweinlyfr i'r teithiwr parod ar y modd y gellir cyflawni hyn.

## Cyfeiriadau


Age UK (2022) *Why can't I get care? Older people's experiences of care and support.* Llundain. Age UK.

ADSS Cymru and NHS Confederation (2014). *Implementation of the Social Services and Well-Being (Wales) Act, 2014: Self-Assessment Tool*

Anderson P., Lyttleton-Smith J., Kosnes L., Read S., Blackmore H. and Williams Z. (2020). 'Well-being' in Llewellyn, M., Verity, F. and Wallace, S (eds). (2020) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Literature Review*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 60/2020. Ar gael ar: Literature review.

Andrews, N., Calder, G., Blanluet, N., and Baker, R. (2023). *Co-production: research to support the Final Report of the Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.* Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 38/2023. Ar gael ar: Co-production.

Archwilydd Cyffredinol Cymru / Auditor General for Wales (2014). *The Financial Resilience of Councils in Wales*, Swyddfa Archwilio Cymru / Wales Audit Office.

Archwilio Cymru / Audit Wales (2021) *A Picture of Social Care.* Ar gael ar: A Picture of Social Care

Blythe, J., Silver, J., Evans, J., Armitage, D., Bennett, N.J., Moore, M.-L. and Brown, K. (2018). The dark side of transformation: latent risks in contemporary sustainability discourse. *Antipode*, 50(5):1206–1223: The dark side of transformation.

Clark, P. (2019). 'Problems of Today and Tomorrow': Prevention and the National Health Service in the 1970s. *Social History of Medicine*. Hkz018, Prevention and the National Health Service in the 1970s.

Davey, C., Hassan, S., Bonell, C., Cartwright, N., Humphreys, M., Prost, A. and Hargreaves, J. (2017). *Gaps in Evaluation: Methods for Addressing Challenging Contexts in Development*. CEDIL Pre-Inception Paper: Llundain. Available at: Gaps in Evaluation: Methods for Addressing Challenging Contexts in Development.

Equality and Human Rights Commission (2018) *Is Wales Fairer? The state of equality and human rights 2018.* Ar gael ar: Is Wales Fairer?

Gough, I. (2013). The Political Economy of Prevention. *British Journal of Political Science*. 45 (2): 307-327. Ar gael ar The Political Economy of Prevention

Tŷ'r Cyffredin / House of Commons (2021): *COVID-19: Local government finance.* Ar gael ar: COVID-19: Local government finance.

Hussein, S. (2017). "We don't do it for the money"…The scale and reasons of poverty-pay among frontline long-term care workers in England. *Health and Social Care in the Community*, 25(6), 1817-1826. Ar gael ar: We don't do it for the money

Ifan, G. and Sion, C. (2019) *Cut to the bone? An analysis of Local Government finances in Wales, 2009-10 to 2017-18 and the outlook to 2023-24*. Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru / Wales Governance Centre. Ar gael ar: Cut to the bone?

Independent Commission on Social Services in Wales (2010). *From Vision to Action: the Report of the Independent Commission on Social Services in Wales* – ar gael oddi wrth: Independent commission on social services in Wales

Llewellyn, M. (2022) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: expectations and experiences of Black, Asian and Minority Ethnic service users and carers.* Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 32/2022. Ar gael ar: Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: expectations and experiences of Black, Asian and Minority Ethnic service users and carers

Llewellyn, M., Saltus, R., Blackmore, H., Tetlow, S., Williams, Z. and Wallace, S. (2020). 'Voice and Control' in Llewellyn, M., Verity, F. and Wallace, S (eds). (2020) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Literature Review*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 60/2020. Ar gael ar: Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: literature review

Llewellyn, M., Saltus, R., and Kent, W. (2023). *Voice and Control: research to support the Final Report of the Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.* Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 41/2023. Ar gael ar: Voice and control

Llewellyn, M., Verity, F. and Wallace, S. (eds). (2020). *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Literature Review*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 60/2020. Ar gael ar: Literature Review.

Llewellyn, M., Verity, F. and Wallace, S. (eds). (2023). *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Literature Review*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 42/2023. Ar gael ar: Literature Review.

Llewellyn, M., Verity, F., Wallace, S. and Tetlow, S. (2021). *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Process Evaluation*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 2/2021. Ar gael ar: Process Evaluation.

Llewellyn, M., Verity, F., Wallace, S. and Tetlow, S. (2022). *Expectations and Experiences: Service User and Carer perspectives on the Social Services and Well-being (Wales) Act.* Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 16/2022. Ar gael ar: Expectations and experiences.

Lyttleton-Smith, J., Anderson, P., Read, S., and Harris, S. (2023). *Well-being: Research to support the Final Report of the Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.* Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 37/2023. Ar gael ar: Well-being

Marczak, J., Wistow, G., and Fernandez, J. (2019). Evaluating Social Care Prevention in England: Challenges and Opportunities. *Journal of Long-Term Care*, (2019), pp. 206– 217. Evaluating Social Care Prevention in England.

Moriarty, J., Manthorpe, J., & Harris, J. (2018). *Recruitment and Retention in Adult Social Care Services*. Social Care Workforce Unit, Kings College London (Llundain). Recruitment and Retention in Adult Social Care Services

NHS England (2018). *Leading Large Scale Change: A practical guide.* Ar gael ar: NHS England » Leading Large Scale Change

Plsek, P.E., and Greenhalgh, T. (2001). 'The challenge of complexity in healthcare'. *BMJ*, 323:625-8. The challenge of complexity in healthcare'

Parliamentary Review of Health and Social Care in Wales (2018). *A Revolution from Within: Transforming Health and Care in Wales* – Ar gael ar: Parliamentary Review of Health and Social Care in Wales Final Report.

Patton, M. Q. (2010). *Developmental evaluation applying complexity concepts to enhance innovation and use.* New York, NY: Guilford Press.

Patton, M. Q. (2018). *Principles-Focused Evaluation - The GUIDE*. New York/Efrog Newydd: Guilford Press

Read, S., Verity, F., and Richards, J. (2023). *Prevention and Early Intervention: research to support the Final Report of the Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.* Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 43/2023. Ar gael ar: Prevention and Early Intervention.

Senedd Research (2021) *What's next? Key issues for the Sixth Senedd.* Ar gael ar: What's next? Key issues for the Sixth Senedd.

Squires, J.E., Hoben, M., Linklater, S., Carleton, H.L., Graham, N. and Estabrooks, C.A. (2015). 'Job satisfaction among care aides in residential long-term care: A systematic review of contributing factors, both individual and organizational'. *Nursing Research and Practice*, v.2015 Job satisfaction among care aides in residential long-term care.

Tew, J., Duggal, S., Carr, S., Ercolani, M. et al. (2019). Implementing the Care Act 2014: building social resources to prevent, reduce or delay needs for care and support in adult social care in England [online]. Ar gael ar: Implementing the Care Act 2014

Thorlby et al. (2018) *What's the problem with social care, and why do we need to do better?* The Health Foundation, The Institute for Fiscal Studies, The King's Fund and the Nuffield Trust

Verity, F., Read, S., and Richards, J. (2020). 'Chapter 3: Prevention and early intervention literature review' in Llewellyn, M., Verity, F. and Wallace, S (eds). (2020) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Literature Review*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 60/2020. Ar gael ar: Literature Review

Verity, F., Andrews, N., Blackmore, H., Calder, G., Richards, J. and Llewellyn, M. (2019). *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Framework for Change Report*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 38/2019 Ar gael ar: Framework for Change.

Wallace, C. and Garthwaite, T. (2023). *Multi-agency: research to support the Final Report of the Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.* Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 39/2023. Ar gael ar: Multi-agency.

Wallace, S., Verity, F. and Llewellyn, M. (2023). *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Process Evaluation – Workforce Perspectives on the Act Post-COVID*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 40/2023. Ar gael ar: Process Evaluation – Workforce Perspectives on the Act Post-COVID.

Llywodraeth Cynulliad Cymru / Welsh Assembly Government (2011). *Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action* – Ar gael ar: Sustainable social services.

Llywodraeth Cymru (2013). *Social Services and Well-Being (WALES) Bill, Explanatory Memorandum* Caerdydd – Ar gael ar: Social Services and Well-being Act Explanatory Memorandum.

Llywodraeth Cymru (2014). *Social Services and Well-being (Wales) Act 2014*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.

Llywodraeth Cymru (2015). *Social Services and Well-being Act 2014: Part 2 Code of Practice (General Functions)*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: Part 2 Code of Practice

Llywodraeth Cymru (2020). *Performance and Improvement Framework for Social Services*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: Performance and Improvement Framework for Social Services.

Senedd Cymru / Welsh Parliament – Health, Social Care and Sport Committee (2021) *Inquiry into the impact of the COVID-19 outbreak, and its management, on health and social care in Wales: Report 3 – Impact on the social care sector and unpaid carers.* Ar gael ar: Impact on the social care sector and unpaid carers.

Senedd Cymru / Welsh Parliament – Health and Social Care Committee (2022) *Hospital discharge and its impact on patient flow through hospitals.* Ar gael ar: Hospital discharge and its impact on patient flow through hospitals.